Cabinet Office

# Gwneud i wasanaethau cyhoeddus weithio i chi gyda'ch hunaniaeth ddigidol



Swyddfa'r Cabinet

# Gwneud i wasanaethau cyhoeddus weithio i chi gyda'ch hunaniaeth ddigidol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan Brif Ysgrifennydd y Prif Weinidog yn Swyddfa'r Cabinet
drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Mawrth 2026

CP 1498

© Hawlfraint y Goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu'n unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk.

Mae fersiynau fformat amgen o'r adroddiad hwn ar gael ar gais o: www.gov.uk/guidance/contact-the-cabinet-office.

ISBN 978-1-5286-6190-4

E03528850 03/26

Argraffwyd ar bapur â lleiafswm cynnwys 40% o ffibr wedi ei ailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Swyddfa'r Cabinet

# Cynnwys


Rhagair Gweinidogol ............................................................ 9

Crynodeb gweithredol ............................................................ 11

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ............................................................ 14

Rhan 1: Ein huchelgais ............................................................ 15

Profi pwy ydych yn ddigidol ............................................................ 16

Pennod 1.1: Ein datrysiad arfaethedig ............................................................ 17

Pennod 1.2: Beth mae'r ID digidol yn ei olygu i chi ............................................................ 18

Pennod 1.3: Y camau nesaf ............................................................ 19

Rhan 2: Ein dull gweithredu ............................................................ 21

Cyflwyniad ............................................................ 21

Pennod 2.1: Creu'r ID digidol ............................................................ 21

Adeiladu ar y seilwaith presennol ............................................................ 21

Sail i'r ID digidol yn y gyfraith ............................................................ 22

Cyhoeddi'r ID digidol ............................................................ 23

Ystyriaethau Datganoledig a'r Ardal Deithio Gyffredin ............................................................ 24

Pennod 2.2: Storio, rheoli a defnyddio'r ID digidol ............................................................ 26

Storio'r ID digidol ............................................................ 26

Gwasanaethau dilysu digidol ............................................................ 26

Diweddaru'r ID digidol ............................................................ 27

Dileu a dirymu'r ID digidol ............................................................ 27

Defnyddio a gwirio'r ID digidol ............................................................ 28

Gwasanaethau cyfryngol ............................................................ 28

Gwasanaeth Gwirio'r Llywodraeth ............................................................ 29

Rhan 3: Defnyddiol ............................................................ 32

Cyflwyniad ............................................................ 32

Pennod 3.1: Gwybodaeth a gynhwysir yn yr ID digidol ............................................................ 32

Gwybodaeth graidd am unigolyn ............................................................ 33

Gwybodaeth i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus cydlynol ............................................................ 34

Ystyriaeth i ragor o wybodaeth ............................................................ 34

Cyfeiriad ........ 34
Gwybodaeth am ryw neu rywedd ........ 35
Cadw'r manylion yn gyfredol ........ 36
Pennod 3.2: Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ........ 37
Sut y gall ID digidol helpu ........ 38
ID digidol yn sylfaen gwasanaethau cyhoeddus trawsnewidiol ........ 39
Pennod 3.3: Defnyddioldeb yn yr economi ehangach ........ 43
Pennod 3.4: Mynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon ........ 46
Sut y gallai gwiriadau hawl i weithio newid ........ 47
Cymorth Busnes ........ 47
Rhan 4: Cynhwysol ........ 50
Cyflwyniad ........ 50
Pennod 4.1: Cymhwysedd ar gyfer yr ID digidol ........ 50
Isafswm oedran ar gyfer cymhwysedd ........ 50
Gostwng yr isafswm oedran cymhwysedd i 13 oed ........ 50
Rhoi'r gallu i bawb gael ID digidol o'u genedigaeth ........ 51
Pennod 4.2 Datgloi mynediad ar draws cymdeithas ........ 53
Allgáu ar sail dogfennau adnabod traddodiadol ........ 53
Cynhwysiant digidol ........ 53
Grwpiau y mae angen cymorth wedi'i dargedu arnynt ........ 54
Pennod 4.3 Ymrwymiad i gefnogi cynhwysiant ........ 56
Cymorth ymarferol ar gynefino ........ 56
Cymorth cynhwysiant digidol ........ 57
Pennod 4.4 Hygyrchedd ........ 58
Pennod 4.5: Llwybrau mynediad amgen ........ 59
Rhan 5: Dibynadwy ........ 61
Cyflwyniad ........ 61
Pennod 5.1: Diogelu data a phreifatrwydd ........ 61
Adeiladu ar y cynnydd presennol ........ 61
Arfer mwy o gydsyniad a rheolaeth ........ 63

Preifatrwydd drwy ddylunio ac yn ddiofyn ........ 63
Pennod 5.2: Diogelu'r system ID digidol genedlaethol ........ 66
Adeiladu ar brosesau ac arfer gorau presennol seiberddiogelwch ........ 66
Unigolion sy'n agored i niwed ac sy'n wynebu risg ........ 66
Diogelwch gwladol ........ 67
Mynediad cyfreithlon ........ 67
Pwerau'r heddlu ........ 67
Pennod 5.3: Twyll yn her genedlaethol ........ 68
Pennod 5.4 Sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu cryf ........ 70
Strwythurau goruchwylio presennol ........ 70
Trefniadau goruchwylio ychwanegol ........ 71
Rhan 6: Crynodeb Ehangach o'r Effeithiau ........ 73
Effaith ar aelwydydd ........ 73
Effaith ar y sector cyhoeddus ........ 75
Effaith ar yr Economi ........ 76
Effeithiau ar y sector DVS presennol ........ 77
Effeithiau ar bartïon sy'n dibynnu ........ 78
Effeithiau ar gyflogwyr ........ 78
Effaith ar weithwyr anghyfreithlon ........ 79
Cwestiynau ymgynghori llawn a chrynodebau penodau (ar gyfer yr arolwg ar-lein) ........ 82
Dywedwch wrthym amdanoch eich hun ........ 82
[Os ydych yn ymateb fel unigolyn] Cwestiynau Demograffig ........ 82
Gwybodaeth amdanoch chi ........ 85
Rhagor o wybodaeth am eich sefydliad ........ 85
Meysydd o ddiddordeb ........ 87
Rhan 1: Ein huchelgais ........ 88
Pennod 2.1: Creu'r ID digidol ........ 89
Pennod 2.2: Storio, Rheoli a Defnyddio'r ID digidol ........ 90
Pennod 3.1: Gwybodaeth a gynhwysir yn yr ID digidol ........ 93
Pennod 3.2: Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus ........ 94

Pennod 3.3: Defnyddioldeb yn yr economi ehangach ... 97
Pennod 3.4: Mynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon ... 98
Pennod 4.1: Cymhwysedd ar gyfer yr ID digidol ... 99
Pennod 4.2 Datgloi mynediad ar draws cymdeithas ... 100
Pennod 4.3 Ymrwymiad i gefnogi cynhwysiant ... 102
Pennod 4.4 Hygyrchedd ... 103
Pennod 4.5: Llwybrau mynediad amgen ... 103
Pennod 5.1: Diogelu data a phreifatrwydd ... 104
Pennod 5.2: Diogelu'r system ID digidol genedlaethol ... 105
Pennod 5.3: Twyll yn her genedlaethol ... 106
Pennod 5.4 Sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu cryf ... 107
Rhan 6: Crynodeb Ehangach o'r Effeithiau ... 108

# Rhagair Gweinidogol

Ar hyn o bryd, mae'n rhy anodd cael yr hyn y mae ei angen arnoch o'r llywodraeth, pan fydd ei angen arnoch.

Nid yw'r system etifeddol bresennol o ganolfannau galwadau, gwaith papur a'r angen i adrodd eich stori sawl gwaith i wahanol rannau o'r llywodraeth, gydag oriau yn aros ar y ffôn heb wybod ble rydych chi yn y broses, yn ddigon da.

Yn ei lle, byddwn yn adeiladu Prydain wirioneddol fodern lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio i chi.

Gwladwriaeth ddigidol newydd – a fydd yno pan rydych ei hangen fwyaf.

Ond yn gyntaf, mae angen i ni adeiladu'r sylfeini ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus modern newydd hyn.

Dyna beth yw pwrpas y system ID digidol.

Bydd ar gael am ddim i unrhyw un sydd ei eisiau, a bydd wedi'i adeiladu ar dair egwyddor graidd:

- Rhaid iddo fod yn ddefnyddiol: Mae angen iddo fod yn haws na'r hen system ffôn a phapur.
- Rhaid iddo fod yn ddiogel: Bydd gennych fwy o reolaeth dros y data rydych yn eu rhannu, ac rydym yn disgwyl dim llai na lefelau diogelwch bancio.
- Rhaid iddo fod ar gyfer pawb: Ni fyddwn yn gadael pobl ar ôl, a byddwn yn eich helpu os ydych yn cael trafferth gyda thechnoleg neu os nad oes gennych chi fathau eraill o ID, megis pasbort, er enghraifft.

Gydag ID digidol, byddwch yn gallu mewngofnodi i ap GOV.UK a phrofi pwy ydych chi. Ond yn wahanol i fewngofnodi cyffredin, bydd ID digidol yn gweithio ar draws gwahanol adrannau ac yn dod at ei gilydd yn ap GOV.UK ar eich ffôn – fel y gallwch gael mynediad at yr holl wasanaethau y mae eu hangen arnoch mewn un lle.

Rydym yn gwybod bod lefel sylweddol o ddiddordeb cyhoeddus wedi bod yn y system ID digidol, a dyna pam rydym yn lansio'r sgwrs genedlaethol hon, fel y gallwch ddweud eich dweud ar sut mae wedi'i adeiladu.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich adborth ar sut i adeiladu system sy'n ddefnyddiol i bawb, i'ch helpu i gael mynediad at y gwasanaethau y mae eu hangen arnoch.

Er enghraifft, pa wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol i'w chynnwys yn y prawf adnabod digidol newydd i atal y chwilota am fil cyfleustodau neu ddatganiad banc? Pa wasanaethau llywodraeth y gellid eu gwella? Megis cael trwydded yrru neu wirio'ch cod treth? A sut y byddwn yn sicrhau bod pawb wedi'u cynnwys?

Ein llinell sylfaen yw dechrau gyda'r lleiafswm o bwyntiau data posib, digon i brofi'n syml mai chi yw pwy rydych chi'n dweud ydych chi, a dim byd mwy – ond os oes angen mwy

i gefnogi'r defnyddiau rydych chi ac aelodau eraill o'r cyhoedd eu heisiau, megis profi eich cyfeiriad, dyna rywbeth y byddwn yn ei archwilio.


Ni allwn barhau â'r dull dwyffordd hwn lle mae gwasanaethau yn y sector preifat yn gyflym, yn hawdd ac yn ddigidol, a'r rhai yn y sector cyhoeddus yn araf, yn drwsgl ac yn anghysylltiedig.

Dyma pam mae'r llywodraeth hon yn gwneud y gwaith caled i adeiladu sylfeini'r wladwriaeth fodern a gwasanaethau cyhoeddus y dyfodol.

Bydd y system ID digidol yn helpu i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus, ond rydym am i chi fod ei heisiau a bod yn rhan ohoni.

Nawr yw eich cyfle.

**Y Gwir Anrhydeddus Darren Jones AS**
**Prif Ysgrifennydd y Prif Weinidog**




# Crynodeb gweithredol

Mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno system ID digidol cenedlaethol (dogfen adnabod). Bydd hyn wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus digidol y genhedlaeth nesaf yn y DU ac yn cefnogi arloesedd yn yr economi ehangach. Bydd yn helpu i ddatgloi ffyrdd hollol newydd o gynnig nwyddau a gwasanaethau, a bydd yn allweddol i wneud rhyngweithio pobl â'r wladwriaeth mor effeithlon a defnyddiol â'r rhyngweithio y maent wedi arfer ag ef yn y sector preifat, megis bancio ar-lein.

Yn ei hanfod, mae'r system hon yn ymwneud â gwneud bywydau pob dydd pobl yn haws |drwy foderneiddio prosesau hen ffasiwn. Bydd yr ID digidol newydd:

- ffordd gyfleus i bobl brofi pwy ydyn nhw
- yn ddiogel ac yn rhoi mwy o reolaeth i bobl dros eu data
- yn cynnig mynediad i bawb sy'n gymwys at ID cynhwysol, heb daliadau ymlaen llaw
- yn helpu'r llywodraeth i leihau biwrocratiaeth ac adeiladu'r gwasanaethau cyhoeddus greddfol, effeithlon ac ymatebol y mae'r DU yn eu haeddu

Rydym am i bobl yn y DU lunio'r system a sut y bydd yn gweithio, i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion hyn Dyma pam rydym yn cynnal ymgynghoriad eang a chynhwysol i gasglu barn a dod â phobl at ei gilydd i drafod a dadlau, gan lywio, yn y pen draw, ein dewisiadau dylunio yn y dyfodol.

Cynigiwn y bydd tair egwyddor graidd yn llywio dyluniad yr ID digidol newydd. Rhaid iddo fod:

- **Yn ddefnyddiol**: Bod modd ei ddefnyddio'n eang ar draws yr economi yn ffordd i unigolion brofi pwy ydynt, ac yn ganolog i'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau cyhoeddus
- **Yn gynhwysol**: Ar gael i'w greu a'i gyrchu heb gost i unigolion, ac yn gynhwysol drwy fwriad – gan helpu'r rhai sydd yn cael trafferth profi pwy ydynt ar hyn o bryd, neu sydd wedi'u heithrio'n ddigidol
- **Yn ddibynadwy**: Wedi'i ategu gan fesurau cadarn o ran preifatrwydd, gwytnwch a diogelwch y gall pob eu rheoli – wedi'i greu yn unol â safonau trylwyr y llywodraeth ar gyfer gwasanaethau dilysu digidol

Rydym yn dylunio'r ID digidol newydd fel rhywbeth y bydd pobl eisiau ei gael, yn hytrach na rhywbeth y mae'n rhaid iddynt ei gael. Ni fydd unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar bobl i gael neu gyflwyno'r ID digidol.

Bydd yr ID digidol yn cael ei storio yn bennaf fel dogfen ddigidol ar ddyfais rhywun, megis ffôn clyfar neu lechen gydnaws. Rydym yn disgwyl iddo gynnwys eu henw llawn, dyddiad geni, llun a chenedligrwydd – er na fydd angen rhannu'r holl wybodaeth hon yn llawn pan ddefnyddir yr ID digidol. Er enghraifft, lle bo'n bosib, bydd yn rhannu yn unig fod person dros 18 oed, neu fod ganddynt hawl i weithio, yn hytrach na rhannu eu dyddiad geni llawn neu genedligrwydd.

Er mwyn cyflwyno'r system newydd yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol posib, byddwn yn ehangu ar systemau presennol y llywodraeth sydd eisoes yn profi a gwirio hunaniaeth pobl yn llwyddiannus.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Mae **Rhan 1: Ein huchelgais** yn cyflwyno'r dirwedd bresennol, cyn cyflwyno ein nodau ar gyfer y system newydd a'r buddion lefel uchel y bydd yn eu rhoi i bobl ledled y DU.
- Mae **Rhan 2: Ein dull** yn disgrifio sut rydym yn bwriadu adeiladu'r system ID digidol, gan harneisio buddsoddiadau presennol y llywodraeth mewn datblygu gwladwriaeth ddigidol. Mae'n esbonio cylch oes yr ID digidol – sut y caiff ei roi, ble y caiff ei storio a sut y gellir ei rannu a'i wirio.
- Mae **Rhan 3: Yn ddefnyddiol** yn trafod sut mae gan y system ID digidol y potensial i'n helpu i adnabod pobl yn gyson, fel y gallwn leihau biwrocratiaeth ac

adeiladu gwasanaethau cyhoeddus mwy greddfol, effeithlon ac ymatebol yn y dyfodol. Mae'n esbonio sut y gellir ei ddefnyddio yn yr economi ehangach, a sut y byddwn yn defnyddio'r ID digidol i fynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon, fel mai dim ond y rhai sydd â'r hawl i weithio yn y DU a gaiff wneud hynny. Mae'r penodau hyn yn gofyn cwestiynau ynghylch pa wybodaeth y dylid ei chynnwys ar yr ID digidol a sut y gallai fod fwyaf defnyddiol i chi.

- Mae **Rhan 4: Cynhwysol** yn trafod cynlluniau'r llywodraeth ar gyfer ID ac ymgyrch cynhwysiant digidol, i sicrhau bod yr ID digidol ar gael ac yn hygyrch i bawb. Mae'n trafod pwy fydd yn gymwys, gan gynnwys yr isafswm oedran ar gyfer yr ID digidol. Mae'n gwahodd barn ar ba grwpiau y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt, beth yw eu hanghenion a sut y gallai llwybrau mynediad amgen edrych.
- Mae **Rhan 5: Dibynadwy** yn cynnwys gwybodaeth am sut y byddwn yn dylunio'r system newydd i sicrhau bod pawb yn gallu bod yn hyderus y bydd yn diogelu eu data. Mae'n cynnwys trafodaeth ar fesurau diogelwch technegol, safonau diogelu data, a sut y gall pobl allu rhoi rhagor o ganiatâd a chael rhagor o reolaeth wrth ddefnyddio'r ID digidol. Mae hefyd pennod ar lywodraethu a goruchwylio.
- Mae **Rhan 6: Ystyriaethau ehangach** yn rhoi ein hasesiad cychwynnol o effeithiau posib y system a'r gwerth yr ydym yn credu y gallai fod iddi, o'n helpu i adeiladu gwasanaethau cyhoeddus mwy greddfol, effeithlon ac ymatebol i leihau ffrithiant yn yr economi ehangach.

Mae system ID digidol genedlaethol yn seilwaith cyhoeddus hanfodol ar gyfer yr oes ddigidol. Rydym am dynnu ar arbenigedd a doethineb ystod eang o randdeiliaid, o fusnesau i undebau llafur, technolegwyr a chymdeithas sifil, yn ogystal ag arweinwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a all ddefnyddio'r ID digidol i wella gwasanaethau i bobl yn y DU. Dim ond ar ôl yr ymgynghoriad hwn y gwneir penderfyniadau dylunio allweddol, i adeiladu'r cynnyrch gorau posib i bawb. Rydym yn ddiolchgar i bawb sy'n cymryd yr amser i gymryd rhan.

## Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Bydd yr ymgynghoriad yn agored rhwng 10 Mawrth a 5 Mai.

Gallwch ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad drwy'r ddolen hon: http://www.gov.uk/government/consultations/making-public-services-work-for-you-with-your-digital-identity.

Fel arall, gallwch anfon ymatebion i consultation@digitalid.cabinetoffice.gov.uk.

Byddwch yn derbyn cadarnhad e-bost awtomataidd os bydd eich ymateb e-bost yn cael ei dderbyn yn llwyddiannus.

Gellir anfon ymatebion drwy'r post i:

c/o Digital ID

Swyddfa'r Cabinet

70 Whitehall

Llundain

SW1A 2AS

Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad.

Bydd eich ymateb yn ddefnyddiol iawn os caiff ei fframio mewn ymateb uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnwyd, er y croesewir sylwadau a thystiolaeth ychwanegol hefyd.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr ymgynghoriad yma.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori 8 wythnos cychwynnol hwn, byddwn yn cynnal 'Panel y Bobl ar ID Digidol' – proses ymgysylltu trafodol fanwl gyda sampl gynrychioliadol eang o'r DU o 120 o unigolion i drafod y polisi yn fanwl Dewisir unigolion drwy ddidoli (loteri ddinesig).

Gwahoddir cyfranogwyr i gyfres o weithdai personol ac ar-lein, lle byddant yn dysgu am y maes polisi drwy gyflwyniadau arbenigol a thrafodaethau panel. Byddant yn cael cymorth hwyluswyr arbenigol i ystyried safbwyntiau amrywiol a phwyso a mesur cyfaddawdau, cyn gweithio tuag a set o argymhellion cyffredin ar gyfer y llywodraeth. Daw'r broses hon i ben ar 21 Mehefin, sef ar ddiwedd y broses ymgynghori ffurfiol.

# Rhan 1: Ein huchelgais

Yn y DU, nid oes gennym un ffordd awdurdodol o brofi mai ni yw pwy rydyn ni'n dweud ydym ni. Mae gwasanaethau ar-lein ac all-lein, cyhoeddus a phreifat, yn aml yn gofyn i ni brofi ein hunaniaeth, ond rhaid i ni wneud hynny gan ddefnyddio ystod o ddogfennau nad oeddent erioed wedi'u bwriadu i chwarae'r rhan hon – megis pasbortau, trwyddedau gyrru a biliau cyfleustodau. Mae hyn yn creu biwrocratiaeth ddiangen ac yn gadael llawer yn cael trafferth fforddio, dod o hyd i neu gasglu tystiolaeth o'u hunaniaeth wrth ryngweithio â'r llywodraeth, ac yn yr economi ehangach.

Mae hyn yn arwain at nifer o broblemau:

- **Mae profi pwy ydych yn ddryslyd, yn gymhleth ac yn faich** – gall pobl gael bod gorfod llywio gwahanol ddogfennau a gwaith papur at wahanol ddibenion yn rhwystredig ac yn ailadroddus, ac ar yr un pryd rhaid i'r llywodraeth, busnesau a sefydliadau eraill hefyd ymgodymu â'r cymhlethdod hwn. Mae hyn yn gosod beichiau diangen ar bobl, ac yn creu cost a gwaith gweinyddol diangen, gan danseilio effeithlonrwydd yn y sectorau cyhoeddus a phreifat.
- **Ni all y llywodraeth ddarparu'r gwasanaethau cyhoeddus modern y mae llawer o bobl yn eu disgwyl** – mae peidio â chael un prawf adnabod sy'n caniatáu i wasanaethau cyhoeddus gyfeirio at bobl yn gyson yn rhwystro uchelgais y llywodraeth hon o'i gwneud yn hawdd manteisio arnynt, eu gwneud yn fwy cydlynol, ac yn fwy ymatebol i anghenion a hawliau pobl. Mae hyn yn atal trawsnewid digidol cyflymach, mwy rhagweithiol a phersonol yn y sector cyhoeddus, gan ddal pobl mewn cylchoedd o fiwrocratiaeth.
- **Mae risgiau diogelwch data diangen yn cael eu creu** – er mwyn profi pwy ydynt, rhaid i bobl drosglwyddo symiau sylweddol o ddata personol; fel arfer mwy na sydd eu hangen. Yn waeth, mae sefydliadau yn aml yn storio copïau o ddogfennau ffisegol a ddefnyddir ar gyfer adnabod pobl, gan gynyddu'r risgiau o ddatgelu data heb ganiatâd a phroblemau yn sgil hynny.
- **Mae grŵp craidd o bobl ddifreintiedig yn wynebu allgau parhaus** – mae ymchwil Swyddfa'r Cabinet yn dangos nad oes gan 1 o bob 10 o bobl yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ID â llun adnabyddadwy, ac mae Mynegai Digidol Defnyddwyr Banc Lloyds 2023 yn dangos bod oddeutu 25% yn cael trafferth defnyddio gwasanaethau digidol ar-lein. Mae'r dogfennau mwyaf dibynadwy – megis pasbortau a thrwyddedau gyrru – yn costio i'w cael, tra gall diffyg sgiliau digidol a pherchnogaeth ffôn clyfar olygu rhagor o allgáu. Mae hyn yn cloi pobl allan o gymdeithas, ac yn enwedig manteision digideiddio.
- **Rydym yn dioddef lefelau uchel o dwyll** – mae dibynnu ar amrywiaeth o ddogfennau ffisegol hefyd yn rhoi cyfle i gamddefnyddio'r system. Rhwng Mehefin 2024 a 2025, roedd twyll yn cyfrif am 44% o droseddau yng Nghymru a Lloegr, yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Defnyddir trwyddedau gyrru a

phasbortau ffug neu wedi'u dwyn gan droseddwyr i osgoi gwiriadau adnabod, ac adroddwyd dros 118,000 o achosion o dwyll adnabod i'r Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol yn hanner cyntaf 2025. Mae hyn yn costio o ran amser ac arian i bobl a sefydliadau gywiro'r sefyllfa pan fydd pethau'n mynd o'i le.

## Profi pwy ydych yn ddigidol

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ffordd well o wirio pwy yw person. Mae gan ddogfennau adnabod digidol ('ID') fanteision clir dros ddewisiadau amgen ar bapur – gallant fod yn fwy diogel ac yn fwy cyfleus. Er enghraifft, gall gwiriadau gwrth-dwyll a diogelwch digidol roi mwy o hyder bod rhywun yn pwy maent yn dweud yr ydyn nhw mewn gwirionedd. Ac, os yw dyfais rhywun yn cael ei dwyn, gallant ei hamddiffyn, ei chloi a'i dileu o bell. Mae hyn yn helpu i gadw gwybodaeth pobl yn ddiogel, ac yn ei gwneud hi'n anoddach i droseddwyr gamddefnyddio manylion adnabod nad ydynt yn eiddo iddynt.

Mae system ID digidol hefyd yn helpu i ddatgloi ffyrdd hollol newydd o gynnig nwyddau a gwasanaethau, megis y gwasanaethau cyhoeddus greddfol, effeithlon ac ymatebol y mae'r DU yn eu haeddu. Rhaid i ddealltwriaeth awdurdodol o hunaniaeth rhywun ategu'r gwaith hwn, gan roi hyder i wasanaethau cyhoeddus mewn pwy maent yn ymdrin â nhw, a'r modd i gefnogi pobl ar draws seilos adrannol. Gyda'r cam allweddol hwn ar waith, gallai gwasanaethau cyhoeddus weithio yn well i unigolion, gan symud i ffwrdd o brosesau hen ffasiwn a biwrocrataidd, tuag at wasanaethau rhagweithiol, didrafferth sy'n cael eu darparu pan fydd pobl eu hangen ac mewn ffyrdd sy'n gweithio iddynt. Er enghraifft, wrth newid eu henw, gallai rhywun ddweud wrthym unwaith – a'r newid yn cael ei ddiweddaru'n awtomatig ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, heb orfod dweud wrth adrannau fesul un.

Mae pobl ledled yr UE a gweddill y byd eisoes yn mwynhau manteision niferus hunaniaethau digidol.

- **Yn Awstralia**, gall pobl ddefnyddio eu ID digidol i fanteisio ar dros 246 o wasanaethau'r llywodraeth ochr yn ochr ag ystod o wasanaethau preifat, o fancio i brynu alcohol. Mae hyn yn lleihau'r angen am nifer o gyfrifon a darnau o bapur ar wahân.
- **Yn Nenmarc**, mae 97% o drigolion dros 15 oed yn defnyddio'r system ID digidol genedlaethol, gan drawsnewid eu bywydau pob dydd. Er enghraifft, gall myfyrwyr fewngofnodi ac adfer eu cofnodion addysg a'u cymwysterau yn awtomatig mewn ceisiadau swyddi a phrifysgolion.
- **Yn Estonia**, amcangyfrifir bod llofnodion digidol wedi'u galluogi gan y system ID digidol yn arbed 2% o'i holl allbwn economaidd bob blwyddyn Mae'r system hefyd yn arbed amser ac ymdrech i bobl, sy'n golygu nad oes rhaid iddynt ddarparu'r un wybodaeth i'r llywodraeth ddwywaith.

Mae'r cynnydd yn y DU, fodd bynnag, wedi bod yn arafach. O fewn y llywodraeth, mae mentrau megis 'GOV.UK One Login' a 'GOV.UK Wallet' yn dechrau chwyldroi sut mae pobl yn cyrchu gwasanaethau cyhoeddus ar-lein – gan ddarparu un 'drws ffrynt' i'r llywodraeth a chaniatáu i bobl storio dogfennau digidol yn ddiogel yn hytrach nag ar bapur. Yn y sector preifat, mae darparwyr gwasanaeth dilysu digidol (DVS) sy'n gweithredu o dan y Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 hefyd yn poblogeiddio manylion adnabod digidol. Ond mewn llawer o senarios, mae sut rydym yn profi ac yn dangos pwy ydym ni yn y DU yn rhy feichus, cymhleth a hen o hyd, gyda llawer o bobl yn methu ag elwa o DVS. Heb i'r llywodraeth ddarparu ID digidol sylfaenol, bydd llawer yn y DU yn parhau i ddibynnu ar ddogfennau papur, yn enwedig y rhai sy'n wynebu allgáu digidol neu ID.

Os yw'r DU am wireddu manteision hunaniaethau digidol yn llawn, rhaid i ni sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at ID digidol diogel, a'u bod yn cael cymorth i wneud hynny. Er mwyn cadw i fyny â'r sector preifat a bod yn arweinydd byd-eang mewn gwasanaethau cyhoeddus digidol, rhaid i ni foderneiddio ein dull o adnabod, gan ddefnyddio'r dechnoleg orau i sicrhau bod pawb yn y DU yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau cyhoeddus a phreifat y mae eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt.

## Pennod 1.1: Ein datrysiad arfaethedig

Er mwyn gwireddu'r manteision hyn yn yr ystod ehangaf bosib o senarios, mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i greu ID digidol cenedlaethol newydd a fydd yn ddefnyddiol, yn gynhwysol ac yn ddibynadwy.

Yn anad dim, bydd yr ID digidol yn ddefnyddiol. Bydd yn helpu pobl i brofi pwy ydynt a phethau amdanynt eu hunain, megis eu hoedran, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd yn eu galluogi i gael mynediad at ystod o wasanaethau yn haws, diogelu eu gwybodaeth a'u preifatrwydd yn well, ac yn rhoi mwy o reolaeth iddynt dros sut mae eraill yn trin eu data. Os bydd y cyhoedd yn ymddiried ynddo ac y caiff ei fabwysiadu'n eang, bydd hyn yn arbed amser, yn lleihau dyblygu, ac yn creu sylfaen ar gyfer arloesi yn y dyfodol, gan yrru i lawr ffurfiau traddodiadol o dwyllo.

Bydd y system ID digidol hefyd yn gynhwysol. Am y tro cyntaf, bydd datrysiad hunaniaeth ddigidol ar gael yn rhad ac am ddim i bob dinesydd cymwys o Brydain ac Iwerddon, a gwladolion tramor sydd â chaniatâd i fod yn y DU. Yn rhan o'r system, byddwn yn lansio rhaglen gynhwysiant. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau na fydd y rhai sydd heb ddyfais gydnaws, megis ffôn clyfar neu lechen, sy'n llai hyderus yn ddigidol neu sy'n wynebu heriau penodol – megis y rhai sydd heb gyfeiriadau parhaol – yn cael eu hallgáu. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar lwybrau mynediad amgen, megis cynhyrchion ffisegol sy'n dal i hwyluso gwiriadau digidol a chymorth wyneb yn wyneb, yn ogystal â'r gallu i unigolion dibynadwy (e.e. gofalwyr, rhieni) weithredu ar ran eraill.

Yn olaf, bydd yr ID digidol yn ddibynadwy. Bydd arbenigwyr yn y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol yn rhoi cyngor ar ei ddyluniad o'r cychwyn. Bydd egwyddorion craidd, megis lleihau data, yn cael eu hymgorffori o'r cychwyn, a bydd y datrysiad yn adeiladu ar seilwaith diogel presennol, gan gynnwys y gwasanaeth pasbort, y gwasanaeth eVisa, GOV.UK One Login a GOV.UK Wallet. Mae hyn yn golygu y bydd yr ID digidol newydd yn cael ei gadw'n ddiogel ar ffôn person, yn rhoi rheolaeth iddynt ar y wybodaeth honno, gan roi rheolaeth iddynt dros y wybodaeth honno, a'r rhan fwyaf o ddata'r llywodraeth yn aros lle mae eisoes wedi'i storio'n ddiogel, yn adrannau'r llywodraeth.

## Pennod 1.2: Beth mae'r ID digidol yn ei olygu i chi

Bydd yr amrywiaeth o ffyrdd y gall pobl ddewis defnyddio eu ID digidol yn tyfu dros amser. Ar y dechrau, rydym yn disgwyl y bydd yn ddefnyddiol ar gyfer pethau syml yn y sector preifat, megis profi oedran wrth brynu alcohol. Yn yr achosion defnydd hyn, bydd pobl hefyd yn gallu parhau i ddefnyddio unrhyw ddewisiadau amgen eraill y maent eisoes yn eu defnyddio os yw'n well ganddynt – ni fydd gofyniad i ddefnyddio'r ID digidol newydd.

Ni fydd mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn ddibynnol ar gael yr ID digidol. Fodd bynnag, i'r rhai sy'n dewis cymryd rhan, bydd y system ID digidol yn darparu pwynt mynediad syml ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus digidol newydd, modern, gan ddyfnhau a chyflymu'r gwaith y mae GOV.UK One Login eisoes yn ei wneud. Trwy ddarparu hunaniaeth ddigidol ddibynadwy i bawb sy'n gymwys, a fydd yn cefnogi'r llywodraeth i baru a gwirio gwybodaeth bresennol am bobl ar draws sawl gwasanaeth cyhoeddus mewn ffyrdd cyfrifol, sy'n gwella preifatrwydd, bydd yn bosib darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt yn gynt ac yn effeithiol – heb greu cronfa ddata sengl o holl ddata'r llywodraeth am berson Bydd hyn hefyd yn cefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy rhagweithiol, sy'n golygu y gallai pobl allu cael y cymorth y mae ganddynt hawl iddo yn awtomatig mewn ffordd bersonol.

Blaenoriaeth gynnar arall ar gyfer y system ID digidol fydd cefnogi ymdrechion pellach i fynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon. Mae'r rhai sy'n gweithio yn y DU heb yr hawl i wneud hynny yn tanseilio'r rhai sy'n chwarae'n deg yn ôl y rheolau. Erbyn diwedd y Senedd hon, bydd gan yr ID digidol rôl ganolog yng nghyfundrefn hawl y DU i weithio.

Mae gan bob cyflogwr yn y DU eisoes gyfrifoldeb i atal gweithio'n anghyfreithlon. Ar hyn o bryd, gallant wneud hyn drwy gynnal gwiriadau hawl i weithio rhagnodedig cyn cyflogi rhywun. Yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn cynnig deddfu fel bod rhaid gwirio tystiolaeth yn ddigidol fel rhan o wiriad hawl i weithio rhagnodedig. Bydd y dystiolaeth y gellir ei gwirio gan broses ddigidol gadarn yn cynnwys yr ID digidol, ochr yn ochr â phasbortau biometrig Prydain ac Iwerddon (a chardiau pasbort Iwerddon) ac eVisas.

Dyma'r unig ffordd i fusnes ddangos eu bod wedi cynnal gwiriad hawl i weithio i atal gweithio'n anghyfreithlon.

Bydd y symud i wirio digidol yn erbyn yr ystod gul hon o dystiolaeth yn symleiddio cydymffurfiaeth i unigolion a busnesau. I unigolion, bydd yn haws dangos hawl i weithio, tra bydd yn symleiddio'r broses recriwtio ar gyfer busnesau ac yn creu llwybr archwilio digidol o ble mae gwiriadau wedi'u cynnal i gefnogi gorfodi. Bydd dileu dibyniaeth ar ddogfennau papur hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach i droseddwyr ddefnyddio dogfennau ffug i gael swydd, ac yn atal cyflogwyr diegwyddor rhag anwybyddu dogfennaeth amheus, gan helpu i sicrhau tegwch yn y farchnad lafur.

## Pennod 1.3: Y camau nesaf

Rydym yn bwriadu i'r ID digidol fod ar gael i'r rhai sydd am gael un erbyn diwedd y llywodraeth hon, yn dilyn y gwaith adeiladu technegol angenrheidiol a'r gymeradwyaeth Seneddol ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol sy'n sail iddynt. Bydd buddion pellach yn dilyn wrth i'r system ein helpu i alluogi darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus symlach, digidol, gydol oes y mae pobl yn ei ddisgwyl gan y llywodraeth.

Bydd y system ID digidol yn llwyddiant dim ond os bydd pobl yn ymddiried ynddi. Dim ond os oes ganddynt gyfle gwirioneddol i lunio'r system y caiff yr ymddiriedaeth hon ei chreu, a dyna pam rydym wedi penderfynu defnyddio dull newydd o gynnal yr ymgynghoriad hwn sy'n mynd y tu hwnt i ofyn am sylwadau ar gynigion yn unig. Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud ymdrechion wedi'u targedu i gynnwys y rhai y gallai'r cynigion effeithio arnynt fwyaf, ynghyd â chynnwys y rhai y mae eu lleisiau yn aml ar goll o ymgynghoriadau mwy traddodiadol oherwydd allgáu digidol neu rwystrau systemig eraill.

Cynhelir yr ymarfer hwn mewn dau gam. Bydd y cyntaf yn 8 wythnos o ymgysylltu agored – a fydd yn digwydd rhwng 10 Mawrth a 5 Mai – lle gall unrhyw un sydd eisiau cymryd rhan rannu eu barn. Ar yr un pryd ag ymgysylltu ar-lein, byddwn yn cefnogi sgyrsiau a digwyddiadau lleol ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys sioeau teithiol, byrddau crwn, yn ogystal ag adnoddau i helpu cymunedau i gynnal eu trafodaethau eu hunain mewn ffyrdd sy'n gweithio iddynt.

Yn yr ail gam, a fydd yn dilyn yr ymgysylltu agored, byddwn yn dod â grŵp cynrychioliadol o 100-120 o bobl o bob cwr o'r DU at ei gilydd i gymryd rhan mewn 'Panel y Bobl ar ID Digidol' – proses ymgysylltu cydgynghorol fanwl. Bydd y grŵp hwn yn clywed y safbwyntiau a rennir yn ystod y cam ymgysylltu agored, yn trafod gwahanol safbwyntiau, ac yn trafod meysydd anghytundeb yn agored. Byddwn yn eu cefnogi i weithio gyda'i gilydd i bwyso cyfaddawdau, archwilio tir cyffredin a datblygu argymhellion a rennir ar gyfer y llywodraeth. Ni fydd y grŵp hwn yn gwneud

penderfyniadau, ond bydd eu hargymhellion – wedi'u llunio gan safbwyntiau a rennir yn y cyfnod ymgysylltu agored – yn helpu i lywio'r camau nesaf.

Gyda'i gilydd, bydd y ddau gam hyn yn creu ffordd agored a chynhwysol i'r cyhoedd fod yn rhan o lunio penderfyniadau am y system ID digidol. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid arbenigol trwy gydol yr ymgynghoriad a'r tu hwnt.

Bydd safbwyntiau a rennir yn y ddau gam hyn yn cael eu hystyried yn ofalus gan y llywodraeth i ddatblygu'r camau nesaf ar gyfer y system ID digidol. Bydd ymateb ffurfiol y llywodraeth i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ar ôl i bob cam o'r ymgynghoriad ddod i ben a bod yr holl ymatebion wedi'u hystyried yn briodol.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad a sut i gymryd rhan yn y ddau gam yn GOV.UK. Gallwch hefyd weld y testun llawn mewn ystod o fformatau hygyrch.

**Cwestiynau** ar Ran 1: Ein Huchelgais

1.0.C1. Beth ydych chi'n meddwl fydd prif fanteision, os o gwbl, system adnabod digidol genedlaethol newydd y llywodraeth?

1.0.C2. Beth ydych chi'n meddwl fydd prif anfanteision, os o gwbl, system adnabod digidol genedlaethol newydd y llywodraeth?

1.0.C3. Un o nodau'r llywodraeth ar gyfer y system adnabod digidol genedlaethol newydd yw ei gwneud hi'n haws i bobl brofi pwy ydyn nhw. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai'r system arfaethedig helpu i gyflawni'r nod hwn, a pham?

a. Cytuno'n Gryf
b. Cytuno Rhywfaint
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno Rhywfaint
e. Anghytuno'n Gryf
f. Ddim yn gwybod
    i. 1.0.C3.1 Esboniwch eich ateb

1.0. C.4 Mae'r llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r system ID digidol i alluogi gwasanaethau cyhoeddus mwy modern, effeithlon, wedi'u teilwra. Pa wasanaethau cyhoeddus byddech chi am i'r llywodraeth flaenoriaethu eu gwneud yn gyflymach neu'n fwy effeithlon gan ddefnyddio'r system?

# Rhan 2: Ein dull gweithredu

## Cyflwyniad

Fel y nodir uchod, mae'r llywodraeth yn bwriadu creu ID digidol cenedlaethol a fydd yn ddefnyddiol, yn gynhwysol ac yn ddibynadwy. Er mwyn cefnogi trafodaeth wybodus am sut y gallai'r system ID digidol weithio yn ymarferol, mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau drwy amlinellu ein dull o greu, storio a defnyddio'r ID digidol. Er nad yw penderfyniadau dylunio terfynol wedi'u gwneud eto, bydd yr esboniad hwn yn hanfodol ar gyfer ymgysylltu'n ystyrlon â gweddill yr ymgynghoriad.

## Pennod 2.1: Creu'r ID digidol

### Adeiladu ar y seilwaith presennol

Ym mis Ionawr 2025, nodwyd ein dadansoddiad o'r problemau y mae'r llywodraeth yn eu hwynebu gyda thechnoleg ddigidol yn *Adolygiad y Llywodraeth o'r Cyflwr Digidol*. Gyda hwn, cyhoeddwyd ein cynllun gweithredu yn y *Glasbrint ar gyfer Llywodraeth Ddigidol Fodern*, y mae'r *Map Trywydd ar gyfer Llywodraeth Ddigidol Fodern* eleni wedi rhoi ar waith. Fel rhan o'r cynllun chwe phwynt ar gyfer diwygio digidol y llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i gryfhau ac ymestyn ein seilwaith cyhoeddus digidol a data, a chydlynu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu gwella'r rhyngwyneb rhwng pobl, y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus drwy ddefnyddio technoleg. Mae gallu profi pwy ydych yn gyflym ac yn ddiogel drwy'r system ID digidol genedlaethol yn allweddol i gyflawni'r weledigaeth hon.

Lle bo'n bosib, bydd yr ID digidol yn adeiladu ar systemau presennol sydd eisoes yn gweithredu yn rhannau dibynadwy o'r llywodraeth. Bydd y seilwaith hwn yn cael ei ehangu a'i wella i fodloni galw cynyddol y system ID digidol ac i ddod â'r buddion i bobl yn gynt – gan ddefnyddio'r arbenigedd sydd eisoes wedi mynd i greu datrysiadau digidol diogel a hygyrch.

Y pedwar gwasanaeth mwyaf perthnasol ar hyn o bryd yw:

- **Mae GOV.UK One Login** yn caniatáu i bobl brofi pwy ydynt unwaith cyn defnyddio'r manylion adnabod digidol hynny i gael mynediad at fwy na 122 o wasanaethau ar draws y llywodraeth. Mae'n cael ei gyflwyno ar draws holl wasanaethau llywodraeth ganolog i ddisodli'r dirwedd flaenorol o ddulliau mewngofnodi seilo a dyblyg ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Disgwylir cynnwys holl wasanaethau'r llywodraeth erbyn diwedd 2027.
- **Mae GOV.UK Wallet** yn galluogi defnyddwyr GOV.UK One Login i storio a chyflwyno fersiynau digidol o ddogfennau a roddir gan y llywodraeth ar eu ffonau.

Mae hyn yn cynnwys y Cerdyn Cyn-filwyr, a'r Drwydded Yrru Ddigidol a fydd yn cael ei chyflwyno cyn bo hir. Mae'n rhoi mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr wrth rannu dogfennau'r llywodraeth, ac yn rhoi mwy o reolaeth i ddefnyddwyr dros ba wybodaeth maent yn ei rhannu wrth brofi pethau amdanynt eu hunain, megis oedran neu hunaniaeth.

- **Y Gwasanaeth Pasbort,** sy'n cael ei weinyddu gan Swyddfa Basbort EF, sy'n rhan o'r Swyddfa Gartref. Swyddfa Basbort EF yw unig gyhoeddwr pasbortau'r DU, ac mae'n ffynhonnell awdurdodol ar gyfer gwybodaeth am genedligrwydd i ddinasyddion Prydain.

- **Y gwasanaeth eVisa**, sy'n cael ei weinyddu gan Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI), sy'n rhan o'r Swyddfa Gartref. eVisa yw'r ffynhonnell awdurdodol ar gyfer manylion adnabod a gwybodaeth am statws mewnfudo ar gyfer gwladolion tramor yn y DU, ac maent wedi disodli dogfennau mewnfudo ffisegol i raddau helaeth (megis cardiau preswylio biometrig). Mae hyn yn gwella effeithlonrwydd i ddarparwyr gwasanaeth, ac yn cynyddu diogelwch ac yn atal twyll, gan helpu i ddarparu system ffiniau a mewnfudo fodern.

Yn ogystal, mae seilwaith ar gyfer creu a defnyddio hunaniaethau digidol yn ddibynadwy eisoes yn bodoli, gan gynnwys *ffframwaith ymddiriedaeth ID digidol a phriodoleddau'r DU* (y 'fframwaith ymddiriedaeth)'. Mae hwn yn fframwaith statudol o safonau, rheolau ac arfer gorau y mae'r llywodraeth yn eu cyhoeddi i ddangos sut olwg sydd ar wasanaeth dilysu digidol (DVS) da, y gellir ardystio DVS yn annibynnol ar ei sail. Gall darparwyr DVS ardystiedig wneud cais i ddangos eu gwasanaethau yn y *gofrestr statudol o wasanaethau hunaniaeth a phriodoleddau digidol*, a gynhelir yn GOV.UK. Mae'r seilwaith hwn yn helpu pobl a sefydliadau i ddod o hyd i DVS dibynadwy. Rydym yn bwriadu i'r ID digidol cenedlaethol weithredu o fewn yr ecosystem hon. Rydym yn disgwyl i GOV.UK Wallet (a fydd yn dal yr ID digidol) gael ei ardystio fel DVS, a bydd GOV.UK One Login (fel y gwasanaeth ymbarél) yn ceisio cynnal ei ardystiad yn erbyn y fframwaith ymddiriedaeth.

## Sail i'r ID digidol yn y gyfraith

Yn wahanol i fersiynau digidol eraill o ddogfennau a gyhoeddwyd gan y llywodraeth, fel y Drwydded Yrru Ddigidol sydd ar ddod, ni fydd gan yr ID digidol unrhyw ragflaenydd hanesyddol uniongyrchol. Bydd y llywodraeth yn rhoi dogfen ddigidol newydd i ymgeiswyr cymwys, sydd wedi'i fwriadu'n benodol i fod yn brawf adnabod annibynnol ac awdurdodol. Rydym yn bwriadu deddfu a sicrhau craffu Seneddol ar fesurau newydd i:

- greu a chyhoeddi'r ID digidol
- gweinyddu gwybodaeth adnabod a chymhwysedd berthnasol yn barhaus
- rheoli'r ID digidol trwy gydol ei gylch bywyd (am ragor o wybodaeth am storio, rheoli a defnyddio'r ID digidol, gweler Pennod 2.2)

## Cyhoeddi'r ID digidol

Yn gyffredinol, bydd cyhoeddi'n dilyn y camau canlynol:

- Bydd unigolyn yn gwneud cais ar-lein am yr ID digidol, a fydd yn eu hannog i fewngofnodi neu greu cyfrif gyda GOV.UK One Login
- Efallai y bydd angen i'r unigolyn wirio ei hunaniaeth (os nad ydynt wedi gwneud hynny yn ddigonol yn flaenorol), a bydd angen profi eu cymhwysedd ar gyfer yr ID digidol. Bydd hyn yn dibynnu ar ba dystiolaeth y gallant ei chyflwyno, gan eu harwain i lawr un o'r llwybrau canlynol:
    - Os gallant wirio pwy ydynt drwy ddefnyddio pasbort neu eVisa y DU, caiff eu gwybodaeth ei gwirio'n awtomatig gyda'r ffynhonnell awdurdodol (Swyddfa Basbort EF neu UKVI).
    - Os ydynt yn ddinesydd Prydeinig ac nad oes ganddynt basbort y DU, byddant yn cael eu cyfeirio at wasanaeth a fydd yn eu cefnogi'n gynhwysol i brofi eu hunaniaeth a'u cenedligrwydd (yn debyg i wasanaeth pasbort oedolion cyntaf Swyddfa Basbort EF)
    - Os ydynt yn ddinesydd Gwyddelig, neu os na allant ddilyn un o'r llwybrau uchod, bydd angen iddynt ddarparu tystiolaeth briodol o'u hunaniaeth a'u cenedligrwydd. Fel yr amlinellir isod, bydd hyn yn ystyried y trefniadau'r Ardal Deithio Gyffredin (CTA) yn ogystal â'r hawliau a gydnabyddir o dan Gytundeb Dydd Gwener y Groglith.
- Ar ôl gwirio eu hunaniaeth a/neu gymhwysedd yn llwyddiannus, bydd y llywodraeth yn rhoi ID digidol i'r unigolyn, wedi'i gysylltu â'u cyfrif GOV.UK One Login.

Bydd yr ID digidol yn cael ei roi yn bennaf i bobl ar fformat wedi'i warchod yn ddigidol – a elwir yn 'ardystiad y gellir ei ddilysu' – y gellir ei storio ar ddyfais gydnaws megis ffôn clyfar neu lechen. Bydd hyn yn debyg i'r ffordd y mae pobl eisoes yn storio cardiau talu digidol a thocynnau. Bydd ystyriaethau allweddol ar gyfer y safonau a adeiladir ar eu cyfer yn cynnwys:

- diogelwch
- derbyniad eang ar draws ystod o fusnesau a sefydliadau
- potensial ar gyfer rhyngweithrededd (o fewn y DU, yr Ardal Deithio Gyffredin a thramor)
- cymorth ar gyfer technolegau sy'n gwella preifatrwydd, megis datgelu dethol

**Blwch 2.1.1. Beth yw ardystiad dilys?**

Dogfennau digidol yw'r ardystiadau y gellir eu dilysu. Fel dogfennau ffisegol, gall pobl ddefnyddio ardystiadau y gellir eu dilysu i gadarnhau eu cymhwysedd i berfformio gweithgareddau penodol neu ddilysu honiadau amdanynt eu hunain. Maent fel arfer yn cynnwys gwybodaeth am y person y maent yn perthyn iddynt, megis eu henw a'u ffotograff. Gan eu bod yn cael eu diogelu a'u cyflwyno drwy ddulliau technegol, gellir hefyd cadarnhau bod ardystiad yn ddilys pan fyddant yn cael eu defnyddio – er enghraifft, profi eu bod wedi cael eu cyhoeddi gan gorff awdurdodol megis adran y llywodraeth, ac nad ydynt wedi'u ffugio, nad oes neb wedi ymyrryd arnynt neu eu dirymu.

Yn ogystal â'r llwybr safonol hwn, rydym hefyd yn ystyried a fydd angen llwybrau amgen i gael mynediad at yr ID digidol, er mwyn sicrhau bod pob unigolyn cymwys yn gallu cael mynediad at y system. Mae rhagor o fanylion yn Rhan 4, ar wneud yr ID digidol yn gynhwysol.

## Ystyriaethau Datganoledig a'r Ardal Deithio Gyffredin

Rydym am sicrhau bod pob un o ddinasyddion Prydain ac Iwerddon, a phobl sydd â chaniatâd i fod yn y DU, yn gallu defnyddio ac elwa o'r ID digidol. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i sicrhau y bydd y system adnabod digidol yn gweithio'n effeithiol ledled y DU gyfan, gan gydnabod bod llawer o'r gwasanaethau lle gallai dinasyddion elwa o ddefnyddio ID digidol yn faterion datganoledig, sy'n gyfrifoldeb y llywodraethau datganoledig.

Bydd cyflwyno'r system newydd hon yn ystyried y trefniadau o dan yr Ardal Deithio Gyffredin (CTA) yn ogystal â'r hawliau a roddir i bobl o dan Gytundeb Dydd Gwener y Groglith.

Yn hyn o beth, rydym yn parchu hawl pobl Gogledd Iwerddon o dan Gytundeb Gwener y Groglith i uniaethu yn Wyddelig, yn Brydeinig, neu'r naill a'r llall, ac i ddal dinasyddiaeth Brydeinig a/neu Wyddelig heb driniaeth wahaniaethol. Ni fydd unrhyw ofyniad i wladolion Iwerddon gymryd dinasyddiaeth Brydeinig er mwyn elwa o'r system ID digidol.

Byddwn hefyd yn parchu'r trefniadau dan y CTA rhwng y DU, Dibyniaethau'r Goron (Beilïaeth Jersey, Beilïaeth Guernsey ac Ynys Manaw) ac Iwerddon.

Bydd dinasyddion Prydain ac Iwerddon barhau i symud yn rhydd, fel nawr, i breswylio yn y naill awdurdodaeth neu'r llall, ac i fwynhau hawliau a breintiau cysylltiedig, gan gynnwys yr hawl i weithio, astudio a phleidleisio mewn etholiadau, yn ogystal â chael mynediad at fudd-daliadau lles cymdeithasol a gwasanaethau iechyd. Bydd hawliau gweithwyr trawsffiniol, sy'n byw yn Iwerddon ac sy'n gweithio yng Ngogledd Iwerddon

neu Brydain Fawr, ac wedyn yn dychwelyd adref (neu i'r gwrthwyneb), yn cael eu hystyried yn ofalus.

Bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Dibyniaethau'r Goron, a Llywodraeth Iwerddon gyda'r nod o sicrhau bod y system ID digidol yn cael ei ddatblygu yn unol â'r ymrwymiadau a amlinellir uchod. Bydd y Llywodraeth yn parhau i drafod yr agweddau hynny ar ei chynigion ar ID digidol, y mae gan Lywodraeth Iwerddon ddiddordeb ynddynt, er mwyn sicrhau eu bod yn gydnaws â rhwymedigaethau cyfreithiol presennol a'r trefniadau hirsefydlog rhwng y ddwy wlad.

**Cwestiynau** am Bennod 2.1: Creu'r ID digidol

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer arbenigwyr sy'n siarad yn eu rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

2.1.C1. Caiff yr ID digidol cenedlaethol ei roi fel ardystiad (neu ddogfen ddigidol) i'w storio ar ddyfais gydnaws, sy'n debyg i'r ffordd y mae pobl eisoes yn storio cardiau talu a thocynnau ar eu ffonau clyfar. A oes safonau cyhoeddi technegol, y tu hwnt i'r rhai a ddefnyddir eisoes gan GOV.UK Wallet, y dylem fod yn adeiladu'r ID digidol cenedlaethol iddynt?

a. Oes

b. Nac oes

c. Ddim yn gwybod

    i. 2.1.C1.1 Esboniwch eich ateb, a rhowch enghreifftiau o'r safonau technegol y dylid eu defnyddio.

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

2.1.C2. A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch effaith yr ID digidol cenedlaethol sy'n benodol i'ch rhan chi o'r DU? Os felly, dewiswch pa wlad a pham.

a. Gogledd Iwerddon

    i. 2.1.C2.1. Esboniwch eich ateb

b. Yr Alban

    i. 2.1.C2.2. Esboniwch eich ateb

c. Cymru

    i. 2.1.C2.3. Esboniwch eich ateb

d. Lloegr

    i. 2.1.C2.4. Esboniwch eich ateb

e. Dim effaith

f. Ddim yn gwybod

# Pennod 2.2: Storio, rheoli a defnyddio'r ID digidol

## Storio'r ID digidol

Er y bydd gan bob defnyddiwr y dewis i storio eu ID digidol yn eu GOV.UK Wallet, rydym yn agored i archwilio a ellid ei wneud yn hygyrch, a sut, drwy ddarparwyr gwasanaeth dilysu digidol (DVS), gan gynnwys drwy storio mewn gwasanaethau deiliad trydydd parti (y cyfeirir ato yn aml fel 'waled ddigidol'). Ein prif amcan yw bod unrhyw storio a defnydd o'r ID digidol yn ddiogel, a dim ond y defnyddiwr â hawl fydd yn gallu ei gyrchu a'i ddefnyddio.

*Gwasanaethau dilysu digidol*

Gallai fod yn bosib i unigolyn storio eu ID digidol cenedlaethol mewn gwasanaethau deiliaid trydydd parti, drwy naill ai swyddogaeth lawrlwytho uniongyrchol neu drwy rannu copi o'u GOV.UK Wallet. Efallai y bydd pobl eisoes yn defnyddio gwasanaethau deiliad heblaw GOV.UK Wallet, a bod y rhain yn well ganddynt am nifer o resymau, gan gynnwys manteision preifatrwydd canfyddedig a dewisiadau ynghylch profiad y defnyddiwr.

Gall y manteision hyn, fodd bynnag, gael eu gorbwyso gan lai o ddealltwriaeth gyhoeddus a llai o ddiogelwch, yn enwedig os yw gwybodaeth yn cael ei diogelu'n amhriodol gan drydydd partïon. Er enghraifft, ym Mhennod 5.3 rydym yn trafod sut y gallai troseddwyr hyrwyddo apiau answyddogol sy'n honni mai nhw yw'r ID digidol neu GOV.UK Wallet i dwyllo defnyddwyr i lawrlwytho maleiswedd neu gyflwyno data sensitif. Byddai angen i ddatrysiadau amgen ar gyfer dal gwybodaeth, felly, fod o leiaf mor ddiogel, ac yn gallu gwrthsefyll twyll cystal â'r GOV.UK Wallet a pheidio â chyflwyno gwendidau i'r system. Am y rheswm hwn, byddwn ond yn ystyried caniatáu i drydydd parti ddal yr ID digidol cenedlaethol os bodlonir amodau penodol, gan gynnwys:

- Cafodd ei ardystio yn 'wasanaeth deiliad' o dan fersiwn gyfredol fframwaith ymddiriedaeth ID digidol a phriodoleddau y DU, a gynhelir gan y Swyddfa

Hunaniaethau a Phriodoleddau Digidol (OfDIA) yn yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg (DSIT).
- Ymddangosodd ar y gofrestr hunaniaeth ddigidol a gwasanaethau priodoleddau
- Roedd wedi dod i gytundeb penodol gyda'r llywodraeth, gan gynnwys cytundeb ar unrhyw delerau ac amodau angenrheidiol a allai gael eu llywio gan yr ymgynghoriad hwn

## Diweddaru'r ID digidol

Bydd rhywfaint o'r wybodaeth a gedwir yn yr ID digidol yn statig, megis dyddiad geni, gan dybio ei fod wedi'i ddilysu'n gywir. Gall gwybodaeth arall newid dros amser, megis enw rhywun (os byddant yn priodi neu'n ei newid drwy weithred newid enw) neu eu llun. Mewn egwyddor, fodd bynnag, bydd angen bod modd newid unrhyw briodoledd am berson, ac ail-anfon eu hardystiad ID digidol, rhag ofn y bydd gwallau yn y broses gyhoeddi. Bydd angen diweddaru neu ailgyhoeddi pob ID digidol o bryd i'w gilydd i ddarparu ar gyfer newidiadau technoleg neu ddyddiadau dod i ben. Gwelir ystyriaeth bellach o rolau defnyddwyr wrth gadw eu ID digidol yn gyfredol ym mhennod 3.1.

## Dileu a dirymu'r ID digidol

Ar ôl ei gyhoeddi, efallai y bydd unigolyn am ddileu eu ID digidol, neu efallai y bydd angen ei ddirymu (h.y. ei ganslo), yn ddiweddarach. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun am dynnu eu ID digidol o'u GOV.UK Wallet eu hunain. Byddant yn gallu gwneud hyn ar unrhyw adeg, a bydd y broses wedi'i chynllunio i fod yn syml ac yn gyflym.

Pan fydd defnyddiwr yn gwneud cais i ddileu, caiff yr ID digidol ei dynnu'n barhaol o'u dyfais eu hunain, ac ni fydd modd ei ddefnyddio mwyach oni bai eu bod yn dewis ei lawrlwytho eto. Bydd adrannau perthnasol y llywodraeth yn cadw unrhyw gofnodion perthnasol sy'n sail i ID digidol yr unigolyn yn unol â'u polisïau cadw data a'u hysbysiadau preifatrwydd – yn debyg iawn i sut nad yw dileu ap, yn awtomatig, yn dileu unrhyw gyfrif y mae ei angen i ddefnyddio'r ap hwnnw. Mae hyn yn angenrheidiol i fodloni rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, megis sicrhau diogelwch ac uniondeb y gwasanaeth ac atal twyll. Bydd angen i ddefnyddwyr gysylltu â'r adran berthnasol yn uniongyrchol os byddant am arfer eu hawl i wrthwynebu'r prosesu hwn. Wrth i ni barhau i uno gwasanaethau cyhoeddus drwy'r system hon, byddwn yn archwilio sut y gellid symleiddio'r broses hon.

Bydd angen y pŵer ar y llywodraeth hefyd i ddirymu ID digidol person dan amgylchiadau cyfyngedig, megis os nodir defnydd twyllodrus. Dim ond o dan amgylchiadau a reolir yn llym y bydd dirymiad yn digwydd, a llunnir prosesau cadarn i lywodraethu dirymiad a gweithdrefnau eraill. Am ragor o wybodaeth, gweler Pennod 5.4 ar Oruchwylio a Llywodraethu.

## Defnyddio a gwirio'r ID digidol

Unwaith y bydd ID digidol wedi'i greu, bydd angen ffyrdd o rannu'n ddibynadwy â'r rhai y mae angen ei wirio, boed hynny'n wasanaeth cyhoeddus, busnes, elusen neu berson arall. Mae angen i'r gwirwyr hyn, a elwir yn 'bartïon sy'n dibynnu', fod yn hyderus bod y data yn gywir a heb ymyrryd arno, fel y gallant ddibynnu arno.

Yn wahanol i ddogfennau ffisegol, ni ddylid dibynnu ar wybodaeth am yr ID digidol heb gael ei gwirio drwy ddulliau technolegol. Mae hyn oherwydd y gallai 'archwiliad gweledol' (h.y. lle mae person ond yn dangos eu ID digidol ar sgrin eu dyfais i barti sy'n dibynnu) ganiatáu i rywun ddangos sgrin ffug neu wedi'i golygu heb i lygaid dynol sylwi ar hyn. Yn lle hynny, bydd angen i'r ID digidol gael gwiriad technegol, drwy broses o'r enw 'dilysu rhaglennol,' pryd bynnag y caiff ei gyflwyno.

Er enghraifft, yn hytrach na dim ond dangos eu ID digidol i gynorthwyydd siop, byddent yn ei gyflwyno o'u GOV.UK Wallet i'w sganio gan y cynorthwyydd siop. Gallai'r cynorthwyydd ddefnyddio dyfais a ddarperir gan eu cyflogwr neu derfynell ffisegol, megis terfynell talu a ddefnyddir ar gyfer taliadau digyffwrdd, i wneud hyn. Bydd hyn yn helpu i gadarnhau nad yw ID digidol wedi ei ffugio, ei ddirymu, na bod rhywun wedi ymyrryd ag ef.

*Gwasanaethau cyfryngol*

Rydym yn disgwyl mai darparwyr DVS cyfryngol fydd yn gwneud y rhan fwyaf o wiriadau yn yr economi ehangach – ac rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r model a ategir gan Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025. Er mwyn cyflawni ein nodau o gynnal diogelwch ac ymddiriedaeth o'r naill ben i'r llall, dim ond darparwyr DVS sydd wedi'u hardystio o dan fersiwn gyfredol o'r fframwaith ymddiriedaeth ac sydd ar gofrestr y llywodraeth fydd yn gallu gwirio ID digidol a gyflwynir o GOV.UK Wallet, gan gynnig gwiriadau cadarn yn wasanaeth i bartïon sy'n dibynnu. Mae sawl gwasanaeth 'cyd-drefnu' o'r fath eisoes ar gael gan ddarparwyr ar gofrestr y llywodraeth.

Rydym yn disgwyl y bydd DVS eisiau darparu amrywiaeth o wasanaethau gwirio (gyda chytundeb defnyddwyr), megis

- cynnig gwiriadau soffistigedig sy'n addas mewn lleoliadau masnachol neu ddiwydiannau rheoledig
- cynnwys ymarferoldeb megis cadw cofnodion at ddibenion archwilio
- integreiddio'r ID digidol i deithiau presennol defnyddwyr yn yr economi ehangach (megis teithiau taliadau)

Ar wahân, rydym yn bwriadu i ddarparwyr DVS ardystiedig a chofrestredig addas allu adeiladu ar yr ID digidol yn yr un ffordd ag yr ydym wedi'i thrafod mewn mannau eraill ar gyfer ardystiadau eraill yn GOV.UK Wallet. Er enghraifft, gallai darparwr DVS

ddefnyddio gwybodaeth o'r ID digidol cenedlaethol yn GOV.UK Wallet i greu eu hardystiad digidol newydd eu hunain, o bosib wedi'i gyfuno â gwybodaeth arall y maent wedi'i chyrchu. Gelwir hyn hefyd yn 'ardystiad deilliedig', y gellid ei ddefnyddio i brofi ystod o wahanol bethau am rywun.

*Gwasanaeth Gwirio'r Llywodraeth*

Rydym hefyd yn bwriadu datblygu 'Gwiriwr y Llywodraeth', a fydd yn cefnogi cyd-drefnu a gwirio ardystiadau. Bydd y gwasanaeth hwn yn cefnogi partïon sy'n dibynnu yn y sector cyhoeddus i ddefnyddio ac ymddiried mewn gwybodaeth ID digidol mewn ystod o senarios. Rydym yn bwriadu ardystio a chofrestru Gwiriwr y Llywodraeth yn DVS o dan Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025.

Pan fydd rhywun yn cyflwyno eu ID digidol (neu ardystiad arall) o'i GOV.UK Wallet, bydd y parti sy'n dibynnu ac yn gwirio'r ardystiad yn gallu ei sganio gan ddefnyddio Gwiriwr y Llywodraeth. Wedyn gofynnir i'r person sy'n berchen ar y GOV.UK Wallet gymeradwyo rhannu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, cyn i'r parti sy'n dibynnu dderbyn y canlynol:

- cadarnhad bod yr ID digidol a gyflwynwyd yn ddilys ac yn ddibynadwy
- y data allweddol ar gyfer yr achos defnydd hwnnw, y gellid ei gyfyngu fel mai dim ond gwybodaeth angenrheidiol sy'n cael ei rhannu (er enghraifft, bod y person dros 18 oed, yn hytrach na rhannu eu dyddiad geni llawn)
- llun o'r person sy'n berchen ar yr ID digidol, fel y gallant gadarnhau ei fod yn cael ei gyflwyno gan y person cywir

O ystyried pwysigrwydd gwirio rhaglennol a rhannu data cadarn ar gyfer pob trafodiad, rydym hefyd yn archwilio a ddylid darparu gwasanaeth sylfaenol Gwiriwr y Llywodraeth yn rhad ac am ddim neu am gost isel i bartïon sy'n dibynnu yn y sector preifat a'r trydydd sector. Yn yr achosion hyn, byddem yn rhagweld sawl cyfyngiad i'r gwasanaeth, a hynny o fwriad. Er enghraifft, byddai'n gwirio tystysgrifau a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn unig, nid y rhai a wneir gan DVS sector preifat, y gallai fod cyfyngiadau ymarferoldeb neu ddefnydd eraill arnynt. Mae hyn oherwydd na fyddai Gwiriwr y Llywodraeth wedi'i fwriadu ar gyfer gwirio ar raddfa fawr neu i'w ddefnyddio yn y rhan fwyaf o leoliadau masnachol. Y tu allan i'r llywodraeth, y bwriad yn hytrach fyddai dileu'r risg o gyflwyniad gweledol mewn rhai achosion defnydd niferoedd isel. Er enghraifft, hyd yn oed pe trefnid ei fod ar gael yn eang, rydym yn disgwyl y byddai cwmnïau sy'n cynnal nifer fawr o wiriadau hawl i weithio neu wirio oedran yn cael gwell gwasanaeth gan ddarparwyr DVS trydydd parti sy'n darparu gwasanaeth arbenigol. Rydym yn croesawu barn ar y cynnig hwn.

<u>Cwestiynau am Bennod 2.2: Storio, rheoli a defnyddio'r ID digidol</u>

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

Efallai y bydd rhywun am ddileu eu ID digidol eu hunain o'u dyfais. Byddant yn gallu gwneud hyn ar unrhyw adeg, a bydd y broses wedi'i chynllunio i fod yn syml ac yn gyflym.

2.2.C1. A oes unrhyw ffactorau moesegol y dylai'r llywodraeth eu hystyried sy'n ymwneud ag unigolyn sy'n dileu eu ID digidol?

a. Oes

b. Nac oes

c. Ddim yn gwybod

    i. 2.2.C1.1. Esboniwch eich ateb

O dan amgylchiadau a reolir yn llym, efallai y bydd gan y llywodraeth hefyd y pŵer i ddirymu (h.y. canslo) ID digidol rhywun – er enghraifft, os yw ID digidol rhywun wedi'i nodi yn un wedi'i ddwyn neu ei ddefnyddio'n dwyllodrus. Bydd hyn yn cael ei lywodraethu gan brosesau cadarn.

2.2.C2. A oes unrhyw ffactorau moesegol y dylai'r llywodraeth eu hystyried sy'n ymwneud â dirymu (h.y. canslo) ID digidol unigolyn?

a. Oes

b. Nac oes

c. Ddim yn gwybod

    i. 2.2.C2.1. Esboniwch eich ateb

2.2.C3. Ydych chi'n meddwl y dylai pobl allu dewis storio eu ID digidol cenedlaethol yn uniongyrchol mewn gwasanaethau deiliaid (a elwir weithiau'n 'waledi digidol') heblaw am GOV.UK Wallet, sydd wedi'u hardystio i fodloni safonau'r llywodraeth?

a. Ydw

b. Nac ydw

c. Ddim yn gwybod

    i. 2.2.C3.1. Esboniwch eich ateb

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer arbenigwyr sy'n siarad yn eu rhinwedd eu hunain neu ar gyfer sefydliadau:*


2.2.C4. Er mwyn cefnogi defnydd diogel, mae angen ffordd gadarn o wirio'r ID digidol cenedlaethol a gyflwynir o GOV.UK Wallet. Bydd hyn yn helpu i gadarnhau nad yw wedi ei ffugio, ei ddirymu, na bod rhywun wedi ymyrryd ag ef. Mae'r sector preifat eisoes wedi datblygu gwasanaethau gwirio am ddim ac â thâl. Yn ogystal, rydym yn ystyried creu gwasanaeth 'gwiriwr y llywodraeth'. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chael gwasanaeth gwirio arfaethedig y llywodraeth ar gael i'w ddefnyddio yn y sector preifat a'r trydydd sector, am gost isel neu ddim cost?

a. Cytuno'n Gryf
b. Cytuno Rhywfaint
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno Rhywfaint
e. Anghytuno'n Gryf
f. Ddim yn gwybod
    i. 2.2.C4.1. Esboniwch eich ateb

2.1.C5. Rydym yn ystyried sawl cyfyngiad ar wasanaeth gwirio'r llywodraeth, a hynny o fwriad. Er enghraifft, gallai fod yn gallu gwirio ardystiadau a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn unig, megis yr ID digidol cenedlaethol. Bwriad hyn yw gadael lle i wasanaethau gwirio trydydd parti. A oes unrhyw gyfyngiadau penodol rydych chi'n meddwl y dylem eu gosod ar gyfer gwiriwr y llywodraeth?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    i. 2.1.C5.1. Esboniwch eich ateb

# Rhan 3: Defnyddiol



## Cyflwyniad

Bydd yr ID digidol cenedlaethol yn drawsnewidiol i wasanaethau'r llywodraeth a sectorau ledled yr economi. Ein nod yw y bydd yr ID digidol cenedlaethol yn:

1. Eistedd wrth galon gwasanaethau cyhoeddus y genhedlaeth nesaf
2. Rhoi prawf hunaniaeth sylfaenol a dibynadwy i bobl ei ddefnyddio ar draws yr economi
3. Ategu model symlach a mwy diogel i atal gweithio anghyfreithlon

Mae'r ID digidol yn cael ei gynllunio fel rhywbeth y bydd pobl eisiau ei gael, yn hytrach na rhywbeth y maent yn cael eu gorfodi i'w gael. Ym mhob achos, ein bwriad yw y bydd yn dderbyniol ochr yn ochr â phrofion addas eraill, heb ddisodli dogfennau eraill a roddir gan y llywodraeth ac a allai fod gan bobl eisoes. Er enghraifft, ni fydd yr ID digidol yn dangos hawl i yrru na hawl i groesi ffiniau – a bydd angen trwydded yrru a phasbort, yn y drefn honno, yn yr achosion hyn o hyd. Gydag amser, fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd yn lleihau dibyniaeth ar ddogfennau ffisegol wrth i bobl ddewis gwneud cais am yr ID digidol a'i ddefnyddio.

Gall sut y gellir defnyddio'r ID digidol hefyd amrywio ar draws llywodraethau datganoledig y DU. Er bod polisi mewnfudo (ac felly rheoliad yr hawl i weithio) wedi ei gadw, felly gellir ei osod yn ganolog gan lywodraeth y DU, gall llywodraethau datganoledig fod â gofynion gwahanol ar gyfer cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus a chydlynu gwasanaethau, ac ar gyfer rhai achosion defnydd yn yr economi ehangach, megis prawf derbyniol ar gyfer nwyddau sydd â chyfyngiadau oedran. Fel yr amlinellwyd uchod, byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth yr Alban i geisio cysondeb a defnyddioldeb ledled y wlad.

## Pennod 3.1: Gwybodaeth a gynhwysir yn yr ID digidol

Er mwyn i'r ID digidol fod yn ddefnyddiol mewn unrhyw leoliad penodol, mae angen iddo allu profi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r senario hwnnw. Mae angen i'r person neu'r sefydliad sy'n ei wirio ymddiried yn y wybodaeth honno hefyd, ac yn briodol i'r tirweddau rheoleiddio y mae'n gweithredu ynddynt.

Ni all unrhyw ID digidol, fodd bynnag, fod yn brawf terfynol o bob darn o wybodaeth am unigolyn. Bydd yr ID digidol, felly, yn ceisio sicrhau cydbwysedd, gan ddal digon o wybodaeth i brofi gwybodaeth hunaniaeth yn ddefnyddiol, heb fod angen coladu neu storio data diangen.

## Gwybodaeth graidd am unigolyn

Bydd pob ID digidol yn cynnwys gwybodaeth graidd am berson. Cynigiwn y bydd hyn yn cynnwys:

- enw llawn (fel y mae'n ymddangos mewn dogfennaeth swyddogol megis pasbort)
- dyddiad geni (y gellid ei ddatgelu'n rhannol mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys priodoledd 'dros 18' neu 'dros 65' yn unig)
- cenedligrwydd (y gellid dewis ei ddatgelu mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys i gadarnhau bod gan rywun hawl i weithio yn y DU)
- delwedd fiometrig gyfredol, manylder uchel o'r wyneb, sy'n bodloni gofynion penodol

**Blwch 3.1.1 Lleihau data a datgelu dethol**

Mae lleihau data yn egwyddor sy'n cadw preifatrwydd, ac sy'n annog peidio â chasglu, rhannu neu brosesu mwy o ddata personol nag sy'n angenrheidiol at ddiben penodol. Mae wedi'i ymgorffori yn y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).

Er bod yr egwyddor yn cael ei chymhwyso i sut mae'r ID digidol cenedlaethol yn cael ei ddylunio, ei greu a'i reoli, mae hefyd yn berthnasol i sut mae'n cael ei ddefnyddio. Er enghraifft, mae'r arfer o 'ddatgelu dethol' yn rhoi rheolaeth benodol i bobl dros ba wybodaeth maen nhw'n ei rhannu, a chyda phwy. Pan fydd rhywun yn dangos eu trwydded yrru ffisegol mewn bar, does ganddyn nhw ddim dewis ond datgelu'r holl wybodaeth sydd arni – gan gynnwys priodoleddau diangen megis enw llawn a chyfeiriad – ochr yn ochr â gwybodaeth berthnasol megis dyddiad geni a llun.

Mewn cyferbyniad, bydd yr ID digidol yn mynd ymhellach i gynnal preifatrwydd drwy leihau'r data y mae'n ei ddatgelu. Er enghraifft, lle bo'n bosib, bydd yn rhannu gwybodaeth sylfaenol yn unig, megis bod person dros 18 oed, yn hytrach na rhannu eu dyddiad geni llawn. Mae'r ID digidol yn cael ei adeiladu gyda'r ymarferoldeb hwn mewn golwg i helpu i sicrhau nad oes mwy o ddata personol yn cael ei rannu nag sy'n angenrheidiol pan ddefnyddir yr ID digidol.

Yn ogystal â'r wybodaeth hunaniaeth graidd hon, efallai y bydd angen i'r ID digidol hefyd storio a rhannu gwybodaeth neu fetaddata ychwanegol (h.y. data am wybodaeth a gedwir). Gallai hyn gynnwys:

- y lefel o hyder sydd gan y llywodraeth yn hunaniaeth yr unigolyn, yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarperir, i helpu partïon sy'n dibynnu i ddeall a yw'n diwallu eu hanghenion
- a oes gan y person y mae'r ID digidol yn ymwneud â nhw gynrychiolydd awdurdodedig sy'n gweithredu gydag awdurdod dirprwyedig ar eu rhan, megis drwy atwrneiaeth
- gwybodaeth arall y nodwyd bod ei hangen drwy'r ymgynghoriad hwn neu ddatblygiad polisi pellach

Credwn y bydd y wybodaeth uchod yn darparu sail ddigonol ar gyfer y defnyddiau arfaethedig ar gyfer yr ID digidol (gweler gweddill y Rhan hon), heb ei gwneud yn ofynnol i unrhyw wybodaeth ddiangen gael ei chasglu neu ei rhannu.

## Gwybodaeth i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus cydlynol

Rydym yn archwilio pa wybodaeth y mae ei hangen i gysylltu gwasanaethau cyhoeddus yn well. Ar hyn o bryd, mae gan bobl yn y DU sawl dynodwr, er enghraifft rhifau Yswiriant Gwladol a rhifau pasbort. Mae hyn yn golygu na allwn wybod pryd mae'r un person yn cyrchu gwahanol wasanaethau. Heb hyn, mae'n anodd iawn paru pobl ar draws gwasanaethau fel y gellir eu darparu mewn ffordd effeithlon ac wedi'i theilwra.

Rydym yn ystyried datblygu dynodwr unigryw cyffredinol (neu ddull tebyg) sy'n gysylltiedig â'r ID digidol a GOV.UK One Login, i alluogi cyfeirio cyson ar draws gwasanaethau'r llywodraeth. Bydd hyn yn allweddol i ddarparu'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau cyhoeddus yn y DU. Ni fyddai angen i'r dynodwr hwn fod yn weladwy na chael ei ddefnyddio y tu allan i'r sector cyhoeddus, ac rydym yn archwilio darparu hyn i'r rhai sy'n dewis defnyddio'r ID digidol yn unig. Mae rhagor o wybodaeth ym Mhennod 3.2 ar Drawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus.

Dros amser, gallai dull o'r fath symleiddio diweddariadau gwybodaeth, gan sicrhau bod newidiadau wedi'u gwirio yn cael eu hadlewyrchu ar draws gwasanaethau a lleihau'r angen i bobl ddarparu gwybodaeth graidd dro ar ôl tro. Gallai hefyd gefnogi gwasanaethau mwy rhagweithiol, wedi'u teilwra. Er enghraifft, os ydych chi'n diweddaru'ch enw ar yr ID digidol, gellid diweddaru hwn yn awtomatig ar draws gwasanaethau llywodraeth cysylltiedig eraill. Byddai unrhyw weithrediad yn gofyn am byrth cyfreithiol priodol a mesurau preifatrwydd, diogelwch a thryloywder cadarn.

## Ystyriaeth i ragor o wybodaeth

*Cyfeiriad*

Gallai gallu profi cyfeiriad presennol drwy'r ID digidol fod yn opsiwn mwy effeithlon a haws na dibynnu ar dystiolaeth ffisegol, megis biliau treth gyngor a datganiadau banc. Pe bai'ch ID digidol yn gallu darparu prawf awdurdodol o'ch cyfeiriad presennol, gallai leihau ffrithiant ac arbed y baich i chi o ddod o hyd i ddogfennau ffisegol diweddar i brofi

hyn. Gallai hefyd gefnogi gwasanaethau cyhoeddus lle mae'r wybodaeth hon yn berthnasol.

Nid yw'n glir, fodd bynnag, pa mor gost-effeithiol fyddai hi i ni ddarparu gwybodaeth cyfeiriad presennol awdurdodol ar yr ID digidol, a maint y cymhlethdodau dan sylw. Mae dogfennau presennol, megis trwyddedau gyrru, yn 'dilysu' cyfeiriad drwy anfon y ddogfen i'r cyfeiriad a ddarperir. Nid yw hyn yn opsiwn ar gyfer yr ID digidol ac, fel y cyfryw, mae'n anodd bod yn hyderus bod cyfeiriad a ddarperir yn gywir a'i fod yn cael ei ddefnyddio – er enghraifft, dan amgylchiadau lle gallai rhywun symud cyfeiriad yn aml. Byddai datblygu ffordd o ddilysu gwybodaeth cyfeiriad presennol i lefel ddigonol o hyder er mwyn dibynnu arni fel unig brawf cyfeiriad, felly, â goblygiadau o ran cost a chymhlethdod system.

Mae gennym ddiddordeb mewn deall ymhellach y ffyrdd y gellid defnyddio gwybodaeth cyfeiriad presennol wedi'i dilysu, a sut y gallai'r llywodraeth ddilysu gwybodaeth cyfeiriadau a'i chadw'n gyfredol, heb ychwanegu baich ychwanegol ar bobl sy'n wynebu allgáu.

*Gwybodaeth am ryw neu rywedd*

Yn y DU, gall data rhyw a rhywedd gynnwys tri chategori:

- **Rhyw biolegol**.
- **Rhyw gyfreithiol neu ardystiedig**. Dyma'r rhyw fel y'i cofnodwyd ar eich tystysgrif geni wreiddiol neu fel y'i diwygiwyd o dan Ddeddf Cydnabod Rhywedd 2004. Ym mron pob achos, mae rhyw gyfreithiol neu ardystiedig yn adlewyrchu rhyw fiolegol person.
- **Rhywedd**. Term eang sy'n cael ei ddefnyddio weithiau'n gyfnewidiol â rhyw neu wrth gyfeirio'n benodol at wahaniaethau cymdeithasol yn hytrach na biolegol rhwng rhywiau. Gall hefyd ddal data sy'n cyfateb i ryw biolegol, cyfreithiol neu ardystiedig.

Nid oes angen gwybodaeth am ryw a rhywedd at ddiben bwriadedig yr ID digidol Ni fyddai cynnwys y wybodaeth hon yn gwella gwiriadau bod yr ID digidol yn perthyn i'r person sy'n ei gyflwyno. Bydd gwiriadau'n cael eu gwneud yn rhaglennol a thrwy ddilysu biometrig, ac nid oes angen data rhyw neu rywedd penodol ar gyfer y naill na'r llall.

Yn ogystal, nid yw gwiriadau hawl i weithio digidol, a llawer o wiriadau yn y sector preifat (gan gynnwys Know Your Customer (KYC), a gwiriadau gwirio oedran syml), yn gofyn am gasglu neu rannu gwybodaeth am ryw neu rywedd person. Yn yr un modd, nid oes angen y wybodaeth hon ar gyfer mynediad at y rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus. Mewn senarios penodol lle mae angen gwybodaeth am ryw neu rywedd, mae'n well ei chasglu a'i gwirio drwy ddulliau eraill sy'n briodol i'r senario hwnnw, yn hytrach na chynnwys yn yr ID digidol.

Am y rhesymau hyn, ac yn unol ag egwyddorion lleihau data, nid ydym yn bwriadu cynnwys gwybodaeth am ryw neu rywedd yn yr ID digidol.

## Cadw'r manylion yn gyfredol

Er mwyn i'r ID digidol fod yn ddefnyddiol ac yn ddibynadwy, mae'n bwysig bod y wybodaeth sydd ynddo yn parhau i fod yn gyfredol. Gall newidiadau yng ngwybodaeth adnabod graidd unigolyn, megis newid enw, ddigwydd am resymau cyfreithlon, ac maent yn gyffredin.

Rydym yn archwilio a ddylai fod gofyniad cyfreithiol ar bobl i hysbysu'r llywodraeth, o fewn amserlen addas, am unrhyw wallau neu newidiadau yn y wybodaeth bersonol a gedwir yn eu ID digidol, fel y gellir ei ddiweddaru, a beth allai fod yn ffurf briodol o orfodi. Rydym yn ymwybodol y gall rhoi rhwymedigaeth ar ddefnyddwyr i gadw eu ID digidol yn gyfredol fod yn ormod o faich neu'n anghymesur, yn enwedig ar gyfer rhai grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig.

<u>Cwestiynau am Bennod 3.1: Gwybodaeth a gynhwysir yn yr ID digidol</u>

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

3.1.C1. Bydd yr ID digidol cenedlaethol yn cynnwys enw llawn, dyddiad geni, cenedligrwydd, a delwedd wyneb biometrig person (ffotograff). Pa wybodaeth bellach, os o gwbl, y dylai'r ID digidol ei chynnwys hefyd?

*Mae'r cwestiwn hwn i sefydliadau:*

3.1.C2. Nid yw'r llywodraeth yn bwriadu cynnwys gwybodaeth cyfeiriad ar yr ID digidol cenedlaethol i ddechrau, ond gall adolygu'r sefyllfa hon yn y dyfodol. Pe bai eich sefydliad yn dibynnu ar y wybodaeth cyfeiriad hon, beth fyddai'n eich helpu i ymddiried mewn cyfeiriad ar yr ID digidol?

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

3.1.C3. Mae angen i fusnesau a sefydliadau sy'n derbyn yr ID digidol cenedlaethol ymddiried bod y wybodaeth arno yn gyfredol ac yn gywir. Rydym yn archwilio a ddylai fod gofyniad cyfreithiol ar bobl ag ID digidol i hysbysu'r llywodraeth o fewn amserlen briodol am newidiadau penodol (megis newid enw) neu wallau yn eu gwybodaeth bersonol fel y gellir diweddaru eu ID digidol.

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gofyniad cyfreithiol i hysbysu'r llywodraeth am newidiadau neu wallau o fewn amserlen briodol?

a. Cytuno'n Gryf
b. Cytuno Rhywfaint
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

d. Anghytuno Rhywfaint

e. Anghytuno'n Gryf

f. Ddim yn gwybod

    i. 3.1.C3.1. Esboniwch eich ateb

## Pennod 3.2: Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus

Mae'r system ID digidol genedlaethol yn allweddol i alluogi darparu gwasanaethau cyhoeddus digidol, symlach, gydol oes. I fod yn glir: ni fydd mynediad at wasanaethau cyhoeddus yn ddibynnol ar gael yr ID digidol. Os bydd pobl yn dewis cael yr ID digidol, fodd bynnag, bydd yn bosib helpu i leihau' r amser a'r ymdrech y maent yn eu treulio yn rhyngweithio â'r wladwriaeth i gael mynediad at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt Mae hyn oherwydd mai rhoi prawf adnabod ohonom ein hunain a phrofi ein hawliau yw'r cam cyntaf i lawer o ryngweithio â'r sector cyhoeddus

Bydd pobl yn dod i gysylltiad â gwasanaethau cyhoeddus sawl gwaith yn ystod eu hoes. Mae hanner oedolion y DU yn rhyngweithio â gwasanaethau gweinyddol y llywodraeth oddeutu unwaith y flwyddyn, yn ôl ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn debygol o fod yn amlach i bobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Ar yr un pryd, yn aml y bobl y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yw'r rhai sy'n cael y drafferth fwyaf i brofi eu hunaniaeth gan ddefnyddio mathau presennol o dystiolaeth, megis pasbortau neu drwyddedau gyrru (fel yr amlinellir yn Rhan 4 yr ymgynghoriad hwn, ar fod yn gynhwysol).

Isod mae rhai enghreifftiau pam y gallai fod angen i rywun ryngweithio â gwasanaeth cyhoeddus, a thrwy hynny, profi pwy ydyn nhw neu eu hawl i'r gwasanaeth hwnnw.

**O enedigaeth**, efallai y bydd angen i riant neu warcheidwad ymgysylltu â'r wladwriaeth sawl gwaith i gael mynediad at wasanaethau hanfodol, gan gynnwys wrth:

- wneud cais am basbort cyntaf
- gwirio cymhwysedd plentyn ar gyfer neu wneud cais am gymorth gyda chostau gofal plant
- ychwanegu elfen plentyn at gyfrif Credyd Cynhwysol
- cael mynediad at dai ar frys neu gymorth ariannol

**Yn berson ifanc**, efallai y bydd angen i rywun ymgysylltu â'r wladwriaeth i gael mynediad at wasanaethau megis:

- profi hawl i weithio ar gyfer eu swydd gyntaf

- gwneud cais am neu brofi cymhwysedd ar gyfer benthyciad myfyriwr
- cael mynediad at gynhwysiant a chymorth mynediad digidol i bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu'r gwasanaethau pobl ifanc

**Trwy gydol bywyd oedolion**, ar ôl 18 oed, efallai y bydd angen i rywun:

- gael mynediad at Gredyd Cynhwysol
- gwneud cais am drwydded yrru lawn neu adnewyddu trwydded yrru lawn
- cofrestru priodas
- cofrestru yn ddigartref neu angen cymorth tai

**Yn ddiweddarach mewn bywyd**, efallai y bydd angen i rywun:

- hawlio pensiwn y wladwriaeth
- gwneud cais am neu wirio cymhwysedd ar gyfer taliadau tanwydd gaeaf neu ostyngiad cartref cynnes
- gwneud cais am docyn bws person hŷn
- cofrestru atwrneiaeth

Er mai profi hunaniaeth yn aml yw'r cam cyntaf i gael mynediad at y gwasanaethau hyn, yn y DU yn rheolaidd mae hon yn broses amherffaith ac aneffeithlon, sy'n dibynnu ar bobl yn dod o hyd i'r cyfuniadau cywir o dystiolaeth ffisegol. Yn ogystal, am fod gwahanol adrannau'r llywodraeth yn gweithio'n aml mewn seilos, gall pobl deimlo fel eu bod yn dechrau o'r dechrau bob tro maent yn rhyngweithio â rhan wahanol o'r sector cyhoeddus.

## Sut y gall ID digidol helpu

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus fod yn hawdd eu cyrraedd trwy gydol bywyd person – boed hynny'n golygu bod myfyriwr yn defnyddio eu ID digidol i gael mynediad hawdd at wasanaethau iddynt eu hunain neu fod rhiant yn cael mynediad at wasanaethau ar ran eu plentyn. Ein gweledigaeth yw gwneud rhyngweithio pobl â'r wladwriaeth mor effeithlon a defnyddiol â phosib, fel y mae eisoes yn arferol mewn meysydd o'r economi ehangach, megis bancio ar-lein, ac mewn gwledydd eraill.

Isod ceir enghraifft o sut mae Estonia wedi personoli gweinyddu budd-daliadau plant drwy ddefnyddio hunaniaeth ddigidol sylfaenol i ategu gwasanaethau cyhoeddus modern. Mae'r enghraifft hon wedi'i chynnwys er gwybodaeth yn unig – mae'r cyd-destun cenedlaethol yn Estonia yn amrywio'n sylweddol i gyd-destun y DU. Fodd bynnag, mae'n darparu darlun defnyddiol o'r hyn y gallai system ID digidol genedlaethol ei wneud yn bosib.

**Blwch 3.2.1: Astudiaeth Achos Symleiddio Gweinyddu Budd-daliadau Plant**

Pan fydd plentyn yn cael ei eni yn Estonia, mae rhieni yn profi system ddi-dor, ddigidol yn gyntaf, ar gyfer cael mynediad at gymorth ariannol. Gan ddefnyddio eu hunaniaeth ddigidol, mae rhieni yn cofrestru'r enedigaeth ar-lein o fewn munudau. Yn syth wedyn,

mae cynnig budd-daliadau wedi'i deilwra yn ymddangos yn eu cyfrif llywodraeth. Yn syml, mae'r rhieni yn adolygu ac yn derbyn y cynnig – nid oes angen ffurflenni ychwanegol, uwchlwytho, na dogfennau ategol.

Y tu ôl i'r llenni, mae gwiriadau cymhwysedd yn parhau yn awtomatig. Mae cofnodion poblogaeth ac ysgol wedi'u cysylltu i sicrhau bod taliadau'n parhau i fod yn gywir ac yn gyfredol nes bod y plentyn yn troi 18 oed. Mae angen i rieni neu warcheidwaid adrodd newidiadau mawr yn unig, megis cyfeiriad newydd, y gellir ei wneud yn gyflym drwy'r un porth digidol.

Mae enghraifft Estonia yn dangos sut y gall gwasanaethau digidol wedi'u hintegreiddio'n llawn leihau baich gweinyddol i bobl wrth sicrhau darparu cymorth mwy cywir ac ymatebol. Mae hyn mewn cyferbyniad llwyr i brofiad pobl yn y DU ar hyn o bryd. Rhaid i rieni, gofalwyr neu warcheidwaid fel arfer benderfynu ar eu cymhwysedd eu hunain drwy ganllawiau a geir ar GOV.UK; llywio llwybrau ymgeisio lluosog, ac weithiau cymhleth, yn dibynnu ar eu sefyllfa benodol; a chasglu dogfennau corfforol i dystiolaeth i'w hawliadau. Os yw eu hamgylchiadau'n newid, yn aml mae angen iddynt edrych eto ar y broses hon o'r dechrau – ail-wirio cymhwysedd, ailgyflwyno dogfennau, ac ailadrodd ceisiadau i wahanol gynlluniau.

## ID digidol yn sylfaen gwasanaethau cyhoeddus trawsnewidiol

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i ddod â gwasanaethau cyhoeddus i mewn i'r unfed ganrif ar hugain. Y system ID digidol fydd conglfaen y trawsnewid hwn – dysgu o systemau llwyddiannus ledled y byd wrth gadw gwerthoedd llywodraeth y DU ynghylch preifatrwydd, tryloywder a chynhwysiant yn ganolog. Rydym yn disgwyl y bydd yr ID digidol yn ein helpu i:

- ddileu rhwystrau parhaus i wasanaethau cyhoeddus, megis gwahardd ID (gweler Rhan 4 ar sut y bydd y system ID digidol yn gynhwysol)
- cyflymu darparu gwasanaethau drwy ddileu prosesau adnabod ailadroddus ac aneffeithlon ymhellach
- arbed arian trethdalwyr a gostwng costau i'r llywodraeth drwy leihau dibyniaeth ar ddogfennau adnabod papur y mae'n haws eu ffugio
- rhoi mwy o reolaeth i bobl dros sut maent yn rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus a sut maent yn profi eu hunaniaeth a'u cymhwysedd

O'r cychwyn cyntaf, bydd y system ID digidol yn cynnig ardystiad diogel, cynhwysol ac ailddefnyddiadwy i bobl, y gellir ei ddefnyddio ar draws y sector cyhoeddus i brofi pwy ydynt – sef y cam cyntaf ar gyfer profi cymhwysedd ar gyfer llawer o wasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn adeiladu ar waith y mae GOV.UK One Login eisoes yn ei wneud i leihau dyblygu prosesau adnabod ar draws y llywodraeth. Er na fydd rhaid gwneud cais am ID digidol, na'i ddefnyddio, i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, ymhen amser, rydym yn disgwyl y bydd yn lleihau dibyniaeth ar ddogfennau

ffisegol wrth i bobl ddewis ei fabwysiadu, wrth wneud prosesau yn haws ac yn gyflymach nag ydyn nhw heddiw.

Ymhen amser, bydd y system ID digidol hefyd yn helpu i alluogi gwasanaethau cyhoeddus modern, wedi'u teilwra, a chydlynol. Bydd hunaniaeth ddigidol ddibynadwy yn darparu sylfaen i'r llywodraeth ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt yn gyflymach ac yn effeithiol – heb greu cronfa ddata sengl o holl ddata'r llywodraeth am berson. Yn hytrach, bydd hyn yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus i gyfateb a gwirio gwybodaeth bresennol am y bobl y maent yn eu gwasanaethu mewn ffyrdd cyfrifol, sy'n gwella preifatrwydd – megis drwy ddynodwr unigryw cyffredinol (neu ddull tebyg). Mae hyn yn golygu y gallai gwasanaethau cyhoeddus weithio yn well i unigolion, pan fydd eu hangen arnynt ac mewn ffyrdd sy'n gweithio iddynt, gan adael i'r llywodraeth symud i ffwrdd o brosesau hen ffasiwn a biwrocrataidd, tuag at wasanaethau rhagweithiol, didrafferth sydd ar gael ar y pwynt angen.

Bydd sut y bydd hyn yn edrych ac yn teimlo yn esblygu dros y blynyddoedd i ddod, wrth i ni glywed gan bobl trwy gydol yr ymgynghoriad a thu hwnt. Bydd yn cymryd amser i drwsio sylfeini'r wladwriaeth ddigidol. Fodd bynnag, isod mae tair enghraifft bosib o sut rydym yn rhagweld y gallai'r system ID digidol helpu i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus:

- **Galluogi cynhwysiant.** Bydd y system ID digidol newydd yn lleihau'r rhwystrau systemig presennol rhag manteisio ar wasanaethau cyhoeddus. Bydd ardystiad am ddim y gellir ei ddilysu'n ddigidol yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem bod dogfennau adnabod traddodiadol, am resymau ariannol neu fel arall, allan o gyrraedd llawer o bobl. Er enghraifft, bydd yn rhoi prawf adnabod awdurdodol i bobl nad oes ganddynt un eisoes wrth wneud cais am gynlluniau gofal plant a ariennir. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt.
- **Arbed amser i bobl.** Gallai'r system ID digidol hefyd helpu i sicrhau nad yw pobl bellach yn gwastraffu amser yn profi i sefydliadau'r sector cyhoeddus pwy ydynt neu'n cwrso'r cymorth y mae ei angen arnynt. Er enghraifft, drwy ategu ffordd o gyfeirio at bobl yn gyson ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, gallai ei gwneud yn bosib darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy rhagweithiol a phersonol. Yn y dyfodol, gallai integreiddio â gwasanaethau cenedlaethol a lleol ail-lunio'r rhyngweithio ag unigolion a chymunedau'n sylfaenol, gyda newid o brosesau amhersonol i ganlyniadau sy'n diwallu anghenion penodol unigolion
- **Lleihau twyll**. Bydd y system ID digidol yn lleihau ein dibyniaeth ar ffurfiau ffisegol ansicr o dystiolaeth. Pan fydd angen i wasanaeth ddilysu rhywbeth am berson, bydd eu dyfeisiau yn 'ysgwyd llaw' digidol diogel gan ddefnyddio safonau technegol dibynadwy. Bydd hyn yn golygu llai o lungopïau o ddogfennau yn cael eu storio neu eu rhannu mewn modd anniogel, a rhyngweithiadau mwy diogel i

bobl a'r sefydliadau y maent yn rhyngweithio â nhw. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i droseddwyr fanteisio ar wendidau, boed drwy ddefnyddio dogfennau ffug neu esgus bod yn rhywun. Gallai hyn ryddhau adnoddau'r llywodraeth ar gyfer archwilio llwybrau mynediad eraill yn fwy trylwyr.

Rydym yn cydnabod na ellir cyflawni'r deilliannau posib hyn heb gymorth a chydweithrediad llywodraethau datganoledig, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi eraill, sy'n deall materion y mae pobl yn eu hwynebu ar lawr gwlad. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda'r grwpiau hyn i helpu i sicrhau bod manteision y system ID digidol yn cael eu gwireddu yn yr un modd ledled y wlad.

<u>Cwestiynau am Bennod 3.2: Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus</u>

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

3.2.C1: Gwyddom y gall pobl gael trafferth cael mynediad at neu hawlio'r gwasanaethau cyhoeddus y mae ganddynt hawl iddynt. Rydym am nodi'r prif broblemau yn y rhyngweithiadau hyn, fel y gallwn archwilio sut y gallai'r system ID digidol helpu i fynd i'r afael â'r rhain, gan wneud bywydau pobl yn haws. Pan fydd pobl yn rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus, efallai mai rhai problemau cyffredin a allai fod:

- **Atgyfeirio** – efallai na fydd pobl yn gwybod pa wasanaethau cyhoeddus sydd ar gael iddynt
- **Pryderon preifatrwydd** – efallai y bydd pobl yn poeni â phwy y caiff gwybodaeth am eu sefyllfa ei rhannu
- **Amser ac ymdrech** – efallai na fydd pobl yn dod o hyd i'r amser i gwblhau'r prosesau sydd eu hangen i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus y mae ganddynt hawl iddynt
- **Profi eu hunaniaeth/cymhwysedd** – efallai na fydd gan bobl fynediad at y llythyron, dogfennau neu rifau cyfeirnod angenrheidiol y mae eu hangen i wirio eu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, neu i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus

A oes enghreifftiau o unrhyw rwystrau neu aneffeithlonrwydd sy'n eich atal chi (neu bobl rydych chi'n eu cefnogi) rhag rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus, ydych chi'n meddwl y gallai'r system ID digidol helpu gyda nhw?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    i. 3.2.Q1.1 Esboniwch eich ateb

3.2.C2: A ydych erioed wedi wynebu problemau gyda gwybod pa wasanaethau cyhoeddus sydd ar gael i chi yn seiliedig ar eich amgylchiadau neu, os ydych chi'n cefnogi pobl eraill, ydych chi wedi wynebu materion tebyg wrth eu cefnogi?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 3.2.C2.1. Os Ydw, esboniwch eich ateb

3.2.C3: A ydych erioed wedi methu neu wedi cael trafferth cael mynediad at wasanaeth cyhoeddus oherwydd nad oeddech chi'n gallu profi eich hunaniaeth neu, os ydych chi'n cefnogi pobl eraill, a ydych chi wedi wynebu problemau tebyg wrth eu cefnogi?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 3.2.C3.1 Esboniwch eich ateb

3.2.C4. I'r rhai sy'n dewis ID digidol, byddai'r llywodraeth yn datblygu dull i adnabod a pharu pobl yn ddiogel ar draws gwahanol wasanaethau cyhoeddus i symleiddio rhyngweithiadau pob dydd rhwng unigolion a'r wladwriaeth.

Er enghraifft, gallai dull o'r fath helpu i sicrhau bod newidiadau yng ngwybodaeth unigolyn yn cael eu hadlewyrchu'n hawdd ac yn gyflym ar draws gwasanaethau, megis newid enw. Byddai hyn yn lleihau'r angen i bobl ddiweddaru eu gwybodaeth ar wahân ar gyfer pob gwasanaeth. Gallai hefyd adael i'r llywodraeth symud i ffwrdd o brosesau hen ffasiwn a biwrocrataidd, tuag at wasanaethau rhagweithiol, didrafferth, sydd ar gael pan fo angen.

I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â mabwysiadu ymagwedd o'r fath at drawsnewid y sector cyhoeddus?

a. Cytuno'n Gryf
b. Cytuno Rhywfaint
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno rhywfaint
e. Anghytuno'n Gryf
f. Ddim yn gwybod
    i. 3.2.C4.1. Esboniwch eich ateb

3.2.C5. Pa broblemau moesegol, os o gwbl, allwch feddwl amdanynt wrth ddylunio ffordd o adnabod a pharu pobl ar draws gwasanaethau?

*Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer arbenigwyr sy'n siarad yn rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

3.2.C6. Pa broblemau technegol y mae angen i ni feddwl amdanynt wrth ddylunio ffordd o adnabod a pharu pobl yn gywir ar draws gwasanaethau cyhoeddus?

# Pennod 3.3: Defnyddioldeb yn yr economi ehangach


Er na fydd yr ID digidol cenedlaethol yn dileu'n llwyr yr angen i unigolion goladu tystiolaeth a gwaith papur arall mewn rhai trafodion, mae gan ardystiad cynhwysol, pwrpasol, sy'n canolbwyntio ar breifatrwydd y potensial i chwyldroi sut mae pobl yn profi pethau amdanynt eu hunain yn eu bywydau pob dydd.

Mewn meysydd sydd heb ofynion rheoleiddio penodol, mae'n annhebygol y bydd rhwystrau hanfodol rhag defnyddio a derbyn yr ID digidol. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd megis profi pwy ydych chi wrth gasglu parseli neu ymuno â champfa. Mae hyn yn golygu y gallai'r ID digidol fod yn ddefnyddiol i bobl yn y tymor byr ar draws ystod o wahanol senarios.

Ar draws yr economi, mae llawer o drafodion eraill lle mae gofynion rheoleiddiol neu ofynion eraill yn golygu bod rhaid i unigolyn gyflwyno prawf o hunaniaeth neu gymhwysedd. Mae hyn yn cynnwys profiadau rheolaidd, megis prynu potel o win neu ymweld â gwefannau â chyfyngiad oed, i ddigwyddiadau mwy arwyddocaol ac anaml megis cael morgais.

**Diagram 3.3.1 – Achosion defnydd oedran a hunaniaeth dangosol yn y sector preifat lle gallai'r ID digidol fod yn dderbyniol**

## Rhai teithiau defnyddwyr sector preifar lle gallai ID fod o fudd




Er mwyn ymddiried yn yr ID digidol a'i dderbyn ledled yr economi, bydd angen i ni gael gwared ar rwystrau i'w ddefnyddio a chreu fframwaith o ddiogelwch a gofynion gweithredol. Mae gwaith eisoes ar y gweill i gyflawni llawer o'r newidiadau angenrheidiol mewn sectorau a reoleiddir, fel y gellir defnyddio gwasanaeth dilysu digidol (DVS) yn ddiogel, ochr yn ochr â dogfennau ffisegol. Mae hyn yn cynnwys:

- Mae Ofcom wedi rhestru gwasanaethau hunaniaeth ddigidol fel dull a allai fod yn hynod effeithiol o sicrhau oedran, gydag ardystiad DVS yn un ffordd o ddarparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth.
- bydd y Swyddfa Gartref yn diweddaru amodau trwyddedu gorfodol alcohol i ganiatáu gwirio ar sail oedran gan ddefnyddio DVS cofrestredig wrth brynu alcohol
- bydd y Bil Tybaco a Fêps yn darparu pwerau rheoleiddio, a fydd yn galluogi darpariaeth benodol i wneud yn glir sut y gellir defnyddio DVS yn ddiogel ar gyfer gwerthu tybaco a fêps
- mae'r Swyddfa Gartref yn bwriadu dilyn yr un dull o ddarparu pŵer rheoleiddio yn y Bil Troseddu a Phlismona, i wneud yn glir sut y gellir defnyddio DVS yn ddiogel ar gyfer gwerthu cyllyll ac eitemau llafnog eraill
- Mae DSIT wedi gweithio gyda Thrysorlys EF i gyd-gynhyrchu arweiniad a chanllawiau ar y cyd ar ddefnyddio hunaniaethau digidol ar gyfer gwiriadau hunaniaeth ac Adnabod eich Cwsmer, fel y bo'n ofynnol o dan y Rheoliadau Gwyngalchu Arian

Gan ein bod yn disgwyl i GOV.UK Wallet (a fydd yn dal yr ID digidol) gael ei ardystio yn DVS, o dan Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025, gallai'r newidiadau hyn baratoi'r ffordd i bobl ddewis defnyddio'r ID digidol ar draws yr economi. Er enghraifft, gallai'r ID digidol gefnogi'r defnydd o lofnodion electronig dibynadwy, gan ddarparu ffordd i bobl brofi eu hunaniaeth cyn llofnodi dogfen yn ddigidol yn y broses prynu cartref.

Bydd y newidiadau hyn hefyd yn datgloi cyfleoedd i bobl ddefnyddio darparwyr DVS ardystiedig eraill a dogfennau yn y GOV.UK Wallet os dymunant. Mae'r llywodraeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r gwaith sydd eisoes ar y gweill i alluogi'r defnydd o wasanaethau dilysu digidol mewn ystod o senarios pellach, ac i annog y defnydd o DVS ar gyfer gwiriadau digidol hawl i rentu a gwiriadau hunaniaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan y rhai a hoffai gynnal gwiriad yn ddigidol.

Mae'r llywodraeth hefyd wedi lansio ymgynghoriad sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ddiweddar ar sut i sicrhau bod profiadau plant ar-lein yn ddiogel ac yn gyfoethog. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am sut mae plant yn defnyddio technoleg ddigidol, yn ogystal â mesurau newydd posib i'w cadw'n ddiogel ar-lein, a bydd ar agor tan 26 Mai 2026. Mae'n cynnwys cwestiynau am sut y gallai technolegau gwirio oedran, megis yr ID digidol cenedlaethol, gefnogi gweithredu amddiffyniadau presennol a rhai'r dyfodol yn effeithiol.

Lle bo hynny'n briodol, rydym yn gweithio ar draws y llywodraeth a chyda rheoleiddwyr i sicrhau bod unrhyw hunaniaeth ddigidol, gan gynnwys yr ID digidol cenedlaethol, yn cael ei dderbyn mewn ffordd gadarn – er enghraifft, gyda gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol penodol i'r sector ar gyfer gwirio rhaglennol (gweler pennod 2.2). Bwriad hyn yw atal sefydliadau rhag dibynnu ar ddulliau arolygu gweledol anniogel.

Mewn rhai achosion, gellir datganoli'r ddeddfwriaeth, y rheoliad neu'r canllawiau perthnasol sy'n angenrheidiol i alluogi derbyn yr ID digidol. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethau datganoledig ac yn ceisio sicrhau cydsyniad deddfwriaethol yn ôl yr angen fel y gall pobl ledled y DU wneud yr un dewisiadau ynghylch a ddylid defnyddio eu ID digidol yn eu bywydau pob dydd.

Ar draws pob defnydd, bydd yr ID digidol yn ddewisol. Bydd yn rhoi mwy o ddewis i bobl ar gyfer sut maent yn gweithredu yn yr economi a rhannu eu data, yn hytrach na dod yn *unig* ddewis.

Cwestiynau am Bennod 3.3: Defnyddioldeb yn yr economi ehangach

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

3.3.C1. Gellid defnyddio'r ID digidol cenedlaethol newydd ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus, ochr yn ochr ag opsiynau eraill megis dogfennau ffisegol a manylion adnabod digidol priodol eraill, gan drydydd partïon?

I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sector preifat a thrydydd partïon allu defnyddio'r ID digidol ochr yn ochr ag opsiynau eraill?

a. Cytuno'n Gryf
b. Cytuno Rhywfaint
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno rhywfaint
e. Anghytuno'n Gryf
f. Ddim yn gwybod
    i. 3.3.C1.1. Esboniwch eich ateb

# Pennod 3.4: Mynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon

Yn rhan o'r system ID digidol, rydym yn archwilio newidiadau o ran sut mae gwiriadau hawl i weithio yn cael eu cynnal yn y DU, i fynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon yn fwy effeithiol. O dan ddeddfwriaeth y DU, mae mynediad at waith yn cael ei gadw i'r rhai sydd â hawl i weithio. Mae hyn yn cynnwys gwladolion Prydain ac Iwerddon, a'r rhai y mae eu statws mewnfudo yn rhoi hawl iddynt weithio. Mae gan bob cyflogwr yn y DU eisoes gyfrifoldeb i atal gweithio'n anghyfreithlon gan yr unigolion hynny nad oes ganddynt hawl i wneud hynny.

Gall cyflogwr wirio hawl rhywun i weithio drwy gynnal gwiriadau rhagnodedig cyn cyflogi rhywun. Mae'r gwiriadau yn berthnasol ni waeth beth yw eu cenedligrwydd, ac yn cynnwys dinasyddion Prydain ac Iwerddon. Mae cynnal y gwiriadau hyn yn sicrhau nad yw unigolyn yn cael ei anghymhwyso rhag cyflawni'r gwaith dan sylw oherwydd ei statws mewnfudo. Mae hefyd yn sicrhau y gall busnesau gael esgus statudol (amddiffyniad) rhag atebolrwydd am gosb sifil lle canfyddir gweithio'n anghyfreithlon.

Ar hyn o bryd, mae tair prif ffordd y gall busnes gwblhau gwiriad hawl i weithio:

- Gwiriad personol o ddogfennau gwreiddiol o restr ragnodedig o ddogfennau a dderbynnir (pob dinesydd)
- Gwiriad digidol gan ddefnyddio gwasanaeth dilysu digidol (DVS), sy'n cynnig Technoleg Dilysu Dogfennau Adnabod (pasbort Prydeinig dilys a phasbort Gwyddelig neu ddeiliaid cerdyn pasbort Gwyddelig yn unig)
- Gwiriad ar-lein y Swyddfa Gartref (dinasyddion nad ydynt yn Brydeinig ac nad ydynt yn Wyddelig sydd ag eVisa yn unig)

## Sut y gallai gwiriadau hawl i weithio newid

Ein huchelgais yw y bydd gwiriadau hawl i weithio digidol yn orfodol erbyn diwedd y Senedd hon, er mwyn cael esgus statudol. Bydd y dystiolaeth y gellir ei gwirio gan broses ddigidol gadarn yn cynnwys yr ID digidol (gan gynnwys unrhyw ddatrysiadau mynediad amgen), ochr yn ochr â phasbort Prydeinig/Gwyddelig (neu gerdyn pasbort Gwyddelig) neu eVisa.

Felly, rydym yn cynnig deddfu fel bod rhaid gwirio tystiolaeth yn ddigidol fel rhan o wiriad hawl i weithio rhagnodedig. Bydd diwygiadau yn cael eu gwneud i'r is-ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer statudol i ragnodi gwiriadau digidol cadarn fel yr unig ffordd dderbyniol y gellir gwirio'r dystiolaeth uchod a chael yr esgus statudol. Byddwn hefyd yn dileu mathau amgen o dystiolaeth nad ydynt bellach yn ddilys i sefydlu esgus statudol, megis tystysgrifau geni, ac yn nodi yn y cod ymarfer sut y gall busnesau gynnal gwiriadau digidol gan ddefnyddio'r ystod gyfyngedig o dystiolaeth – gan gynnwys drwy DVS priodol.

Bydd y symud i wiriadau digidol yn unig yn:

- ei gwneud hi'n haws i bobl ddangos eu hawl i weithio drwy beidio â gorfod dod o hyd i ddogfennau ffisegol gwreiddiol, ac o bosib eu postio, i brofi pwy ydyn nhw
- gwneud gwiriadau personol annibynadwy o ddogfennau papur amrywiol yn annerbyniol, gan ei gwneud hi'n anoddach i droseddwyr ddefnyddio dogfennau ffug i gael swydd, gan helpu i leihau twyll
- lleihau'r risg y bydd data pobl yn cael ei golli neu ei ryddhau, drwy ddisodli copïau o ddogfennau papur gyda gwiriadau digidol diogel
- creu llwybr archwilio digidol o ble mae gwiriadau wedi'u cynnal, gan helpu busnesau i ddangos cydymffurfiaeth a chefnogi gorfodi
- lleihau'r data y mae pobl yn ei rannu â busnesau ar gyfer gwiriadau hawl i weithio
- ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i fusnesau gynnal gwiriadau, ac felly cydymffurfio â gofynion y llywodraeth, drwy safoni'r broses
- cynyddu cywirdeb gwiriadau drwy wirio dilysrwydd yn awtomataidd, a lleihau'r posibilrwydd o gamgymeriadau dynol

Rydym yn cydnabod y gallai fod angen cynnal rhai gwiriadau hawl i weithio drwy broses ymdrin ag eithriadau. Caiff hyn ei nodi yn y codau ymarfer statudol.

## Cymorth Busnes

Bydd angen i bob busnes sy'n recriwtio o ddyddiad rhoi'r newidiadau hyn ar waith gynnal gwiriad hawl i weithio digidol ar gyfer gweithwyr newydd i gael esgus statudol yn erbyn cosb sifil. Mae hyn yn golygu na fydd angen cynnal gwiriadau hawl i weithio yn ôl-weithredol ar gyfer gweithwyr sydd eisoes yn y swydd.

Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod busnesau'n cael eu cefnogi wrth drosglwyddo i wiriadau digidol hawl i weithio. Felly, byddwn yn rhoi'r canlynol ar waith:

- cyfnod pontio rhwng cyflwyno'r ID digidol ar gyfer unigolion a gwiriadau digidol hawl i weithio i gael esgus statudol
- ymgyrch cyfathrebu ac ymgysylltu â busnesau
- hyfforddiant i fusnesau i gefnogi'r symud i wiriadau digidol yn unig

Fel y nodir ym Mhennod 2.2, rydym hefyd yn ystyried a ddylai'r llywodraeth drefnu bod gwasanaeth gwirio am ddim neu gost isel ar gael, dan yr enw 'Gwiriwr y Llywodraeth', i gefnogi gwirio'r ID digidol.

Cwestiynau am Bennod 3.4: Mynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

3.4.C1. A oes unrhyw heriau ychwanegol nas cofnodwyd yn yr ymgynghoriad y byddai busnesau yn eu hwynebu wrth gynnal gwiriadau hawl i waith cwbl ddigidol ar gyfer pob gweithiwr newydd?

a. Oes
b. Nac oes
    i. 3.4.C1.1. Esboniwch eich ateb

3.4.C2. A fyddai angen unrhyw gymorth ychwanegol sydd heb ei gynnwys yn yr ymgynghoriad er mwyn i fusnesau gydymffurfio â gwiriadau hawl i weithio cwbl ddigidol?

a. Byddai
b. Na
    i. 3.4.C2.1. Esboniwch eich ateb


*Mae'r cwestiwn hwn i sefydliadau:*

3.4.C3. Pa wybodaeth fyddai ei hangen ar eich sefydliad i fod yn hyderus bod gwiriad hawl i weithio digidol wedi'i gwblhau?

a. Dyddiad cwblhau
b. Hyd hawl i weithio
c. Amod gweithio

i. 3.4.C3.1. Unrhyw wybodaeth arall nad yw wedi'i rhestru uchod Rhowch fanylion.

# Rhan 4: Cynhwysol



## Cyflwyniad

Mae'r system ID digidol genedlaethol yn rhoi cyfle i'r llywodraeth gyflymu ei chenhadaeth tuag at DU sy'n gynhwysol yn ddigidol, a sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan mewn cymdeithas ac economi ddigidol fodern ac elwa ohoni. Felly, bydd cynhwysiant wrth wraidd sut rydym yn dylunio a chyflwyno'r system hon i'r cyhoedd, a sut rydym yn cefnogi unigolion sy'n cael trafferth profi pwy ydynt neu ymgysylltu â gwasanaethau digidol.

Bydd mesurau cynhwysiant a diogelwch yn cael eu datblygu ar y cyd o'r cychwyn. Gweler pennod 5.2 ar ddiogelwch am ragor o fanylion ar gadw'r system ID digidol yn ddiogel.

## Pennod 4.1: Cymhwysedd ar gyfer yr ID digidol

Bydd pob dinesydd Prydeinig a Gwyddelig, a gwladolion tramor sydd â chaniatâd i fod yn y DU, ac sydd dros yr isafswm oedran y cytunwyd arno, yn gymwys ar gyfer yr ID digidol.

### Isafswm oedran ar gyfer cymhwysedd

Rydym yn bwriadu sicrhau bod yr ID digidol ar gael i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf uchod ac sy'n 16 oed neu'n hŷn. Mae hyn oherwydd bod angen gwiriadau Hawl i Weithio o 16 oed ymlaen. Fodd bynnag, rydym am gasglu barn ar naill ai:

- gostwng yr isafswm oedran cymhwysedd i 13 oed, neu
- ddileu isafswm oedran fel y gall pawb gael yr ID digidol o'u genedigaeth

Mae gan newidiadau o'r fath fanteision ac anfanteision, ac rydym yn gwahodd barn i lywio penderfyniad terfynol. Ni waeth beth yw'r isafswm oedran a ddewisir, bydd y Cod Dylunio Priodol i Oedran (AADC) a'i egwyddorion yn berthnasol i bob plentyn sy'n defnyddio'r ID digidol, hyd yn oed pobl ifanc 16 a 17 oed. Bydd angen cynllunio dulliau goruchwylio rhieni priodol hefyd i fod yn gymesur â risgiau a manteision i'r plentyn.

*Gostwng yr isafswm oedran cymhwysedd i 13 oed*

Ar hyn o bryd, cymharol ychydig o achlysuron sydd pan fo'n ofynnol i blant 13-15 oed brofi eu hoedran neu bwy ydynt. Mae mynediad at lwyfannau ar-lein, gan gynnwys llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, yn eithriad pwysig, gan mai'r oedran cyfreithiol y gall pobl yn y DU roi caniatâd i brosesu eu data personol ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau ar-lein yw 13 oed. O ganlyniad i hyn, mae gan unrhyw wasanaethau ar-lein isafswm oedran mynediad o 13. Yn ogystal, mae Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau o fewn cwmpas y Ddeddf nad ydynt yn gwahardd rhai mathau o gynnwys sy'n niweidiol i blant, gan gynnwys pornograffi a chynnwys hunanladdiad, ddefnyddio sicrwydd oedran hynod effeithiol i atal plant rhag dod ar eu traws.

Mae rhai gwasanaethau ar-lein yn defnyddio darparwyr DVS ardystiedig yn ddull o sicrhau oedran. Mae hyn yn caniatáu i blant 13 oed neu'n hŷn ddefnyddio eu gwasanaethau os gallant ddilysu eu hunaniaeth yn ddigonol gyda DVS. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw blentyn nad oes ganddynt fynediad at ddigon o dystiolaeth i'w hadnabod, megis pasbort, i alluogi gwasanaethau ar-lein i fod yn hyderus ynghylch eu hoedran, yn gallu elwa ar y gwasanaethau hyn, ac efallai y byddant yn cael eu hatal rhag cael mynediad at gynnwys ar-lein sy'n briodol i oedran penodol.

Gallai sicrhau bod yr ID digidol ar gael i'r bobl ifanc 13 oed a'n hŷn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon cynhwysiant hyn drwy fod am ddim i blant gael mynediad iddynt a'u defnyddio. Gallai helpu gwasanaethau i wahaniaethu'n gywir rhwng oedran neu grŵp oedran plentyn rhwng 13-17 oed, a thrwy hynny ddarparu profiadau wedi'u teilwra'n well ac sy'n briodol i'w hoedran. Nid ydym yn cynnig gorfodi'r ID digidol fel yr unig ffordd i brofi eich oedran neu ystod oedran ar wasanaethau ar-lein, a byddwn yn parhau i gefnogi arloesedd a dewis defnyddwyr mewn technolegau sicrhau oedran.

Yn ogystal, gall trefnu bod yr ID digidol ar gael i grwpiau oedran ychwanegol greu rhai manteision o ran gwasanaethau cyhoeddus. Fel arfer, mae angen i rieni a gwarcheidwaid gofrestru a rheoli mynediad at wasanaethau ar ran y plentyn. Po fwyaf cymhleth yw amgylchiadau unigol y plentyn, yr amlaf oll y bydd angen i'w rhiant neu ofalwr ddarparu'r un wybodaeth i amrywiaeth o wasanaethau. Gall ehangu mynediad at fwy o fandiau oedran helpu i leihau'r baich gweinyddol hwn ar fwy o rieni, a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithlon.

Byddai gostwng yr isafswm oedran i 13, fodd bynnag, hefyd yn creu heriau preifatrwydd, cynhwysiant a dylunio unigryw, am fod rhaid i ddata personol plant gael y lefelau cywir o ddiogelwch. Mae hefyd yn fwy tebygol y bydd angen dulliau goruchwylio cynhwysol rhieni ac iaith ddealladwy ar bobl ifanc yn eu harddegau. Yn ogystal, efallai y bydd angen caniatâd penodol rhieni neu warcheidwad i unrhyw un o dan 16 oed gael mynediad at yr ID digidol, neu efallai y bydd angen ei reoli'n gyfan gwbl gan riant/gwarcheidwad ar ran plentyn.

*Rhoi'r gallu i bawb gael ID digidol o'u genedigaeth*

Gallai galluogi pobl i gymryd rhan yn y system ID digidol o'u genedigaeth gefnogi darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus symlach, digidol, gydol oes. Byddai galluogi rhieni a gwarcheidwaid i brofi gwybodaeth am eu plant yn ddigidol o'u genedigaeth yn golygu y gallai rhieni neu warcheidwaid plant iau gael yr un buddion â phlant hŷn.

Byddai rhieni neu warcheidwaid yn gallu penderfynu a ddylid cael ID digidol i'w plentyn. Rydym hefyd yn cydnabod na fyddai plant o dan 13 oed yn gallu rheoli eu ID digidol eu hunain. Yn lle hynny, byddai hyn yn cael ei wneud gan riant neu warcheidwad.

Rydym hefyd yn cydnabod y byddai dileu isafswm oedran ar gyfer cymhwysedd i gael ID digidol yn peri heriau ychwanegol o'i gymharu â chael isafswm oedran o 13 neu 16. Mae hyn yn cynnwys materion preifatrwydd ychwanegol, a materion ynghylch sut y byddai rheolaeth rhieni dros yr ID digidol yn gweithio mewn achosion penodol, megis lle mae rhieni wedi gwahanu. Mae angen i ni hefyd ddeall a fyddai plant dan anfantais pe bai eu rhiant neu ofalwr yn penderfynu peidio â chael ID digidol ar eu rhan, ac a fyddai hyn yn achosi risgiau diogelwch, allgáu, neu risgiau eraill.

Cwestiynau am Bennod 4.1: Cymhwysedd ar gyfer yr ID digidol

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

4.1.C1. Bydd pob dinesydd Prydeinig a Gwyddelig, a gwladolion tramor sydd â chaniatâd i fod yn y DU, ac sydd dros yr isafswm oedran y cytunwyd arno, yn gymwys ar gyfer yr ID digidol cenedlaethol. Oes unrhyw grwpiau eraill y dylid eu cynnwys?

a. Byddai
b. Na
c. Ddim yn gwybod
    i. 4.1 C1.1 Rhestrwch pa grwpiau rydych chi'n credu y dylid eu cynnwys, a pham

4.1.C2. Pa un o'r oedrannau canlynol ydych chi'n meddwl sydd fwyaf addas i gael mynediad at y system ID digidol?

a. 16 oed
b. 13 oed
c. Genedigaeth
d. Arall
e. Ddim yn gwybod
    i. 4.1.C2.1. Esboniwch eich ateb

# Pennod 4.2 Datgloi mynediad ar draws cymdeithas

Ein bwriad yw bod y system ID digidol genedlaethol yn galluogi pob unigolyn cymwys i ymgysylltu â manteision niferus y dechnoleg hon, a'r gwelliannau sy'n deillio o hynny o ran rhagor o berchnogaeth ID (dogfen adnabod) a rhagor o gynhwysiant digidol. Mae allgáu ID a digidol yn cael eu trin, yn eu tro, isod.

## Allgáu ar sail dogfennau adnabod traddodiadol

Mae allgáu ar sail ID yn broblem barhaus yn y DU. Yn 2021, canfu Swyddfa'r Cabinet nad oedd gan 1 o bob 10 o bleidleiswyr cymwys yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ddull adnabod cyfredol â llun. Oherwydd cyfuniad o rwystrau ariannol, ymarferol ac eraill, mae llawer o bobl yn cael trafferth cael mynediad at ddogfennau adnabod megis pasbortau neu drwyddedau gyrru, sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin fel prawf neu dystiolaeth adnabod. Er enghraifft, mae pasbort Prydeinig oedolion yn costio rhwng £94.50 a £107, yn dibynnu ar y llwybr cais, a all eu rhoi allan o gyrraedd unigolion incwm isel. Yn ogystal, efallai y bydd rhai ymgeiswyr am ID presennol y llywodraeth yn cael trafferth cael tystiolaeth ategol, megis tystysgrifau geni neu fabwysiadu, neu fynediad at wrth-lofnodwr, sy'n ofynnol i lywio prosesau ymgeisio'n llwyddiannus. Gall lefel ymddiriedaeth unigolyn yn y llywodraeth hefyd effeithio ar a ydynt yn dewis ymgysylltu â systemau hunaniaeth ffurfiol yn y lle cyntaf.

Mae'r rhai sydd heb y gallu i brofi pwy ydynt i'r safon ofynnol dan anfantais wrth ymgysylltu â'r llywodraeth a gwasanaethau ehangach, boed ar-lein neu all-lein. Yn yr achosion mwyaf eithafol, gall hyn olygu y gall pobl gael trafferth agor cyfrif banc, prynu neu rentu cartref, neu brofi eu statws hawl i weithio.

Mae'r system ID digidol yn cynnig cyfle unigryw i gefnogi'r bobl hyn. Bydd yn caniatáu iddynt gael mynediad at ID digidol am ddim (h.y. heb daliadau ymlaen llaw am ddefnyddio a mynediad), a allai drawsnewid eu gallu i ymgysylltu â gwasanaethau perthnasol a'i wneud yn deg i'r rhai sydd dan anfantais ar hyn o bryd. Ein bwriad yw bod y system ID digidol yn galluogi pob unigolyn cymwys i ymgysylltu â gwasanaethau digidol wedi'u moderneiddio ar draws y llywodraeth. Mae rhagor o fanylion yn Rhan 3 ar sut y bydd y system ID digidol yn ddefnyddiol.

## Cynhwysiant digidol

Bydd y system ID digidol hon hefyd yn cael ei chyflwyno gyda ffocws craidd ar gynhwysiant digidol. Mae llawer o bobl heb y mynediad, y sgiliau, y cymorth a'r hyder i gymryd rhan yn ein cymdeithas ddigidol fodern ac elwa ohoni. Bydd mynd i'r afael â hyn yn hanfodol i'w gallu i ddefnyddio'r ID digidol. Er enghraifft:

- Mae Adroddiad Mynegai Digidol Defnyddwyr Lloyds yn canfod bod 1.6 miliwn o bobl yn y DU yn byw all-lein, sy'n golygu nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl

- Mae adroddiad Sgiliau Digidol Hanfodol Lloyds yn canfod nad oes gan 8% o oedolion yn y DU (oddeutu 4 miliwn o bobl) y sgiliau digidol hanfodol y mae eu hangen ar gyfer bywyd pob dydd.
- Mae ymchwil Age UK yn canfod nad yw 37% o'r rhai dros 65 oed sydd eisiau bod ar-lein mwy yn ymddiried yn y rhyngrwyd
- Mae traciwr technoleg Ofcom yn canfod nad oes gan 6% o aelwydydd y DU ffôn clyfar

## Grwpiau y mae angen cymorth wedi'i dargedu arnynt

Bydd ein gwaith cynhwysiant yn canolbwyntio ar gefnogi amrywiaeth o wahanol grwpiau. Isod mae rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r bobl a allai elwa fwyaf o fesurau cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at yr ID digidol, ac ystod o heriau a allai gyfyngu ar allu unigolion i gael mynediad ato:

- y rhai ar incwm isel, a allai wynebu tlodi data neu dlodi dyfeisiau
- pobl sydd wedi ymfudo'n gyfreithlon i'r DU ond sy'n cael trafferth profi eu hawl i fod yma (pobl heb ddogfennau sylfaenol, megis tystysgrifau geni neu basbortau, neu ddogfennau sydd wedi dod i ben), megis dinasyddion hŷn y Gymanwlad a Chenhedlaeth Windrush
- y rhai sydd heb gysylltedd rhyngrwyd neu gysylltedd gwael, neu dechnoleg anghydnaws neu sy'n hen
- pobl sydd heb sgiliau digidol hanfodol
- pobl sydd â chymhelliant neu hyder isel i ddefnyddio technolegau digidol, a hynny efallai oherwydd diffyg sgiliau a gwybodaeth
- y rhai sydd heb rwydweithiau cymorth i gael mynediad at y dechnoleg sydd ar gael
- pobl sy'n profi diweithdra
- pobl sy'n byw gydag anableddau corfforol a gwybyddol
- pobl sy'n niwroamrywiol
- pobl hŷn
- plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ('NEET'), gan gynnwys pobl ifanc sy'n agored i niwed a'r rhai sy'n derbyn gofal
- y rhai sy'n gadael gofal
- goroeswyr neu'r rhai sy'n profi cam-drin domestig ar hyn o bryd
- pobl â Saesneg cyfyngedig
- pobl nad oes ganddynt gyfeiriad sefydlog, neu sy'n profi digartrefedd
- pobl yr effeithir arnynt gan fasnachu pobl neu gaethwasiaeth fodern
- gweithwyr rhyw
- pobl mewn llochesi neu dai diogel, amddiffyniad tystion, neu sydd â chyfrinachedd neu orchmynion peidio â datgelu

- pobl draws ac anneuaidd, ac unrhyw un sydd â newidiadau enw diweddar a chofnodion anghymharus. Dylid darllen hyn ochr yn ochr â Rhan 3, sy'n cynnwys adran ar ryw a rhywedd.
- grwpiau nad yw systemau biometrig wyneb efallai yn eu hadnabod yn ddibynadwy, er enghraifft pobl sy'n byw gyda gwahaniaethau wyneb neu bobl sydd wedi cael llawdriniaeth wyneb
- pobl yn y carchar, sydd wedi'u rhyddhau'n ddiweddar neu sydd ar brawf
- cleifion mewnol mewn ysbytai neu unedau iechyd meddwl diogel a chartrefi gofal
- cymunedau diwylliannol sydd â llai o ymgysylltiad â chymdeithas brif ffrwd, gan gynnwys rhai cymunedau crefyddol a theithwyr
- pobl sydd â phryderon am ddefnydd data, diogelwch a phreifatrwydd data, sy'n amharod i ymgysylltu, neu nad ydynt yn ymddiried mewn cynhyrchion digidol neu wasanaethau'r llywodraeth. Dylid darllen y bennod hon ochr yn ochr â phennod 5.1 ar ddiogelu data a phreifatrwydd.

Cwestiynau am Bennod 4.2 Datgloi mynediad ar draws cymdeithas

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

Rydym yn ymrwymo i raglen gynhwysiant i sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn y DU yn gallu cael mynediad at yr ID digidol.

4.2.C1. Efallai y bydd rhai pobl yn wynebu rhwystrau rhag creu neu ddefnyddio'r ID digidol cenedlaethol. Gall hyn fod oherwydd anhawster cyrchu prawf hunaniaeth traddodiadol (megis pasbort) neu oherwydd diffyg mynediad digidol, sgiliau neu hyder.

A ydych yn poeni am rwystrau nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 4.2.C1.1. Pa rwystrau eraill yr ydych yn ymwybodol ohonynt a pham?

4.2.C2. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y system ID digidol genedlaethol yn parhau'n driw i'r dull a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth ar lefel leol, cynyddu mynediad i'r rhyngrwyd a helpu pobl i ddatblygu sgiliau digidol.

Oes unrhyw gymorth penodol na chafodd ei nodi yn yr ymgynghoriad neu'r Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol a fyddai'n eich helpu chi neu bobl eraill i ddefnyddio'r ID digidol cenedlaethol

a. Oes

b. Nac oes

c. Ddim yn gwybod

    i. 4.2.C2.1 Pa fathau eraill o gymorth fyddai'n ddefnyddiol a pham?

4.2.C3 Mae Pennod 4.2 yn cynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r bobl hynny a allai elwa fwyaf o fesurau cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at yr ID digidol cenedlaethol.

A oes unrhyw grwpiau sydd heb eu cynnwys yn y rhestr yr ydych yn credu y gallent fod mewn perygl o allgáu o'r ID neu ddigidol?

a. Oes

b. Na

c. Ddim yn gwybod

    i. 4.2.C3.1. Nodwch y grwpiau eraill a allai gael eu hallgáu, a disgrifiwch sut y gellid effeithio arnynt. Gwnewch hyn ar gyfer pob grŵp a nodwch.

# Pennod 4.3 Ymrwymiad i gefnogi cynhwysiant

## Cymorth ymarferol ar gynefino

Bydd angen cymorth penodol ar rai unigolion i greu a defnyddio'r ID digidol, a byddwn yn sicrhau bod mesurau ar waith i'w helpu i wneud hyn.

Gallai cymorth ar gyfer cynefino a defnydd parhaus yr ID digidol gynnwys:

- cymorth pwrpasol a hygyrch yn lleol
- cymorth a hyfforddiant gan unigolion dibynadwy
- canllawiau a rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i lywio a lledaenu sgiliau

Enghraifft o hyn yw Swyddfa Basbort EF, rhan o'r Swyddfa Gartref, sy'n darparu cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n cael trafferth gwneud cais am basbort. Mae hyn yn cynnwys llwybrau masnachol personol mewn cymunedau lleol i wirio dogfennau a sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei darparu. Darperir cymorth ffôn i gwsmeriaid anabl a chwsmeriaid sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol hefyd, i hwyluso'r gwaith o lenwi ffurflenni cais yn gywir. Mae Swyddfa Basbort EF hefyd yn integreiddio mesurau diogelu ar gyfer ymgeiswyr sy'n agored i niwed, gan sicrhau yr ymdrinnir yn sensitif ag amgylchiadau personol megis anabledd. Byddwn yn sicrhau bod cymorth ar waith i sicrhau bod pob unigolyn cymwys yn gallu cael mynediad at yr ID digidol os ydynt yn dymuno.

## Cymorth cynhwysiant digidol

Bydd yn hanfodol bod y rhai y mae angen cymorth digidol arnynt yn gallu cael mynediad at y system ID digidol. Mae'r Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol yn nodi'r camau mae'r llywodraeth yn eu cymryd i wella sgiliau digidol a helpu rhagor o bobl i gael mynediad at fanteision technoleg a gwasanaethau ar-lein. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys:

- nodi beth sy'n gweithio a dylunio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- cymryd ymagwedd draws-lywodraethol at chwalu seilos
- cyflawni mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, llywodraethau cenedlaethol a datganoledig, a'r sector preifat a'r trydydd sector
- Dysgu gan bartneriaid rhyngwladol a dilyn arfer gorau

Bydd y llywodraeth yn parhau i ddarparu gweithgarwch cynhwysiant digidol wedi'i dargedu i gynorthwyo'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, gan gynnwys darparu cymorth i gael mynediad at yr ID digidol.

Cwestiynau am Bennod 4.3 Ymrwymiad i gefnogi cynhwysiant

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

4.3.C1. Pa fath o gymorth ddylai fod ar gael i bobl nad oes ganddynt ddyfais ddigidol (megis ffôn clyfar neu lechen) i'w galluogi i greu a chael mynediad at yr ID digidol?

a. Help pwrpasol a hygyrch yn lleol

b. Cymorth a hyfforddiant gan unigolion dibynadwy

c. Canllawiau a rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i lywio a lledaenu sgiliau

    i. Arall. Rhowch fanylion.

*Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer arbenigwyr sy'n ymateb yn rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

4.3.C2. Rydym yn ystyried cymorth hygyrch pwrpasol i'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, a ddarperir yn lleol, yn bersonol a chan sefydliadau dibynadwy. A oes unrhyw ffyrdd eraill yr ydych chi'n credu y dylai'r llywodraeth eu hystyried o gefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol?

a. Oes

b. Nac oes

c. Ddim yn gwybod

    i. 4.3.C2.1. Esboniwch pa fesurau cefnogi y dylid eu hystyried

# Pennod 4.4 Hygyrchedd

Bydd yr ID digidol cenedlaethol yn dilyn dull cynhwysol drwy ddyluniad. Mae hyn yn golygu y byddwn yn anelu at:

- ragweld a chael gwared ar rwystrau i hygyrchedd
- nodweddion dylunio gyda defnyddwyr amrywiol mewn golwg
- profi nodweddion yn helaeth cyn eu cyflwyno
- sicrhau profiad da i bob defnyddiwr, beth bynnag fo'u gallu neu oedran, neu fodel eu dyfais

Bydd y system yn cydymffurfio â safonau hygyrchedd cydnabyddedig megis safonau AA 2.2 y Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys Gwe (WCAG). Bydd y system hefyd yn cydymffurfio â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2)) 2018, sy'n nodi safonau'n benodol ar gyfer cyrff sector cyhoeddus i sicrhau bod eu gwefannau a'u hapiau symudol yn hygyrch. Bydd hefyd yn anelu at fod yn gwbl weithredol, gan ddefnyddio technolegau cynorthwyol cyffredin, gan gynnwys:

- darllenwyr sgrin
- llywio â bysellfwrdd yn unig
- gorchmynion llais
- dilysu biometrig
- chwyddo'r sgrin

Bydd hygyrchedd yn ymdrech barhaus a chydweithredol, a byddwn yn addasu ein dull wrth i gyfleoedd newydd ar gyfer hygyrchedd gael eu nodi ac i anghenion technolegol esblygu.

Cwestiynau am Bennod 4.4: Hygyrchedd

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

4.4.C1. Mae'r llywodraeth yn bwriadu ymgysylltu ag ystod o bobl a sefydliadau y tu allan i'r llywodraeth i helpu i sicrhau bod dyluniad a chyflwyno'r system ID digidol genedlaethol yn hygyrch. Allwch chi awgrymu unrhyw sefydliadau penodol neu fathau o sefydliadau y dylai'r llywodraeth ymgysylltu â hwy?

# Pennod 4.5: Llwybrau mynediad amgen

Rydym yn cydnabod y gall rhai grwpiau o bobl elwa'n sylweddol o lwybrau amgen a chymorth ychwanegol i gael mynediad at eu ID digidol cenedlaethol a'i ddefnyddio. Bydd y llwybr safonol, fel y nodir yn Rhan 2, yn gofyn am ddyfais, megis ffôn clyfar neu lechen cydnaws, a chysylltedd.

Rydym yn ystyried a fydd angen llwybrau amgen i gael mynediad at yr ID digidol, er mwyn sicrhau bod pob unigolyn cymwys yn gallu cael mynediad at y system. Byddai unrhyw lwybr amgen yn hwyluso gwiriad wedi'i ddigideiddio i sicrhau bod y llwybr amgen mor gadarn â'r llwybr safonol o ran diogelwch, dibynadwyedd, cywirdeb ac atal twyll. Mae hyn yn golygu na all cerdyn ffisegol y gellir ei wirio'n weledol yn unig fod yn ddewis arall.

Isod ceir enghreifftiau o sut mae gwledydd eraill wedi dilyn llwybr mynediad amgen, ond wedi'i ddigideiddio, i'w systemau priodol. Mae'r enghreifftiau rhyngwladol hyn wedi'u cynnwys er gwybodaeth yn unig, ac mae'r cyd-destunau cenedlaethol y maent wedi'u cynllunio ynddynt yn debygol o amrywio'n sylweddol o'r rhai yn y DU. Maent yn darparu enghreifftiau o dechnolegau a all hwyluso gwiriad digidol heb fod angen dyfais neu gysylltedd data.

Astudiaethau achos rhyngwladol:

- **MitID Denmarc:** Mae mynediad at MitID yn bennaf drwy'r ap MitID, ond mae llwybrau mynediad amgen yn cynnwys dangos cod. Mae hwn yn gynnyrch ffisegol sy'n arddangos cod mynediad untro i ddefnyddwyr fewngofnodi'n ddiogel i borwr gwe. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan MitID
- **Aadhaar India:** Mae system ID digidol India yn cynnwys ap ffôn clyfar ochr yn ochr â llwybrau mynediad amgen. Mae'r llwybrau amgen hyn yn cynnwys codau QR wedi'u llofnodi'n ddigidol, y gellir eu sganio ar gyfer dilysu manylion adnabod ar-lein. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar Wefan Aadhaar
- **E-ID Estonia:** Sylfaen y cynllun hwn yw cerdyn adnabod ffisegol gyda sglodyn clyfar ar gyfer dilysu digidol. Mae'r system eid hefyd yn cynnwys ap ffôn clyfar. Fel llwybr mynediad amgen, mae ID Symudol yn cynnig dilysu digidol diogel a llofnodion drwy gerdyn SIM arbennig, gan alluogi mynediad at e-wasanaethau heb ddarllenydd cerdyn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan eid.

Cwestiynau am Bennod 4.5: Llwybrau mynediad amgen

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

4.5.C1. Rydym yn archwilio ffyrdd amgen o gael mynediad at yr ID digidol cenedlaethol i'r rhai nad ydynt yn gallu defnyddio dyfais. Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhwystrau

pwysicaf i'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw wrth ddylunio llwybrau mynediad amgen ar gyfer yr ID digidol cenedlaethol?

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

4.5.C2. Os ydych chi'n rhywun nad yw'n defnyddio dyfais ddigidol, beth hoffech chi ei gael gan lwybr mynediad amgen?

# Rhan 5: Dibynadwy



## Cyflwyniad

Mae'n hanfodol i lwyddiant y system ID digidol genedlaethol bod y llywodraeth yn cynnal y safonau uchaf o ran diogelwch, preifatrwydd a diogelu data, gyda llywodraethu a goruchwyliaeth effeithiol a chymesur. Rhaid bod gan unigolion hyder llawn bod y llywodraeth yn gofalu am eu data, gan ei gadw'n ddiogel rhag datgelu anawdurdodedig, twyll, seiberymosodiadau a bygythiadau eraill. Yn yr un modd, rhaid bod y rhai y mae angen iddynt ddibynnu ar wybodaeth yn yr ID digidol, o wasanaethau'r llywodraeth i fusnesau preifat, yn gallu ymddiried yn ei chywirdeb a'i dilysrwydd. Bydd egwyddorion lleihau data a grymuso defnyddwyr i sicrhau bod ganddynt fwy o reolaeth dros faint o ddata maent yn ei rannu wrth ddefnyddio eu ID digidol pan fyddant yn ei ddefnyddio yn ganolog i ddylunio a rhoi'r system ar waith.

## Pennod 5.1: Diogelu data a phreifatrwydd

Bydd y system ID digidol wedi ei ddylunio a'i gyflwyno gyda phreifatrwydd yn ganolog iddo. Mae gan y DU ddeddfwriaeth diogelu data gref, a bydd gofynion ac egwyddorion cyfreithiol cadarn ynghylch diogelu data a phreifatrwydd drwy ddylunio wedi eu hymgorffori drwy bob cam o ddatblygu a chyflwyno'r system newydd. Mae deddfwriaeth diogelu data yn golygu GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 ac unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt. Mae deddfwriaeth berthnasol arall yn cynnwys Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Mae'r amgylchedd deddfwriaethol hwn yn darparu rheiliau gwarchod cryf ar gyfer sut y gellir rhoi'r system ID digidol ar waith a'i ddefnyddio, ac ni fydd y dyluniad a'r cyflwyniad yn gwyro oddi wrth ofynion cyfreithiol sefydledig.

### Adeiladu ar y cynnydd presennol

Mae'r llywodraeth eisoes yn prosesu data personol at ddibenion adnabod, gan gynnwys drwy GOV.UK One Login, GOV.UK Wallet, y gwasanaeth eVisa a Swyddfa Basbort EF. Mae'r gwasanaethau hyn yn ddiogel ac wedi'u cynllunio gan ystyried preifatrwydd, a bydd y system newydd yn adeiladu ar y sylfeini sefydledig a chadarn hyn i ddarparu datrysiad sydd wedi'i gynllunio i'r safonau uchaf o ran preifatrwydd, diogelwch ac ymddiriedaeth.

Mae diogelu data drwy ddylunio wedi'i ymgorffori yn y systemau hyn ac mae trefniadau llywodraethu cryf yn sicrhau bod cydymffurfiaeth ynghylch diogelu data yn rhan annatod o'u gweithrediad. Er enghraifft, mae GOV.UK One Login yn storio'r lleiafswm data sy'n ofynnol i ddilysu hunaniaeth rhywun yn unig, ac yn sicrhau ei fod yn cael ei rannu gan y deiliad cyfreithlon. Mae GOV.UK Wallet yn dilyn model data datganoledig. Mae hyn yn golygu, yn hytrach na storio data personol pawb mewn cronfa ddata ganolog newydd, mae pob adran neu asiantaeth y llywodraeth yn rheoli ei rhan ei hun o'r system. Maent yn cyhoeddi ac yn cynnal ardystiadau digidol (ac yn cadw'r data personol angenrheidiol i wneud hynny), gan ddefnyddio eu seilwaith diogel eu hunain, ond gellir cysylltu a defnyddio'r holl ardystiadau hyn drwy'r GOV.UK Wallet, wedi'i ategu gan GOV.UK One Login.

Gan adeiladu ar y gwasanaethau hyn, byddwn yn dylunio'r system ID digidol i fod yn ddiogel, gyda dim ond yr isafswm o ddata wedi'i gasglu a'i storio. Mae'r mwyafrif o'r data a ddefnyddir trwy gydol y broses yn aros yn y ffynhonnell, lle mae eisoes wedi'i storio'n ddiogel. Bydd hyn yn sicrhau bod y berthynas sydd eisoes gan bobl â gwahanol adrannau'r llywodraeth yn parhau i fod yn gyfan. Er enghraifft, bydd data am hawl budd-daliadau rhywun yn aros gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), hyd yn oed os ydynt yn profi eu hunaniaeth i'r DWP gan ddefnyddio'r ID digidol cenedlaethol.

**Blwch 5.1.1. Diogelu data personol Swyddfa Basbort EF**

Mae diogelu data personol yn hollbwysig i Swyddfa Basbort EF, ac mae'n enghraifft o sut mae'r llywodraeth yn cadw data personol yn ddiogel. Mae Swyddfa Basbort EF yn defnyddio dull diogelwch aml-haenog, gan gyfuno storfeydd data wedi'u hamgryptio gyda rheolaethau mynediad llym ar gyfer defnyddwyr y data a'r rhai sy'n cynnal y systemau.

Mae ein gwasanaethau digidol yn rhedeg ar seilwaith cwmwl modern, a gynhelir yn y DU. Rydym yn rhedeg y system mewn amgylchedd diogel, hunangynhwysol sydd wedi'i gynllunio i leihau risgiau. Mae data wedi'i amgryptio pan gaiff ei gludo neu pan fo'n gorffwys, dim ond pobl awdurdodedig all gael mynediad i'r system, mae'r holl weithgarwch yn cael ei gofnodi, a chaiff pob cais ei wirio i sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Mae diogelwch wedi'i gynllunio o'r cychwyn. Mae modelu bygythiadau yn cael ei gynnal wrth i wasanaethau gael eu datblygu a'u cynnal, gan sicrhau bod risgiau posib yn cael eu deall a'u lliniaru'n gynnar. Cefnogir hyn gan weithgareddau monitro parhaus a sicrwydd rheolaidd i gynnal y safonau diogelwch uchaf. Mae Swyddfa Basbort EF yn prosesu data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data'r DU. Dim ond cyhyd ag sy'n angenrheidiol y cedwir data personol, ac nid yw'n cael ei rannu oni bai ei fod yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny. Mae manylion llawn yn yr Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd yn GOV.UK ynghylch sut mae eich data personol yn cael ei defnyddio yn Swyddfa Basbort EF.

## Arfer mwy o gydsyniad a rheolaeth

Er y bydd pobl bob amser yn cael dewis ystyrlon ynghylch a ddylid defnyddio'r ID digidol, rydym hefyd wedi ymrwymo i archwilio opsiynau dylunio a fydd yn eu cefnogi i arfer mwy o gydsyniad a rheolaeth wrth ddefnyddio eu ID digidol. Fel y nodir ym Mhennod 1.2, bydd yr ystod o ffyrdd y gall pobl ddewis defnyddio ID digidol yn y sector cyhoeddus a phreifat yn tyfu dros amser – ond, yn hollbwysig, bydd pobl hefyd yn gallu parhau i ddefnyddio unrhyw ddewisiadau amgen eraill, megis dogfennau ffisegol. I'r rhai sy'n dewis defnyddio eu ID digidol, fodd bynnag, ein huchelgais yw adeiladu mwy o gydsyniad a rheolaeth nag y mae dewisiadau ffisegol amgen yn eu cynnig.

Er enghraifft, ym Mhennod 3.1 rydym yn ymdrin â sut y bydd yr ID digidol yn cefnogi swyddogaeth 'datgelu dethol'. Ar hyn o bryd, wrth gyflwyno neu ddefnyddio sganiau o ddogfennau adnabod ffisegol, nid oes gan unigolion unrhyw ddewis ond datgelu'r holl wybodaeth a argraffwyd arnynt. Gall hyn yn aml gynnwys priodoleddau neu wybodaeth ddiangen. Mewn cyferbyniad, bydd yr ID digidol yn caniatáu i bobl ddatgelu dim ond y wybodaeth amdanynt eu hunain sy'n berthnasol i sefyllfa. Mae hyn yn helpu i leihau risgiau preifatrwydd drwy leihau'r potensial ar gyfer datgelu data sensitif. Drwy ganiatáu i bobl reoli pryd, ble ac â phwy i rannu gwybodaeth o'u dyfais, mae hyn hefyd yn gwneud cydsyniad rhywun yn ganolog i unrhyw ryngweithiadau lle maent yn dewis cyflwyno eu ID digidol.

Rydyn ni eisiau cynyddu cymaint ag y bo modd y mathau hyn o fuddion i bobl. Wrth i'r system hon ddatblygu, felly, byddwn yn parhau i ystyried sut y gall pobl gael eu grymuso i arfer mwy o gydsyniad a rheolaeth dros eu ID digidol mewn ffyrdd eraill ac mewn gwahanol achosion defnydd.

Er eglurder, nid yw cyfeiriadau yn yr adran hon at gydsyniad wedi'u bwriadu i'w darllen yn gyfeiriadau at gydsyniad fel y'u diffinnir o dan GDPR y DU.

## Preifatrwydd drwy ddylunio ac yn ddiofyn

Rydym yn cydnabod bod preifatrwydd yn bryder canolog i lawer o unigolion a sefydliadau. Rydym yn cymryd y pryderon hyn o ddifrif. Bydd y system ID digidol yn glir ynghylch pa ddata sy'n cael ei gasglu, pam mae ei angen a sut y bydd yn cael ei ddefnyddio. Rydym yn croesawu deialog agored gydag unigolion, sefydliadau a chymunedau sy'n canolbwyntio ar breifatrwydd i rannu eu barn a'u pryderon am ddiogelu data a phreifatrwydd y system. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i helpu i sicrhau bod pryderon preifatrwydd yn cael eu clywed, a phan fo'n briodol, yn cael eu datrys.

Rydym yn disgwyl y bydd y system ID digidol yn cynnig ystod o fanteision preifatrwydd i ddefnyddwyr ac i gymdeithas, gan gynnwys:

- caniatáu i bobl rannu'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer trafodiad penodol neu i gael mynediad at wasanaeth yn unig (e.e. profi oedran dros 18 heb

ddatgelu dyddiad geni llawn neu wybodaeth arall y gellid ei gweld ar ddogfen ffisegol)
- lleihau dibyniaeth ar ddulliau llai diogel o brofi pwy ydych (e.e. llai o angen rhannu neu ddefnyddio dogfennau adnabod copi caled a thystiolaeth arall)
- sicrhau mwy o dryloywder o sut mae data yn cael ei brosesu a phwy y caiff ei rannu â nhw
- symleiddio cyfrifoldebau cydymffurfio â phreifatrwydd busnesau drwy gyflwyno ffordd syml a diogel o wirio hawl unigolyn i weithio

Er bod trefniadau manwl ar gyfer prosesu data personol yn ddarostyngedig i ddyluniad terfynol y system, ac na ellir eu nodi'n fanwl ar hyn o bryd, bydd y mesurau diogelu canlynol yn cael eu hadeiladu yn y system ID digidol i ddiogelu preifatrwydd pobl a rhoi hyder llawn i ddefnyddwyr yn y ffordd y bydd eu gwybodaeth yn cael ei thrin:

- **Diogelu data drwy ddylunio ac yn ddiofyn.** Bydd y system yn cael ei chynllunio gyda phreifatrwydd fel egwyddor graidd, gan ddilyn "preifatrwydd drwy ddylunio a diofyn" o'r camau cynharaf. Bydd pob penderfyniad pensaernïol a swyddogaethol yn blaenoriaethu preifatrwydd defnyddwyr, gan gynnwys lleihau casglu data, sicrhau storio diogel, a chynnal tryloywder. Bydd arbenigwyr preifatrwydd yn cael eu hymgorffori yn y tîm prosiect i adolygu'r holl ddewisiadau dylunio a darparu canllawiau i sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau diogelu data. Bydd modd dogfennu ac archwilio penderfyniadau, gan atgyfnerthu atebolrwydd trwy gydol y broses. Fel rhan o fframwaith diogelu data'r DU, mae'r egwyddor atebolrwydd yn golygu bod sefydliad yn gyfrifol am gydymffurfio ag egwyddorion diogelu data, a rhaid iddo allu dangos y gydymffurfiaeth honno.

- **Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA).** Bydd DPIA yn ganolog i'r dull hwn ac yn cael eu cynnal yn barhaus trwy gydol cylch oes y system. Bydd yr asesiadau hyn yn archwilio sut mae data personol yn cael ei brosesu, yn nodi risgiau i hawliau unigolion, ac yn nodi mesurau i liniaru'r risgiau hynny. Bydd DPIA yn cael eu llywodraethu'n drylwyr, yn cynnwys goruchwyliaeth gan uwch swyddogion, ac yn cael eu rhannu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar gyfer adolygu a chyngor. Mae hyn yn sicrhau bod risgiau esblygol yn cael eu datrys yn brydlon a bod cydymffurfiaeth â chyfraith diogelu data yn cael ei gynnal.

- **Tryloywder ac ymgysylltu â'r cyhoedd**. Mae tryloywder yn ganolog i adeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd, ac rydym wedi ymrwymo i fod yn agored ac yn atebol o ran sut mae data personol yn cael ei brosesu. Bydd y broses ymgynghori a'r ymgysylltu parhaus yn rhoi llais i bobl ar ddylunio'r system. Unwaith y bydd y penderfyniadau hyn wedi'u cwblhau, bydd defnyddwyr yn cael gwybodaeth glir, blaen am ba ddata sy'n cael ei gasglu, sut mae'n cael ei ddefnyddio, cyfnodau cadw, a'u hawliau. Bydd hysbysiadau preifatrwydd yn hygyrch ac yn hawdd eu deall, gan sicrhau bod pobl yn parhau i fod yn hyderus ac yn wybodus o'r system.

- **Cydymffurfio â'r holl egwyddorion a gofynion diogelu data.** Bydd y system ID digidol yn cydymffurfio â'r holl ofynion diogelu data perthnasol, gan gynnwys:
  - **Bydd data personol yn cael ei brosesu'n deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw**, gyda seiliau cyfreithiol clir a mesurau diogelu wedi'u hymgorffori i atal niwed neu wahaniaethu
  - **Dim ond at ddibenion penodol, cyfreithlon y bydd data yn cael ei gasglu**, megis gwirio hunaniaeth neu hawl i weithio, a dim ond y wybodaeth angenrheidiol fydd yn cael ei defnyddio, ei hadolygu'n rheolaidd, a'i diogelu drwy reolaethau technegol.
  - **Caiff cywirdeb ei gynnal** drwy ffynonellau awdurdodol a dulliau diweddaru hawdd eu defnyddio.
  - **Cedwir data cyhyd ag y bo angen**, wedi'i storio'n ddiogel ar ddyfeisiau defnyddwyr lle bo modd.
  - **Caiff data plant** ei drin gydag amddiffyniadau uwch, sy'n cyd-fynd â Chod Dylunio Priodol i Oedran yr ICO a'r arweiniad Plant a GDPR.

Cwestiynau am Bennod 5.1: Diogelu data a phreifatrwydd

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

5.1.C1. Oes unrhyw fesurau ychwanegol, y tu hwnt i'r egwyddorion a'r safonau a nodwyd yn yr ymgynghoriad, y dylem eu hystyried i ddiogelu data defnyddwyr ymhellach?

a. Oes
b. Na
c. Ddim yn gwybod
    i. 5.1.C1.1. Os Oes, esboniwch pa fesurau y dylem eu hystyried a pham

*Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer arbenigwyr sy'n ymateb yn rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

5.1.C6. Bydd egwyddorion lleihau data a grymuso defnyddwyr i sicrhau bod ganddynt fwy o reolaeth dros faint o ddata maent yn ei rannu wrth ddefnyddio eu ID digidol cenedlaethol pan fyddant yn ei ddefnyddio yn ganolog i ddyluniad a rhoi'r system ID digidol ar waith. Sut dylai'r llywodraeth sicrhau tryloywder ynghylch sut y defnyddir data ID digidol cenedlaethol?

# Pennod 5.2: Diogelu'r system ID digidol genedlaethol

## Adeiladu ar brosesau ac arfer gorau presennol seiberddiogelwch

Mae gan y llywodraeth brofiad hirsefydlog ac arfer gorau mewn diogelu systemau a gwasanaethau cyhoeddus sy'n trin setiau data personol mawr, ac sy'n hanfodol i fywyd dydd i ddydd yn y DU. Mae hyn yn cynnwys data sy'n profi pwy yw unigolyn. Er enghraifft, mae Swyddfa Basbort EF yn cynnal egwyddorion diogelwch trylwyr i sicrhau uniondeb a dibynadwyedd pasbortau Prydain, gan gynnwys diogelwch biometrig a phrotocolau gwirio hunaniaeth llym. Bydd y system ID digidol yn adeiladu ar y canfyddiadau a gafwyd o fodelau dibynadwy a diogel presennol – a bydd angen gosod y meincnod ar gyfer gwasanaeth hunaniaeth ddigidol diogel, ar raddfa genedlaethol.

Mae'n hanfodol bod diogelwch y systemau ac unrhyw ddata sy'n cael ei gyrchu, ei rannu a'i storio wrth wraidd y dyluniad. Mae'r llywodraeth wedi nodi seiberfygythiadau, megis risg gynyddol i wydnwch gwasanaethau cyhoeddus, gyda chynnydd sydyn mewn ymosodiadau soffistigedig sy'n targedu systemau critigol. Mae cynnal y safonau uchaf o ddiogelwch a gwelliant parhaus i sicrhau bod systemau yn cadw i fyny â bygythiadau sy'n datblygu yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a sicrhau diogelwch hirdymor y seilwaith ID digidol cenedlaethol.

Rhaid i holl wasanaethau digidol a seilwaith technegol llywodraeth y DU gydymffurfio â dwy safon graidd – proffiliau Fframwaith Asesu Seiber ac egwyddorion Diogel drwy Ddylunio. Bydd y system ID digidol yn cael ei hategu gan y safonau seiberddiogelwch sylfaenol hyn, yn ogystal â chyngor parhaus ar gadw i fyny â'r seiberfygythiad i'r DU. Byddwn yn gofyn am gyngor gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), fel awdurdod technegol cenedlaethol y DU ar gyfer seiberddiogelwch.

## Unigolion sy'n agored i niwed ac sy'n wynebu risg

Mae'n arbennig o bwysig bod y llywodraeth yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'r llywodraeth yn trin data personol yr unigolion hynny a allai fod yn agored i niwed neu'n wynebu risg uwch o niwed yn gywir, fel yr unigolion hynny a allai gael niwed anghymesur os yw eu data personol yn cael ei gamddefnyddio, ei ddatgelu neu ei ddiogelu'n annigonol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:

- dioddefwyr cam-drin domestig
- pobl mewn cynlluniau amddiffyn tystion
- staff y llywodraeth mewn rolau sensitif
- ffigurau cyhoeddus proffil uchel
- barnwyr neu ASau sy'n gwasanaethu
- plant neu unigolion oedrannus
- pobl ag anableddau neu gyflyrau iechyd meddwl

Bydd y system ID digidol yn gweithredu yn unol ag egwyddorion cyhoeddedig y llywodraeth ar gyfer diogelu data personol mewn perthynas ag unigolion sy'n agored i niwed ac sy'n wynebu risg. Bydd hyn yn sicrhau ei fod yn cyflawni'r dull cytbwys, cynhwysol angenrheidiol, ac yn amddiffyn unigolion o'r fath heb gynyddu eu cysylltiad drwy allgáu neu driniaeth anghyson eu gwybodaeth adnabyddadwy.

## Diogelwch gwladol

Mae'n ofynnol i'r llywodraeth sicrhau bod y system ID digidol yn ddiogel ac er budd diogelwch gwladol. Er bod trefniadau manwl ar gyfer lliniaru diogelwch yn amodol ar ddyluniad terfynol y system, ac na ellir eu nodi'n fanwl ar hyn o bryd, bydd y system ID digidol yn cael ei adeiladu i ddiogelu rhag bygythiadau diogelwch gwladol.

## Mynediad cyfreithlon

Bydd mynediad at ddata personol a brosesir fel rhan o'r system ID digidol yn ddarostyngedig i ofynion a chyfyngiadau cyfreithiol presennol, sy'n sicrhau bod mynediad yn angenrheidiol ac yn gymesur. Yn benodol, mae mynediad at ddata personol gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth at ddibenion atal neu ganfod troseddu, neu er budd diogelwch gwladol, yn cael ei lywodraethu gan ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, Deddf Troseddu a'r Llysoedd 2013, Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r pwerau presennol wedi'u cynllunio i alluogi canfod ac atal bygythiadau difrifol, megis terfysgaeth, ysbïwriaeth a throseddau difrifol. Mae goruchwyliaeth a mesurau diogelu trwyadl ar waith i amddiffyn hawliau a phreifatrwydd unigolion.

Bydd mynediad at yr ID digidol newydd yn ehangach hefyd yn cael ei lywodraethu gan gyfreithiau presennol (gan gynnwys GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018). Mae hyn eisoes yn wir am DVLA a'r drwydded yrru, Swyddfa Basbort EF a'r pasbort, a GOV.UK One Login.

## Pwerau'r heddlu

Ni fydd unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar bobl i gael neu gyflwyno'r ID digidol. Ni fydd gan yr heddlu bwerau newydd i ofyn am ID digidol unigolyn at ddibenion stopio a chwilio.

**Blwch 5.2.1 – Stopio a chwilio yr heddlu**

Yn y DU nid oes gofyniad cyfreithiol i gario prawf adnabod bob tro, a bydd hyn yn parhau'n wir. Yn gyffredinol, nid oes gan yr heddlu, gyda sawl eithriad cyfyngedig, unrhyw bwerau i fynnu bod person yn darparu dogfennau adnabod iddynt yn ystod cyfarfyddiadau dydd i ddydd.

Lle mae swyddogion gorfodi mewnfudo yn cynnal ymweliad gorfodi neu warant, fodd bynnag, mae ganddynt bwerau i sicrhau bod gan bawb sy'n cael eu cyflogi yr hawl i weithio yn y DU, a allai gynnwys archwilio dogfennau adnabod.

Mae gan yr heddlu bwerau cyfraith gyffredin i atal a chanfod troseddu, a rhaid iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth amrywiol megis diogelu data, hawliau dynol, cydraddoldeb a chyfreithiau perthnasol eraill. Er enghraifft, mae sail gyfreithiol ar gyfer defnydd yr heddlu o adnabod wynebau, a all gynnwys mynediad at ddata biometrig a gedwir gan y llywodraeth. Mae'r llywodraeth yn cydnabod bod y fframwaith cyfreithiol presennol yn gymhleth, ac mae wedi lansio ymgynghoriad (a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2026) ar adolygu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio adnabod wynebau wrth orfodi'r gyfraith. Mae'r ymgynghoriad hwnnw'n cynnig fframwaith cyfreithiol newydd a fydd yn creu rheolau cyson, gwydn a mesurau diogelu priodol ar gyfer adnabod wynebau a thechnolegau tebyg sy'n debygol o'i ddilyn mewn perthynas â data biometrig a gedwir gan y llywodraeth yn y dyfodol. Bydd yr ID digidol cenedlaethol yn ddarostyngedig i fframweithiau presennol a/neu unrhyw fframwaith cyfreithiol newydd a gyflwynir.

Cwestiynau am Bennod 5.2: Diogelu'r system ID digidol genedlaethol

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

5.2.C1. A oes unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol at y rhai a enwir uchod y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r system ID digidol genedlaethol?

a. Oes
b. Na
c. Ddim yn gwybod
   i. 5.2.C1.1. Beth ydyn nhw a pham ydych chi'n eu hargymell?

## Pennod 5.3: Twyll yn her genedlaethol

Mae twyll yn erbyn unigolion a busnesau yn drosedd sy'n esblygu'n gyflym, sy'n hynod niweidiol, sy'n dinistrio dioddefwyr, sy'n erydu ymddiriedaeth y cyhoedd, ac sy'n fygythiad difrifol i ddiogelwch gwladol a sefydlogrwydd economaidd y DU. Mae'r llywodraeth yn gwybod bod twyll yn broblem sylweddol yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yn y DU, gydag ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif mai twyll yw'r math mwyaf cyffredin o drosedd yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn gwybod y bydd twyllwyr yn targedu'r system ID digidol; ac y bydd sicrhau ein bod yn deall pam, sut a phryd yn hanfodol i gynnal ymddiriedaeth a chadw'r system yn ddiogel i'w defnyddio. Caiff y gwaith hwn ei wneud ochr yn ochr â  Strategaeth Twyll estynedig y llywodraeth, a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ar 9 Mawrth 2026.

Mae cyfran sylweddol o dwyll yn y DU yn cael ei galluogi gan gamddefnyddio hunaniaeth a mynediad anawdurdodedig i gyfrifon. Mae hyn yn digwydd lle mae troseddwyr yn dynwared eraill, yn dwyn, yn prynu neu'n creu hunaniaethau ffug i gael mynediad at wasanaethau, budd-daliadau neu gynnyrch ariannol. Yn 2024, adroddodd Fraudscape fod twyll manylion adnabod yn cyfrif am 59% o bob achos a anfonwyd i Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol Cifas. Mae deallusrwydd artiffisial (AI) hefyd wedi newid y dirwedd twyll, gan gyflwyno risgiau newydd a chymhleth. Gall gweithredwyr maleisus ddefnyddio AI i greu hunaniaethau ffug argyhoeddiadol iawn, trin data biometrig, ac awtomeiddio dynwared ar raddfa fawr.

Mae mynd i'r afael â chamddefnyddio hunaniaeth, felly, yn hanfodol i sicrhau system adnabod digidol ddiogel. Mae'r system ID digidol yn cynnig cyfleoedd i gryfhau prosesau dilysu a gwirio, gan ei gwneud hi'n anoddach i droseddwyr fanteisio ar wendidau sy'n gysylltiedig â manylion adnabod. Gall cam-drin hunaniaeth hefyd ddigwydd pan fydd ardystiadau'n ymddangos yn segur, wedi dyddio, neu nad yw'r ID digidol bellach yn ddilys neu'n angenrheidiol, gan greu cyfleoedd ar gyfer ecsbloetio. Mae hyn yn golygu y bydd yn bwysig cynnal cywirdeb hunaniaeth trwy gydol cylch oes yr ID digidol.

**Blwch 5.3.1 – Sgamwyr**

Bydd yr ID digidol cenedlaethol yn darged i dwyllwyr, sgamwyr ac ymgyrchoedd camwybodaeth. Gall twyllwyr ddynwared asiantaethau'r llywodraeth, anfon negeseuon e-bost ffug, negeseuon testun sgâm, neu alwadau yn gofyn i bobl "gofrestru" neu "wirio" eu ID digidol. Gallai'r negeseuon hyn gysylltu â gwefannau maleisus sydd wedi'u cynllunio i ddwyn data personol neu wybodaeth dalu. Gallai troseddwyr hefyd hyrwyddo apiau answyddogol sy'n honni mai nhw yw'r ID digidol newydd neu GOV.UK Wallet i dwyllo defnyddwyr i lawrlwytho maleiswedd neu gyflwyno data sensitif. Gallai troseddwyr ddynwared cyflogwyr neu swyddogion y llywodraeth sy'n gofyn am fanylion yr ID digidol newydd ar gyfer gwiriadau hawl i weithio, yna defnyddio'r data ar gyfer dwyn hunaniaeth neu dwyllo. Yn yr un modd, gall gwasanaethau trydydd parti heb eu rheoleiddio gynnig "helpu" defnyddwyr i sefydlu eu ID digidol, gan gasglu gwybodaeth bersonol o dan honiadau ffug.

Er mwyn sicrhau llwyddiant ac uniondeb y system ID digidol, gwyddom ei bod yn hanfodol rhagweld a lliniaru'r risgiau a achosir gan sgamiau a chamwybodaeth.

Fel y nodir yn Rhan 4, efallai y bydd angen llwybrau amgen a chymorth ychwanegol ar rai grwpiau i gael mynediad at yr ID digidol a'i ddefnyddio. Bydd y llwybrau amgen hyn yn cael eu cynllunio heb gyfaddawdu diogelwch a chyda mesurau atal twyll cadarn wedi'u hymgorffori.

Cwestiynau am Bennod 5.3: Twyll yn her genedlaethol

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cyrchu a defnyddio'r ID digidol cenedlaethol, bydd angen i'r broses ymgeisio gynnig llwybrau amgen a chymorth ychwanegol i'r rhai y mae eu hangen arnynt.

5.3.C1. Rydym am sicrhau bod y llwybrau mynediad amgen hyn yn ddiogel. Beth ydych chi'n meddwl yw'r ffactorau pwysicaf y mae angen i ni eu hystyried er mwyn cyflawni hyn?

5.3.C2. Beth ydych chi'n meddwl yw'r ffactorau pwysicaf i'w hystyried wrth sicrhau nad yw llwybrau mynediad amgen i'r ID digidol cenedlaethol yn cael eu camddefnyddio gan weithredwyr twyllodrus?

# Pennod 5.4 Sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu cryf

Mae goruchwyliaeth a llywodraethu cryf yn hanfodol i amddiffyn hawliau unigolion a sicrhau ymddiriedaeth y cyhoedd yn y system ID digidol genedlaethol. Mae trefniadau goruchwylio cadarn yn aml yn cynnwys cyfuniad o brosesau mewnol ac allanol, gan amrywio o ddulliau mewnol o ymdrin â chwynion i graffu annibynnol a chael eu dwyn i gyfrif gan y Senedd ac eraill.

## Strwythurau goruchwylio presennol

Fel y nodir ym mhennod 2.1, mae gan y llywodraeth seilwaith aeddfed a dibynadwy ar gyfer nodi gwasanaethau dilysu digidol da, sy'n helpu i sicrhau y diogelir data a phreifatrwydd pobl. Mae hyn yn cynnwys safonau presennol a mesurau diogelu rheoleiddiol ar gyfer meysydd sy'n cynnwys seiberddiogelwch, diogelwch gwladol, twyll, a diogelu data a phreifatrwydd. Rydym yn bwriadu i'r system ID digidol weithredu o fewn yr ecosystem hon, gan fabwysiadu'r safonau a'r mesurau diogelu hyn, i sicrhau bod y system yn gweithredu i'r safonau uchaf.

Mae rôl allweddol i Senedd Prydain wrth graffu ar y cynigion ar gyfer y system ID digidol, ei weithrediad parhaus, a phan fo angen, unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol. Mae gofyniad parhaus i adrannau'r llywodraeth adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar eu perfformiad ariannol a'u gweithgareddau, ac rydym yn disgwyl y bydd y system ID digidol yn ddarostyngedig i'r un gofynion hyn. Ein bwriad hefyd yw sefydlu trefniadau adrodd pwrpasol a fydd yn adlewyrchu unrhyw bwerau a dyletswyddau statudol y cytunwyd arnynt gan y Senedd mewn perthynas â'r system. Cynhelir adolygiad ar unrhyw ddeddfwriaeth ar ôl ei rhoi ar waith er mwyn caniatáu i'r Senedd ddeall sut mae'n gweithredu.

## Trefniadau goruchwylio ychwanegol

Byddwn yn archwilio'r ystod lawn o opsiynau goruchwylio a allai fod yn berthnasol i'r system unwaith y bydd y dyluniad terfynol yn ei le, er y bydd y gwaith hwn yn dechrau gyda mewnbwn y cyhoedd trwy gydol y broses ymgynghori. Bydd goruchwyliaeth briodol yn diwallu anghenion y system ID digidol, a bydd:

- yn dwyn y llywodraeth i gyfrif am reoli risg a rheolaethau angenrheidiol
- yn gymesur â'r beichiau neu'r cyfyngiadau a osodir ar y cyhoedd a'r busnes
- yn effeithlon ac yn ddarbodus
- yn agored ac yn dryloyw, gan wneud gwybodaeth yn hygyrch

Mater o bwys penodol fydd sut y gall pobl geisio datrysiad os ydynt yn cael problemau. Er enghraifft, gwall wrth roi, adnewyddu neu ddirymu eu ID digidol, neu fethiant technoleg a allai arwain at effaith negyddol ar y defnyddiwr. Mae'n hanfodol bod llwybrau clir i unigolion i wneud cwyn, a bod proses rheoli'r cwynion hyn yn gyflym ac yn effeithiol. Bydd y llywodraeth yn ystyried ffurfiau priodol o iawndal (y broses lle mae mater yn cael ei gywiro), a ph'un ai a sut y gall unigolion geisio iawndal, drwy hawliad, lle gallant fod yn gymwys i wneud hynny.

Ar gyfer rhai o swyddogaethau presennol y llywodraeth, caiff defnyddwyr y gallu i uwchgyfeirio materion i barti annibynnol i'w datrys, os nad ydynt yn fodlon ag ymdrechion cynharach i ddatrys eu problem. Gallwn ystyried gweithdrefn debyg ar gyfer y system ID digidol. Er enghraifft, mae gan Swyddfa Basbort EF weithdrefn ar gyfer cwynion am drin ceisiadau pasbort sy'n cynnwys pedwar cam, a dau o'r rhain yn gwbl annibynnol ar Swyddfa Basbort EF. Mae Blwch 5.4.1 yn crynhoi gweithdrefn gwyno Swyddfa Basbort EF.

**Blwch 5.4.1: Crynodeb o weithdrefn gwyno Swyddfa Basbort EF**

Mae Swyddfa Basbort EF yn nodi'r broses 4 cam ganlynol ar gyfer rheoli cwynion:

Cam 1: Os oes gennych gŵyn am sut gwnaethom ymdrin â'ch cais am basbort, cysylltwch â'n canolfan gyswllt cwsmeriaid dros y ffôn, yn ysgrifenedig, neu drwy ddefnyddio ein ffurflen ymholi ar-lein.

Cam 2: Os ydych wedi dilyn cam 1 ac nad ydych yn fodlon â'n hymateb, gallwch ofyn i ni adolygu eich cwyn.

Cam 3: Os ydych wedi dilyn camau 1 a 2 ac yn anfodlon o hyd, gallwch gyfeirio eich cwyn at yr Archwilydd Cwynion Annibynnol (IEC) o fewn 3 mis ar ôl derbyn ein hymateb.

Cam 4: Os ydych yn anfodlon o hyd, gallwch ofyn i'ch AS ofyn am ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd (yr Ombwdsmon). Dim ond drwy eich AS y gallwch wneud hyn. Rôl yr Ombwdsmon yw ymchwilio i gwynion gan aelodau'r

cyhoedd am y ffordd y mae adrannau'r llywodraeth, a'u hasiantaethau gweithredol, wedi eu trin.

Bydd y llywodraeth hefyd yn ystyried cefnogaeth i ddioddefwyr defnydd twyllodrus o'u ID digidol. Mae dioddefwyr dwyn hunaniaeth yn aml yn wynebu niwed sylweddol, gan gynnwys niwed i'w henw da, eithrio o wasanaethau a gofid emosiynol. Mae ymchwil y Swyddfa Gartref yn canfod y gall dioddefwyr twyll ddioddef effeithiau emosiynol ac iechyd sylweddol, hyd yn oed os nad ydynt wedi profi colled ariannol fawr.

Mae dulliau cymorth presennol yn y DU yn canolbwyntio'n bennaf ar dwyll hunaniaeth, gyda chyngor ymarferol ar gael gan sefydliadau megis Action Fraud, Cifas, ac asiantaethau gwirio credyd. Ychydig o rwymedïau cyfreithiol a strwythurau cymorth dioddefwyr ffurfiol sydd o hyd yn achos dwyn manylion adnabod, yn enwedig pan nad yw'r dogfennau sydd wedi'u dwyn wedi'u defnyddio eto i gyflawni trosedd arall. Mae'r llywodraeth yn bwriadu ystyried sut y cynorthwyir dioddefwyr camddefnydd ID digidol, gan gynnwys mynediad at ddirymu ardystiad, ac amddiffyniad rhag rhagor o ddioddef. Dylid gwneud darpariaethau hefyd i ganiatáu i unigolion yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio neu wallau allu adfer eu ID digidol yn gyflym ac yn ddiogel heb greu bregusrwydd newydd, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau a buddion y mae ganddynt hawl iddynt. Mae cryfhau'r dulliau hyn yn meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn helpu i sicrhau bod y system yn wydn yn erbyn camddefnydd.

Cwestiynau am Bennod 5.4 Sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu cryf

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer arbenigwyr sy'n ymateb yn rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

5.4.C1. Pa ddulliau goruchwylio ychwanegol, os o gwbl, y dylid eu sefydlu ar gyfer y system ID digidol genedlaethol?

5.4.C2. Pa fesurau allwch chi eu hawgrymu, os o gwbl, y gellid eu sefydlu i sicrhau bod pobl yn gallu datrys problemau gyda'u ID digidol cenedlaethol?

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

5.4.C3. Pa ddulliau goruchwylio ychwanegol, os o gwbl, fyddai'n eich helpu i gael ymddiriedaeth yn y system ID digidol genedlaethol?

5.4.C4. Pa fesurau ydych chi'n meddwl y dylid eu sefydlu i'ch helpu i deimlo'n hyderus wrth ddatrys unrhyw broblemau gyda'ch ID digidol cenedlaethol?

# Rhan 6: Crynodeb Ehangach o'r Effeithiau

Yn unol â holl wariant y llywodraeth, mae'n hanfodol bod y system ID digidol cenedlaethol yn werth da am arian trethdalwyr. Bydd union gostau a buddion y system yn dibynnu ar ddewisiadau dylunio penodol, felly nid yw'n bosib meintioli neu asesu effeithiau llawn y system eto. Bydd y dystiolaeth a gasglwyd drwy'r ymgynghoriad hwn a gwaith cyfochrog 'Panel y Bobl ar ID Digidol' ac ymarferion ymgysylltu technegol yn llywio asesiad effaith cynhwysfawr, a gyhoeddir ochr yn ochr â chyflwyno'r ddeddfwriaeth.

Mae'r llywodraeth yn cydnabod y diddordeb cyhoeddus cryf mewn deall costau posib y system newydd – yn enwedig y gost i'r pwrs cyhoeddus o ddylunio ac adeiladu'r seilwaith perthnasol. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod y diddordeb mewn deall y buddion uniongyrchol ac anuniongyrchol ehangach y gallai'r system eu datgloi ar draws yr economi a'n gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r rhan hon o'r ymgynghoriad yn nodi rhai ystyriaethau cychwynnol yn y meysydd hyn, ac yn gwahodd safbwyntiau neu dystiolaeth i lywio datblygiad dadansoddol a pholisi pellach. Mae'n edrych ar yr effeithiau posib ar aelwydydd, y sector cyhoeddus a'r economi.

## Effaith ar aelwydydd

Bydd y system ID digidol yn galluogi aelwydydd i gael gwell mynediad at ystod o wasanaethau cyhoeddus a phreifat, gan arbed amser ac ymdrech i bobl, yn ogystal â diogelu eu gwybodaeth a'u preifatrwydd yn well. Amcangyfrifir bod twyll hunaniaeth yn costio £1.8 biliwn y flwyddyn i aelwydydd, a bydd y system adnabod ddigidol yn helpu i fynd i'r afael â hyn drwy ei gwneud hi'n anoddach i droseddwyr gamddefnyddio hunaniaethau nad ydynt yn perthyn iddynt.

Rydym yn disgwyl i'r manteision i aelwydydd o gyflwyno system ID digidol gynnwys y canlynol, ond caiff hyn ei ddatblygu ymhellach cyn yr asesiad effaith llawn:

- **Lleihau twyll personol:** Gall yr ID digidol gynnig manteision o ran diogelwch a phreifatrwydd, er enghraifft drwy swyddogaeth datgelu dethol. Er enghraifft, byddai angen i rywun sy'n prynu alcohol wirio eu hoedran, a gellid cuddio unrhyw wybodaeth bersonol arall, gan leihau cyfleoedd ar gyfer twyll. Mae ymchwil gan Crowe yn dangos i dwyll hunaniaeth gostio £1.8 biliwn i unigolion yn 2020, ac mae Fraudscape yn adrodd bod hyn yn cyfrif am 59% o'r holl achosion o dwyll yr adroddwyd arnynt wrth y Gronfa Ddata Twyll Genedlaethol. Byddai gostyngiad bach yn swm y twyll yn arbed miliynau i aelwydydd, er nad yw'r effaith y byddai'r system ID digidol yn ei chael ar dwyll hunaniaeth ar hyn o bryd yn fesuradwy.
- **Gwella mynediad at wasanaethau cyhoeddus.** Bydd y system ID digidol yn lleihau'r rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, felly gallai roi

hwb i incwm aelwydydd drwy sicrhau bod aelwydydd yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt (megis Gofal Plant Di-dreth). Mae dadansoddiad gan Uned Cyfansoddiad UCL yn dangos nad oedd gan 15% o aelwydydd sydd ag incwm o dan £5,000 y flwyddyn unrhyw fanylion adnabod â llun yn 2024, o'i gymharu ag 1.6% o'r rhai sydd ag incwm cartref uwch na £60,000. Bydd darparu ID digidol am ddim yn helpu i sicrhau nad yw fforddiadwyedd ID yn rhwystr i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus i bob cartref.

- **Arbed amser:** Rydym yn disgwyl system i'r ID digidol leihau faint o amser y mae aelwydydd yn ei dreulio yn profi agweddau ar eu hunaniaeth i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Mae tystiolaeth o Ganada yn awgrymu bod dinesydd o Ganada yn treulio oddeutu 8 awr y flwyddyn ar gyfartaledd naill ai yn creu ID newydd neu'n defnyddio ID presennol i brofi agweddau ar eu hunaniaeth; mae hyn yn gost cyfle â gwerth ariannol oddeutu CAD 6.1 biliwn (neu £3.3 biliwn) i oedolion o oedran gweithio yng Nghanada.
- **Arbedion ar ID traddodiadol:** Gallai cario ID digidol, yn hytrach na thystiolaeth ffisegol, olygu arbedion i aelwydydd drwy ddisodli dogfennau coll. Canfu ymchwil gan y Co-Op fod nifer y trwyddedau gyrru dyblyg a gyhoeddwyd yn 2024 gan y DVLA dros filiwn. Cost trwydded yrru newydd yw £20, felly mae arbediad posib o hyd at £20 miliwn bob blwyddyn os yw'r ID digidol newydd yn arwain at ostyngiad yn y nifer o geisiadau am drwyddedau gyrru newydd. Bydd rhywfaint o'r budd hwn, fodd bynnag, eisoes yn cael ei sicrhau drwy gyflwyno trwyddedau gyrru digidol, ac efallai y bydd angen dogfennau ffisegol newydd o hyd ar aelwydydd mewn rhai achosion defnydd

Rydym yn disgwyl na fydd unrhyw gostau uniongyrchol i aelwydydd o gyflwyno'r system ID digidol, am na fydd unrhyw ffioedd yn cael eu codi ar aelwydydd i greu, cyrchu neu ddefnyddio eu ID digidol. Fodd bynnag, mae potensial i aelwydydd wynebu'r costau anuniongyrchol canlynol:

- **Cost ymgyfarwyddo:** Bydd angen i aelwydydd neilltuo ychydig o amser, i ddechrau, er mwyn sefydlu'r ID digidol ac ymgyfarwyddo â'i ymarferoldeb. Yn achos 8% o oedolion y DU (tua 4 miliwn o bobl) nad oes ganddynt y sgiliau digidol hanfodol y mae eu hangen ar gyfer bywyd bob dydd, gall hyn olygu rhagor o gost amser.
- **Dod o hyd i ddyfais addas:** Er mwyn defnyddio'r ID digidol drwy'r llwybr safonol, byddai angen i aelwydydd gael dyfais gydnaws, megis ffôn clyfar neu lechen. Yn achos 6% o unigolion heb ddyfais gydnaws, byddai prynu un yn creu cost. Yn rhan o'r system, fodd bynnag, byddwn yn lansio rhaglen gynhwysiant i sicrhau nad yw'r rhai nad oes ganddynt ddyfais gydnaws yn cael eu hallgáu, ac nad oes

unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i bobl gael neu gyflwyno'r ID digidol, felly gellir osgoi'r gost hon

## Effaith ar y sector cyhoeddus

Mae cyflwyno'r system ID digidol yn anelu at symleiddio darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus digidol, yn ogystal ag arbed arian trethdalwyr a gostwng costau i'r llywodraeth drwy leihau dibyniaeth ar ddogfennau adnabod papur y mae'n haws eu ffugio. Mae DWP yn amcangyfrif bod £10bn o dwyll a gwallau budd-daliadau bob blwyddyn, ac efallai y gall datrysiad ID digidol da gyda systemau data o ansawdd uchel wedi'u hymgorffori ynddo leihau'n sylweddol y broblem honno.

Rydym yn disgwyl i'r manteision i'r sector cyhoeddus o gyflwyno system ID digidol gynnwys y canlynol, ond caiff hyn ei ddatblygu ymhellach cyn yr asesiad effaith llawn:

- **Moderneiddio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus:** Os byddwn yn datblygu dynodwr unigryw cyffredinol (neu ddull tebyg) sy'n gysylltiedig â'r ID digidol a GOV.UK One Login, byddai hyn yn creu arbedion effeithlonrwydd drwy ganiatáu i adrannau'r llywodraeth baru unigolion ar draws gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae'n anodd i adrannau'r llywodraeth wybod pryd mae'r un person yn cyrchu gwahanol wasanaethau, am eu bod yn defnyddio sawl dynodwr, megis pasbort a rhifau Yswiriant Gwladol. Bydd yr ID digidol hefyd yn sicrhau na fyddai angen i sawl corff llywodraeth gynnal yr un gwiriadau hunaniaeth; mae GOV.UK One Login eisoes wedi lleihau dyblygu wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus ar-lein, a gallai'r ID digidol cenedlaethol alluogi lleihau dyblygu ymhellach ar gyfer mynediad personol at wasanaethau cyhoeddus. Gallai hyn leihau biwrocratiaeth a chefnogi adrannau i gyflawni'r £14bn o enillion effeithlonrwydd erbyn 2028-29 fel y nodir yn Fframwaith Effeithlonrwydd y Llywodraeth.
- **Ei gwneud hi'n anoddach i dwyllwyr hawlio budd-daliadau'r llywodraeth drwy dwyll**: Mae angen rhagor o waith i nodi effaith cyflwyno'r system ID digidol ar dwyll budd-daliadau, ond mae achosion o ddefnydd maleisus o ID i gael mynediad at fudd-daliadau yn digwydd. Yn 2024, cafwyd pum aelod o gang troseddu cyfundrefnol yn euog o hawlio £54m drwy dwyll gan ddefnyddio miloedd o hawliadau Credyd Cynhwysol twyllodrus wedi'u cefnogi gan hunaniaethau wedi'u dwyn a dogfennau ffug. Bydd yr ID digidol yn caniatáu i'r llywodraeth wirio cymhwysedd unigolyn ar gyfer budd-daliadau yn haws, a gall helpu i fynd i'r afael ag achosion troseddau cyfundrefnol megis y rhain. Gan fod y defnydd o'r ID digidol yn wirfoddol, fodd bynnag, mae lle i weithredwyr maleisus fanteisio ar wendidau yn y system gyda dulliau adnabod traddodiadol.

Ar y cam datblygu hwn, nid yw'n bosib amcangyfrif yn bendant y gost i'r llywodraeth o ddatblygu a rhedeg y system ID digidol. Mae rhai agweddau sylweddol ar ddyluniad y

polisi yn amodol ar yr ymgynghoriad hwn, a bydd penderfyniadau terfynol ar y materion hynny yn effeithio'n sylweddol ar y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu'r system ID digidol.

Rydym yn disgwyl i gostau i'r llywodraeth o'r system adnabod ddigidol gwmpasu'r meysydd eang canlynol.

- **Costau datblygu i ddylunio, adeiladu a chyhoeddi'r ID digidol**: Mae hyn yn cynnwys gwaith ehangu craidd angenrheidiol Swyddfa Basbort EF, GOV.UK One Login, a GOV.UK Wallet.
- **Costau gweithredol i gefnogi'r gwaith tyfu**: Mae hyn yn cynnwys ehangu swyddogaethau cymorth megis atal twyll, gweithrediadau diogelwch a chymorth i ddefnyddwyr.
- **Cymorth i ddefnyddwyr ID a defnyddwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol**: Costau gweithredol newydd i gefnogi cynnwys unigolion nad oes ganddynt ddogfennau adnabod traddodiadol ar hyn o bryd, megis pasbort, neu sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Bydd hyn yn gofyn am newidiadau yn systemau'r llywodraeth a chynnydd posib mewn capasiti gweithwyr achos pwrpasol, megis sianeli cymorth digidol wyneb yn wyneb estynedig a chymorth.
- **Gwirio ardystiadau**: Bydd y llywodraeth yn datblygu gwasanaeth gwirio ardystiadau i'w ddefnyddio o fewn y llywodraeth, ac o bosib yr economi ehangach (yn ôl Pennod 2.2).
- **Mabwysiadu**: Er mwyn annog mabwysiadu ehangach ar draws y llywodraeth, bydd cefnogaeth ar gael i adrannau ac awdurdodau lleol i integreiddio'r system ID digidol newydd yn eu gwasanaethau. Caiff ymgyrch gyfathrebu genedlaethol ei lansio i godi ymwybyddiaeth o'r system ac annog pobl i'w fabwysiadu. Bydd hyn yn helpu pobl a busnesau i ddeall manteision defnyddio ID digidol a sut i gael mynediad at eu hardystiad.

## Effaith ar yr Economi

Amcangyfrifodd asesiad o effaith Ddeddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 y bydd y defnydd cynyddol o hunaniaethau digidol yn y sector preifat yn darparu £4.3 biliwn o fuddion economaidd net i'r DU dros y 10 mlynedd nesaf (mae'r ffigwr hwn yn cynnwys buddion i unigolion yn ogystal â sefydliadau). Pe bai'r ID digidol yn cynyddu'r niferoedd sy'n mabwysiadu'r gwasanaethau hyn, byddai'r manteision economaidd gwirioneddol yn uwch. Ar wahân i'r effeithiau a nodir uchod, rydym yn disgwyl y bydd y system ID digidol yn effeithio'n bennaf ar bedwar segment allweddol o'r economi yn y DU:

- Y sector Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) presennol
- Partïon sy'n dibynnu
- Cyflogwyr
- Gweithwyr Anghyfreithlon

*Effeithiau ar y sector DVS presennol*

Nod y system ID digidol yw cyflymu defnydd cymdeithasol o hunaniaethau digidol y tu hwnt i'r disgwyliadau blaenorol. Gallai hyn fod o fudd i'r sector DVS preifat drwy wneud unigolion a busnesau yn fwy cyfarwydd â dilysu digidol ac yn ymwybodol o'i fanteision. Yn yr achos hwn, gall gwerth absoliwt cyfran y darparwr preifat o'r farchnad gynyddu, hyd yn oed os bydd gwasanaeth y llywodraeth yn mynd â rhywfaint o'r farchnad.

Yn ogystal, fel yr amlinellir ym Mhennod 2.1, bwriedir y bydd y farchnad bresennol o ddarparwyr DVS dibynadwy yn chwarae rhan bwysig wrth rannu gwybodaeth o'r ID digidol â'r economi ehangach. Gallai hyn fod drwy gyflawni rôl gwasanaethau cyd-drefnu, gwasanaethau deiliaid, neu yn wasanaethau adnabod sy'n deillio o wybodaeth o'r ID digidol newydd ac yn cynnig gwasanaethau 'gwerth ychwanegol'. Gallai hyn arwain at dwf pellach a chyfleoedd cyflogaeth yn y sector DVS preifat, a gynhyrchodd amcangyfrif o £2.1 biliwn o refeniw blynyddol yn 2023/24, gyda £888 miliwn o weithwyr Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) a 10,246 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE).

I'r gwrthwyneb, efallai y bydd rhai effeithiau negyddol ar ddarparwyr sector preifat, yn dibynnu ar sut mae'r system ID digidol cenedlaethol yn gweithredu. Mae risg o ddadleoli'r farchnad os yw'r ID digidol cenedlaethol yn gweithredu yn eilydd agos i wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan ddarparwyr DVS preifat, gan arwain at effeithiau negyddol ar y farchnad. Bydd graddfa'r dadleoli hwn yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys:

- **Ymarferoldeb yr ID digidol:** mae'r farchnad hunaniaeth ddigidol yn cynnwys cwmnïau sy'n cynnig amrywiaeth o wahanol wasanaethau (heterogenaidd). Bydd ehangder unrhyw effaith yn amrywio yn dibynnu ar yr ymarferoldeb sydd wedi'i gynnwys yn yr ID digidol cenedlaethol, a'r graddau y gall ddarparu'r un gwasanaethau a gynigir ar hyn o bryd yn y sector preifat.
- **Argaeledd gwasanaeth Gwiriwr y Llywodraeth:** gall gwasanaeth Gwiriwr y Llywodraeth fod ar gael y tu hwnt i'r sector cyhoeddus mewn capasiti cyfyngedig neu lawn, neu ddim o gwbl (a amlinellir ym Mhennod 2.2). Mae mwy o argaeledd y Gwiriwr yn cynyddu'r risg o ddadleoli i ddarparwyr preifat;
- **Model prisio gwasanaeth Gwiriwr y Llywodraeth:** bydd cost gymharol defnyddio gwasanaeth sector preifat o'i gymharu â gwasanaeth Gwiriwr y Llywodraeth yn dylanwadu ar y graddau y mae darpariaeth y llywodraeth yn disodli opsiynau preifat. Mae dadleoli yn fwy tebygol os bydd Gwiriwr y Llywodraeth am ddim i'w ddefnyddio.

Mae'n bwysig nodi y gall cwmnïau unigol weld newidiadau yn y farchnad DVS yn wahanol, yn dibynnu ar eu nodweddion (e.e. maint y cwmni).

I gloi, gall ansicrwydd buddsoddi gael effaith negyddol ar sector hunaniaeth ddigidol y DU. Er bod y sector hyd yma wedi dangos atyniad buddsoddi cryf, mae aelodau'r ecosystem hunaniaeth ddigidol yn credu bod ansicrwydd ynghylch polisi'r llywodraeth

yn dylanwadu'n negyddol ar dwf y sector. Tan y bydd y broses ddylunio wedi'i chwblhau a'i chyfleu'n effeithiol, gall buddsoddwyr a sefydliadau oedi buddsoddiadau a gynlluniwyd yn y sector nes y gallant fod yn hyderus na fydd y system ID digidol yn lleihau gwerth y buddsoddiad. Efallai y bydd eraill yn canslo eu cynlluniau buddsoddi neu'n buddsoddi mewn sectorau eraill yn lle hynny.

*Effeithiau ar bartïon sy'n dibynnu*

Rydym yn disgwyl i bartïon sy'n dibynnu ar draws yr economi elwa o ragor o gyfleoedd ar gyfer gwirio digidol. Gall datrysiadau digidol gynnig prosesau cyflymach a mwy diogel, boed yn gynnal gwiriadau dilysu oedran syml, ymgysylltu â staff newydd, neu fodloni gofynion rheoleiddiol gyda gwiriadau Adnabod Eich Cwsmer. Gall fod yn gymhleth gwahanu'r manteision y bydd y system ID digidol newydd yn eu creu i bartïon sy'n dibynnu oddi wrth y rhai a ddaw o ddilysu digidol yn ehangach. Er enghraifft, mae'r asesiad effaith ar gyfer Deddf Data (Defnydd a Mynediad) 2025 eisoes yn amcangyfrif y bydd y defnydd o hunaniaethau digidol yn economi'r DU yn cynyddu yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y system ID cenedlaethol, fodd bynnag, yn anelu at fynd ymhellach, drwy leihau costau ac ehangu yswiriant, yn enwedig ymhlith pobl sydd wedi'u hallgáu ar hyn o bryd.

Ar y llaw arall, gall sefydliadau ysgwyddo costau untro a pharhaus newydd sy'n gysylltiedig â'r system. Mae enghreifftiau o gostau untro yn cynnwys costau ymgyfarwyddo a throsglwyddo i ddeall a bodloni gofynion cyfreithiol ac anghenion busnes newydd. Er enghraifft, gall cyflogwyr gynnal adolygiad cyfreithiol i werthuso'r ddeddfwriaeth sy'n galluogi'r system a'i goblygiadau i'w sefydliad. Enghreifftiau o gostau parhaus newydd posib yw costau gweithredu ychwanegol, prosesau archwilio ychwanegol, neu ffioedd trwyddedu. Er enghraifft, gall cwmni gaffael gwasanaethau technoleg newydd er mwyn cymryd gwybodaeth yn ddiogel o ID digidol. Gallai rhai o'r costau ychwanegol hyn, fodd bynnag, gael eu gwrthbwyso gan ostyngiadau mewn costau sy'n gysylltiedig â gwiriadau personol a baich cadw cofnodion.

*Effeithiau ar gyflogwyr*

Rydym yn disgwyl y bydd cyflogwyr yn elwa o gyflwyno'r ID digidol drwy gydymffurfio'n haws â'r cynllun Hawl i Weithio presennol. Ers 2008, mae'n ofynnol i gyflogwyr gynnal gwiriadau hawl i weithio rhagnodedig cyn cyflogi rhywun er mwyn defnyddio esgus statudol yn erbyn atebolrwydd am gosb sifil, mewn achosion lle darganfyddir bod pobl yn gweithio'n anghyfreithlon yn ddiweddarach (y Cynllun Hawl i Weithio).

Canfu arolwg cynrychioliadol o fusnesau yn y DU a oedd yn archwilio dealltwriaeth a gweithrediad gwiriadau Hawl i Weithio gan gyflogwyr fod 89% o gyflogwyr yn deall gofynion sylfaenol. Fodd bynnag, mae bylchau gwybodaeth yn parhau a gallant arwain at wallau: cwmnïau bach, y rhai sy'n cyflogi staff asiantaeth neu dim oriau, a chwmnïau adeiladu sydd fwyaf mewn perygl. Mae camgymeriadau cyffredin yn cynnwys derbyn

dogfennau annilys, cadw cofnodion gwael, a cholli gwiriadau dilynol ar gyfer deiliaid fisa dros dro.

O ran recriwtio, mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn cynnal gwiriadau cyn y llofnodir contract neu cyn i rywun ddechrau gwaith, fodd bynnag, gwnaeth rhai (39%) hynny cyn cyfweliad. Dywedodd y rhan fwyaf o gyflogwyr fod gweithwyr yn ei chael hi'n hawdd darparu'r dogfennau cywir, ond dywedodd 11% fod gweithwyr yn ei chael hi'n anodd.

Cynhaliodd y rhan fwyaf o fusnesau wiriadau yn bersonol (79%), ond roedd gan rai brofiad o wiriadau darparwyr digidol (23%) a/neu wiriadau mewnfudo digidol (37%). Gofynnwyd am ragor o fanylion gan y rhai a gynhaliodd wiriadau eu hunain, gyda'r mwyafrif yn cadarnhau eu bod wedi gwirio dogfennau gwreiddiol (92%), gwneud copïau o'r dogfennau (87%), neu gynnal gwiriadau dilynol os yw hawl y gweithiwr i weithio yn gyfyngedig o ran amser (85%).

Mae ffactorau megis amlder recriwtio, prosesau mewnol (e.e. a yw gwiriadau'n digwydd cyn neu ar ôl cyfweliadau), ac amgylchiadau unigol y darpar weithwyr yn dylanwadu ar hyd a rhwyddineb recriwtio. Bydd y newidynnau hyn hefyd yn dylanwadu ar unrhyw system ddigidol a'i budd o ran arbedion posib. Mae dadansoddiad costau yn yr *Asesiad Effaith Ymestyn Gwaharddiad ar Gyflogaeth i Drefniadau Gwaith Eraill* yn tybio bod gwiriadau sy'n defnyddio Technoleg Dilysu Dogfennau Adnabod (dinasyddion y DU) yn cymryd 1 munud, tra bydd gwiriadau mewnfudo ar-lein yn agosach at amser personol (5.5 munud a mwy).

*Effaith ar weithwyr anghyfreithlon*

Trwy ei gwneud hi'n haws i gyflogwyr gydymffurfio â gwiriadau hawl i weithio, gall y system ID digidol genedlaethol gynyddu'r nifer o wiriadau hawl i weithio a gynhelir yn y DU, a thrwy hynny anela at leihau gweithio'n anghyfreithlon. Nododd ymchwil CThEF fod 'ysbrydion', a adroddodd nad ydynt wedi datgan unrhyw un o'u ffynonellau incwm (boed yn drethadwy neu nad ydynt yn drethadwy) i CThEF, wedi cyfrannu £0.6 biliwn at y bwlch treth yn 2023/24 (ond nid ydym yn gwybod pa gyfran o'r rhain sydd â hawl gyfreithiol i weithio yn y DU).

Canfu ymchwil y Swyddfa Gartref fod llawer o fusnesau yn cydnabod bod pobl sy'n gweithio'n anghyfreithlon yn gyffredin yn eu sectorau (21%), gan godi i tua hanner y busnesau ym meysydd adeiladu, bwyd a llety, gyda chyflogwyr yn tynnu sylw at wahanol ysgogwyr ar gyfer hyn. Canfu ymchwil y gallai cyflogwyr fod mewn perygl o dderbyn y dogfennau anghywir, gan fod 62% o gyflogwyr wedi dweud, yn anghywir, y gellid derbyn trwyddedau gyrru i brofi hawl rhywun i weithio yn y DU. Yn ogystal, mae tystiolaeth y gall diffyg gwiriadau, megis yn achos gweithwyr hunangyflogedig, greu risg o bobl yn gweithio'n anghyfreithlon.

Bydd dull symlach o wirio yn debygol o wella cydymffurfiaeth, yn enwedig lle nad yw busnesau wedi cydymffurfio'n gywir â gwiriadau neu lle mae cyflogwyr yn cael eu twyllo drwy ddogfennaeth ffug, a thrwy hynny leihau twyll.

Mae gan y Swyddfa Gartref raglen barhaus sy'n monitro mynediad at waith, budd-daliadau a gwasanaethau; mae hon yn cynnwys gweithredu'r Hawl i Weithio

Cwestiynau am Ran 6: Crynodeb Ehangach o'r Effeithiau

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

6.1.C1. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fanteision eraill i fusnesau o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 6.1.C1.1. Os Ydw, beth ydych chi'n meddwl fyddai'r manteision hyn?

6.1.C2. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw gostau eraill i fusnesau o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 6.1.C2.1 Os Ydw, faint ydych chi'n meddwl fyddai'r costau hyn?

6.1.C3. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fanteision eraill i aelwydydd o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 6.1.C3.1. Os Ydw, beth ydych chi'n meddwl fyddai'r manteision hyn?

6.1.C4. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw gostau eraill i aelwydydd o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod

i. 6.1.C4.1. Os Ydw, faint ydych chi'n meddwl fyddai'r costau hyn?

6.1.C5. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw effeithiau ehangach eraill o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried yn yr ymgynghoriad hwn?

a. Ydw

b. Nac ydw

c. Ddim yn gwybod

i. 6.1.C5.1 Os Ydw, beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau ehangach hyn?

# Cwestiynau ymgynghori llawn a chrynodebau penodau (ar gyfer yr arolwg ar-lein)

## Dywedwch wrthym amdanoch eich hun

ROU.C1. Sut ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn?

Rwy'n ymateb fel...

a. **Aelod o'r cyhoedd** (Unigolyn Preifat)
b. **Arbenigwr yn siarad yn fy rhinwedd fy hun** (er enghraifft, academydd unigol, ymchwilydd)
**c. Ar ran sefydliad**

## [Os ydych yn ymateb fel unigolyn] Cwestiynau Demograffig

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

Hoffem ddeall ychydig mwy amdanoch chi. Rydym yn casglu rhywfaint o wybodaeth ddemograffig i ddeall sut mae safbwyntiau yn wahanol ar draws grwpiau a allai brofi'r system ID digidol mewn gwahanol ffyrdd. Mae hyn yn ein helpu i gyflawni ein cyfrifoldebau cydraddoldeb a chynhwysiant, a sicrhau bod y system yn gweithio'n deg i bawb. Mae'r holl gwestiynau yn ddewisol, a bydd yr atebion yn ddienw.

DEM.C1. Beth yw eich oedran?

a. [Testun Rhydd]
b. Gwell gennyf beidio â dweud

DEM.C2. Beth yw eich rhyw? Bydd cwestiwn ar rywedd yn dilyn y cwestiwn hwn.

a. Gwryw
b. Benyw
c. Gwell gennyf beidio â dweud

DEM.C3. Ydych chi'n ystyried eich hun yn drawsryweddol?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Gwell gennyf beidio â dweud
d. Arall (hunan-ddisgrifio)

    a. DEM. C3.1. Os gwnaethoch ddewis 'Arall (hunan-ddisgrifio)', disgrifiwch eich rhywedd yn eich geiriau eich hun (dewisol).

DEM.C4. Pa opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp ethnig neu gefndir orau?

a. Gwyn
    i. Seisnig/Cymreig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig
    ii. Gwyddelig
    iii. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
    iv. Cefndir Gwyn arall
b. Grwpiau ethnig Cymysg/Lluosog
    i. Gwyn a Du Caribïaidd
    ii. Gwyn a Du Affricanaidd
    iii. Gwyn ac Asiaidd
    iv. Cefndir cymysg/ethnig lluosog arall
c. Asiaidd/Asiaidd Prydeinig
    i. Indiaidd
    ii. Pacistanaidd
    iii. Bangladeshaidd
    iv. Cefndir Asiaidd arall
d. Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig
    i. Affricanaidd
    ii. Caribïaidd
    iii. Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall
e. Gwahanol gefndir ethnig
f. Gwell gennyf beidio â dweud

DEM.C5. Ym mha un o ranbarthau'r DU ydych chi'n byw?

a. Lloegr
b. Gogledd Iwerddon
c. Yr Alban
d. Cymru
e. Dydw i ddim yn byw yn y DU
f. Gwell gennyf beidio â dweud

DEM.C6. Oes gan eich aelwyd fynediad i'r rhyngrwyd gartref?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
d. Gwell gennyf beidio â dweud

DEM.C7. Ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
d. Gwell gennyf beidio â dweud

DEM.C8. Oes gennych chi unrhyw un o'r dyfeisiau canlynol at ddefnydd personol?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

a. Ffôn clyfar
b. Gliniadur
c. Llechen (e.e. iPad)
d. Cyfrifiadur Personol
e. Dim un o'r rhain

DEM.C9. Ydych chi'n gweithio ar hyn o bryd?

a. Ydw, amser llawn
b. Ydw, rhan-amser
c. Ydw, rwy'n hunangyflogedig
d. Nac ydw
e. Gwell gennyf beidio â dweud

DEM.C10. Oes gennych chi unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sy'n para neu y disgwylir iddynt bara 12 mis neu fwy?

a. Oes
b. Nac oes
c. Gwell gennyf beidio â dweud
d. Ddim yn gwybod
    a. DEM.C10.1. Ydy'ch cyflwr neu'ch salwch yn lleihau'ch gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd?
        i. Ydy, effaith sylweddol, barhaus (e.e. mae eich cyflwr yn cyfyngu'n sylweddol ar eich gallu i gyflawni'r rhan fwyaf o weithgareddau dydd i ddydd, yn aml yn gofyn am gymorth neu addasiadau pwysig).
        ii. Ydy, effaith amlwg ond y gellir ei rheoli (e.e. gallwch reoli gweithgareddau dydd i ddydd yn gyffredinol, ond efallai y bydd angen addasiadau achlysurol, ymdrech ychwanegol)
        iii. Nac ydy
        iv. Gwell gennyf beidio â dweud
        v. Ddim yn gwybod

DEM.11. A yw unrhyw un o'r cyflyrau neu'r clefydau hyn yn effeithio arnoch yn y meysydd canlynol?

a. Golwg (er enghraifft, dallineb neu olwg rhannol)
b. Clyw (er enghraifft, byddardod neu glyw rhannol)
c. Symudedd (er enghraifft, cerdded pellterau byr neu ddringo grisiau)
d. Deheurwydd (er enghraifft, codi a chludo gwrthrychau, defnyddio bysellfwrdd)
e. Dysgu neu ddeall neu ganolbwyntio
f. Cof
g. Iechyd meddwl
h. Stamina neu anadlu neu flinder
i. Cymdeithasol neu ymddygiadol (er enghraifft anhwylder cysylltiedig â sbectrwm awtistiaeth (ASD) sy'n cynnwys Asperger, neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD))
j. Arall (nodwch)
k. Dim un o'r uchod
l. Gwell gennyf beidio â dweud

# Gwybodaeth amdanoch chi

*Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer arbenigwyr sy'n ymateb yn rhinwedd eu hunain*

Efallai yr hoffem gysylltu â chi am eich ymateb. Ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi? Os byddwch yn dewis 'Nac ydw', ni fyddwn yn cysylltu â chi.

a. Ydw
b. Nac ydw

Os Ydw, rhowch y canlynol:

c. Eich enw
d. E-bost

# Rhagor o wybodaeth am eich sefydliad

*Mae'r cwestiynau hyn i sefydliadau*

ORG.C1. Pa sector sy'n disgrifio eich sector orau?

a. **Busnes / Sector Preifat** (Busnes Bach/Canolig neu Gorfforaeth Fawr)
b. **Y Sector Cyhoeddus** (Llywodraeth Leol, GIG, Ysgolion)
c. **Y Trydydd Sector** (Elusen, NGO, Grŵp Cymunedol, Menter Gymdeithasol)
d. **Academaidd / Ymchwil** (Prifysgol, Melin Drafod, Sefydliad Gwyddonol)
e. **Corff Proffesiynol** (Cynrychioli gweithlu)

f. **Arall**
g. **Gwell gennyf beidio â dweud**

2. A yw'ch sefydliad yn darparu gwasanaethau dilysu digidol (megis cynnyrch hunaniaeth ddigidol)?

a. Ydw
b. Nac ydy
c. Ansicr
d. Gwell gennyf beidio â dweud

ORG.C3. A oes gan eich sefydliad ddiddordeb mewn derbyn (h.y. dibynnu ar) yr ID digidol newydd yn brawf hunaniaeth neu wybodaeth benodol am berson?

a. Oes
b. Nac oes, ond mae angen i ni weld tystiolaeth arall o hunaniaeth neu gymhwysedd unigolyn
c. Nac oes, oherwydd nid oes angen i ni weld unrhyw dystiolaeth arall o hunaniaeth neu gymhwysedd unigolyn
d. Ansicr
e. Gwell gennyf beidio â dweud

ORG.C4. Ar 1 Ionawr 2026, faint o weithwyr oedd yn eich sefydliad?

a. 0 i 9
b. 10 i 49
c. 50 i 249
d. Mwy na 250
e. Ddim yn gwybod
f. Gwell gennyf beidio â dweud

ORG.C5. Efallai yr hoffem gysylltu â'ch sefydliad am eich ymateb. Ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi? Os byddwch yn dewis 'Nac ydw', ni fyddwn yn cysylltu â chi.

a. Ydw
b. Nac ydw
    a. Os ydych, rhowch enw eich sefydliad [testun rhydd]
    b. Os ydych, rhowch eich e-bost cyswllt

# Meysydd o ddiddordeb

Hoffem glywed beth mae pobl yn ei feddwl am ein cynigion ar gyfer y system ID digidol. Ymdrinnir â chraidd y cynnig yn Rhan 1 yr ymgynghoriad. Bydd pob ymatebydd yn cael cwestiynau am y Rhan hon.

Rhennir gweddill y ddogfen yn bum Rhan, wedi'u rhifo o 2 i 6. Mae pob rhan yn cynnwys nifer o Benodau. Mae'r Rhannau hyn yn ddewisol i'w hateb yn dibynnu ar eich maes/meysydd diddordeb. Nid oes angen ateb cwestiynau ar weddill Rhannau a Phenodau'r ymgynghoriad. Pa rannau o'r ymgynghoriad hoffech ateb cwestiynau amdanynt? Byddwn ond yn dangos y penodau y mae gennych ddiddordeb ynddynt.

Wrth gwrs, gallwch gofrestru diddordeb, adolygu ac ateb cwestiynau am bob Pennod o'r Ymgynghoriad os yr hoffech.

Am wybodaeth fanylach am bob Pennod, gweler yr ymgynghoriad llawn.

THE.C1. Yn ogystal â'r cynnig craidd ar gyfer y system ID digidol ("Rhan 1: Ein Huchelgais"), mae gennyf ddiddordeb mewn rhoi fy safbwyntiau ar:

a. **Adeiladu a dylunio'r ID digidol.** Gallwch ymateb i "Pennod 2.1: Creu'r ID digidol", "Pennod 3.1: Gwybodaeth a gynhwysir yn yr ID digidol"
b. **Defnyddio'r ID digidol** Gallwch ymateb i "Pennod 2.2: Storio, rheoli a defnyddio'r ID digidol", "Pennod 3.2: Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus", "Pennod 3.3: Defnyddioldeb yn yr economi ehangach" a "Pennod 3.4: Mynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon"
c. **Pwy a gaiff yr ID digidol.** Gallwch ymateb i "Pennod 4.1: Cymhwysedd ar gyfer yr ID digidol"
d. **Cynhwysiant** Gallwch ymateb i "Pennod 4.2: Datgloi ar draws cymdeithas", "Pennod 4.3 Ymrwymiad i gefnogi cynhwysiant" a "Pennod 4.5: Llwybrau mynediad amgen"
e. **Hygyrchedd** Gallwch ymateb i "Pennod 4.4: Hygyrchedd"
f. **Preifatrwydd.** Gallwch ymateb i "Pennod 5.1: Diogelu data a phreifatrwydd"
g. **Diogelwch ac atal twyll.** Gallwch ymateb i "Pennod 5.2 Diogelu'r system ID digidol cenedlaethol" a "Pennod 5.3: Twyll yn her genedlaethol"
h. **Goruchwylio a llywodraethu'r ID digidol.** Gallwch ymateb i "Pennod 5.4 Sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu cryf"
i. **Effaith yr ID digidol**. Gallwch ymateb i "Rhan 6: Crynodeb ehangach o'r effeithiau"
j. Hoffwn ymateb i bob un o Benodau'r ymgynghoriad.

# Rhan 1: Ein huchelgais

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Ran 1: Ein Huchelgais. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Rhan hon isod.

Mae'r llywodraeth yn bwriadu cyflwyno system ID digidol genedlaethol newydd sy'n ddefnyddiol, yn gynhwysol ac yn ddibynadwy. Bydd yn galluogi pobl i brofi pwy ydyn nhw yn haws ar draws gwasanaethau cyhoeddus a phreifat.

Ni fydd ffi i unigolion greu, cyrchu na defnyddio eu ID digidol. Bydd hefyd yn cael ei gefnogi gan raglen cynhwysiant digidol. Nod y llywodraeth yw lansio'r ID digidol yn 2028/29.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn mewn dau gam. Bydd y cyntaf yn 8 wythnos o ymgysylltu agored – a fydd yn digwydd rhwng 11 Mawrth a 6 Mai – lle gall unrhyw un sydd eisiau cymryd rhan rannu eu barn. Yn yr ail gam, a fydd yn dilyn yr ymgysylltu agored, byddwn yn dod â grŵp cynrychioliadol o 100-120 o bobl o bob cwr o'r DU at ei gilydd i gymryd rhan mewn 'Panel y Bobl ar ID Digidol' – proses ymgysylltu cydgynghorol fanwl.

Ar gyfer y cwestiynau cyntaf hyn, rydym am glywed eich barn gyffredinol ar y system ID digidol arfaethedig. Yn y penodau canlynol, byddwn yn gwahodd safbwyntiau ar agweddau penodol ar y polisi arfaethedig.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

1.0.C1. Beth ydych chi'n meddwl fydd prif fanteision, os o gwbl, system adnabod digidol genedlaethol newydd y llywodraeth?

1.0.C2. Beth ydych chi'n meddwl fydd prif anfanteision, os o gwbl, system adnabod digidol genedlaethol newydd y llywodraeth?

1.0.C3. Un o nodau'r llywodraeth ar gyfer y system adnabod digidol genedlaethol newydd yw ei gwneud hi'n haws i bobl brofi pwy ydyn nhw. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallai'r system arfaethedig helpu i gyflawni'r nod hwn, a pham?

a. Cytuno'n Gryf
b. Cytuno Rhywfaint

c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno Rhywfaint
e. Anghytuno'n Gryf
f. Ddim yn gwybod

    i. 1.0.C1.1 Esboniwch eich ateb

1.0. C.4 Mae'r llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r system ID digidol i alluogi gwasanaethau cyhoeddus mwy modern, effeithlon, wedi'u teilwra. Pa wasanaethau cyhoeddus byddech chi am i'r llywodraeth flaenoriaethu eu gwneud yn gyflymach neu'n fwy effeithlon gan ddefnyddio'r system?

# Pennod 2.1: Creu'r ID digidol

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 2.1: Creu'r ID Digidol. Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Bydd y system ID digidol genedlaethol yn adeiladu ar systemau presennol sydd eisoes yn gweithredu fel rhannau dibynadwy o'r llywodraeth. Bydd y seilwaith hwn yn cael ei ehangu a'i wella i fodloni gofynion cynyddol ID digidol cenedlaethol, ac i ddod â manteision yr ID digidol i bobl yn gynt.

Bydd angen i'r llywodraeth basio deddfwriaeth newydd i alluogi cyhoeddi a chynnal yr ID digidol. Bydd pobl yn gallu gwneud cais am ID digidol drwy nifer o wahanol lwybrau, a bydd yn cael ei roi iddynt ar fformat gwarchodedig yn ddigidol a elwir yn 'ardystiad y gellir ei ddilysu'. Rydym yn ceisio barn ar safonau cyhoeddi technegol.

Rydym hefyd yn ceisio barn ar sut y gallwn weithio orau gyda llywodraethau datganoledig a Dibyniaethau'r Goron i sicrhau bod y system yn gweithredu'n deg ledled y DU.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer arbenigwyr sy'n siarad yn eu rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

2.1.C1. Caiff yr ID digidol cenedlaethol ei roi fel ardystiad (neu ddogfen ddigidol) i'w storio ar ddyfais gydnaws, sy'n debyg i'r ffordd y mae pobl eisoes yn storio cardiau talu a thocynnau ar eu ffonau clyfar. A oes safonau cyhoeddi technegol, y tu hwnt i'r rhai a ddefnyddir eisoes gan GOV.UK Wallet, y dylem fod yn adeiladu'r ID digidol cenedlaethol iddynt?

- **a.** Ydw
- **b.** Nac ydw
- **c.** Ddim yn gwybod
    - i. 2.1 C4.1 Esboniwch eich ateb, a rhowch enghreifftiau o'r safonau technegol y dylid eu defnyddio.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

2.1.C2. A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch effaith yr ID digidol cenedlaethol sy'n benodol i'ch rhan o'r DU? Os felly, dewiswch pa wlad a pham.

- a. Gogledd Iwerddon
    - i. 2.1.C1.1. Esboniwch eich ateb
- b. Yr Alban
    - i. 2.1.C1.2. Esboniwch eich ateb
- c. Cymru
    - i. 2.1.C1.3. Esboniwch eich ateb
- d. Lloegr
    - i. 2.1.C1.4. Esboniwch eich ateb
- e. Dim effaith
- f. Ddim yn gwybod

# Pennod 2.2: Storio, Rheoli a Defnyddio'r ID digidol

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 2.2: Storio, Rheoli a Defnyddio'r ID Digidol. Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Unwaith y bydd rhywun wedi gwneud cais am ID digidol cenedlaethol, a'i dderbyn, efallai y bydd angen ei ddiweddaru, ei ddileu neu ei ddirymu (h.y. ei ganslo). Rydym yn ceisio barn ar y prosesau hyn, a hefyd yn ystyried opsiynau ar gyfer sut mae pobl yn

storio eu ID digidol. Er y bydd pob defnyddiwr yn gallu defnyddio GOV.UK Wallet, rydym hefyd yn archwilio storio gwybodaeth gan wasanaethau deiliad trydydd parti (neu 'waled ddigidol'). Bydd angen i'r gwasanaethau deiliad hyn fodloni safonau perthnasol a bod ar gofrestr y llywodraeth o wasanaethau dibynadwy, er mwyn sicrhau eu bod o leiaf yr un mor ddiogel â GOV.UK Wallet.

Rydym yn chwilio am farn ar sut y gallwn ddarparu ffyrdd diogel i sefydliadau wirio'r ID digidol, gan gynnwys datblygiad posib gwasanaeth 'gwirio' y llywodraeth. Byddai'r gwasanaeth digidol hwn yn caniatáu i fusnesau a sefydliadau eraill 'wirio' yr ID digidol pan gaiff ei gyflwyno, i helpu i gadarnhau nad yw wedi'i ffugio, ei ddirymu ac na ymyrrwyd ag ef.

<u>Cwestiynau</u>

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

Efallai y bydd rhywun am ddileu eu ID digidol eu hunain o'u dyfais. Byddant yn gallu gwneud hyn ar unrhyw adeg, a bydd y broses wedi'i chynllunio i fod yn syml ac yn gyflym.

2.2.C1. A oes unrhyw ffactorau moesegol y dylai'r llywodraeth eu hystyried sy'n ymwneud ag unigolyn sy'n dileu eu ID digidol?

- **a.** Ydw
- **b.** Nac ydw
- **c.** Ddim yn gwybod
    - i. 2.1.C2.1. Esboniwch eich ateb

O dan amgylchiadau a reolir yn llym, efallai y bydd gan y llywodraeth hefyd y pŵer i ddirymu (h.y. canslo) ID digidol rhywun – er enghraifft, os yw ID digidol rhywun wedi'i nodi yn un wedi'i ddwyn neu ei ddefnyddio'n dwyllodrus. Bydd hyn yn cael ei lywodraethu gan brosesau cadarn.

2.2.C2. A oes unrhyw ffactorau moesegol y dylai'r llywodraeth eu hystyried sy'n ymwneud â dirymu (h.y. canslo) ID digidol unigolyn?

- **a.** Oes
- **b.** Nac oes
- **c.** Ddim yn gwybod

i. 2.1.C3.1. Esboniwch eich ateb

2.2.C3. Ydych chi'n meddwl y dylai pobl allu dewis storio eu ID digidol cenedlaethol yn uniongyrchol mewn gwasanaethau deiliaid (a elwir weithiau'n 'waledi digidol') heblaw am GOV.UK Wallet, sydd wedi'u hardystio i fodloni safonau'r llywodraeth?

- **a.** Oes
- **b.** Nac oes
- **c.** Ddim yn gwybod
    - i. 2.1.C5.1. Esboniwch eich ateb

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer arbenigwyr sy'n siarad yn eu rhinwedd eu hunain neu ar gyfer sefydliadau:*

2.2.C4. Er mwyn cefnogi defnydd diogel, mae angen ffordd gadarn o wirio'r ID digidol cenedlaethol a gyflwynir o GOV.UK Wallet. Bydd hyn yn helpu i gadarnhau nad yw wedi ei ffugio, ei ddirymu, na bod rhywun wedi ymyrryd ag ef. Mae'r sector preifat eisoes wedi datblygu gwasanaethau gwirio am ddim ac â thâl. Yn ogystal, rydym yn ystyried creu gwasanaeth 'gwiriwr y llywodraeth'. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chael gwasanaeth gwirio arfaethedig y llywodraeth ar gael i'w ddefnyddio yn y sector preifat a'r trydydd sector, am gost isel neu ddim cost?

- a. Cytuno'n gryf
- b. Cytuno rhywfaint
- c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- d. Anghytuno rhywfaint
- e. Anghytuno'n gryf
- f. Ddim yn gwybod
    - i. 2.1.C6.1. Esboniwch eich ateb

2.1.C5. Rydym yn ystyried sawl cyfyngiad ar wasanaeth gwirio'r llywodraeth, a hynny o fwriad. Er enghraifft, gallai fod yn gallu gwirio ardystiadau a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn unig, megis yr ID digidol cenedlaethol. Bwriad hyn yw gadael lle i wasanaethau gwirio trydydd parti. A oes unrhyw gyfyngiadau penodol rydych chi'n meddwl y dylem eu gosod ar gyfer gwiriwr y llywodraeth?

- a. Oes
- b. Nac oes
- c. Ddim yn gwybod
    - i. 2.1.C7.1. Esboniwch eich ateb

# Pennod 3.1: Gwybodaeth a gynhwysir yn yr ID digidol

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 3.1: Gwybodaeth a Gynhwysir yn yr ID Digidol.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Bydd yr ID digidol cenedlaethol dim ond yn cynnwys gwybodaeth sy'n angenrheidiol at ddibenion y system ID digidol. Fel lleiafswm, bydd yn cynnwys enw llawn person, dyddiad geni, cenedligrwydd, a delwedd wyneb biometrig (ffotograff) – ond ni fydd angen rhannu'r holl wybodaeth hon yn llawn pan ddefnyddir yr ID digidol. Er enghraifft, lle bo'n bosib, bydd yn rhannu yn unig fod person dros 18 oed, neu fod ganddynt hawl i weithio, yn hytrach na rhannu eu dyddiad geni llawn neu genedligrwydd.

Mae'r llywodraeth yn archwilio sut y gallai'r system adnabod ddigidol ein helpu i:

- gyfeirio'n gyson at bobl, fel y gallwn leihau biwrocratiaeth ac adeiladu gwasanaethau cyhoeddus mwy greddfol, effeithlon ac ymatebol (gofynnir cwestiynau am hyn ym Mhennod 3.2 yr ymgynghoriad hwn, ar drawsnewid y sector cyhoeddus).
- gwneud yn siŵr bod manylion pobl yn gywir ac yn gyfredol.
- caniatáu i bobl ddangos caniatâd i weithredu ar ran person arall.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar y posibilrwydd o gynnwys cyfeiriad. Gallai'r wybodaeth hon fod yn ddefnyddiol, ond, am fod data a chyfeiriad pobl yn y DU yn gallu dyddio yn gyflym, mae'n gymhleth ei wirio.

Nid ydym yn bwriadu cynnwys gwybodaeth am ryw neu rywedd gan nad yw'n angenrheidiol at ddiben arfaethedig yr ID digidol.

## Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

3.1.C1. Bydd yr ID digidol cenedlaethol yn cynnwys enw llawn, dyddiad geni, cenedligrwydd, a delwedd wyneb biometrig person (ffotograff). Pa wybodaeth bellach, os o gwbl, y dylai'r ID digidol ei chynnwys hefyd?

*Mae'r cwestiwn hwn i sefydliadau:*

3.1.C2. Nid yw'r llywodraeth yn bwriadu cynnwys gwybodaeth cyfeiriad ar yr ID digidol cenedlaethol i ddechrau, ond gall adolygu'r sefyllfa hon yn y dyfodol. Pe bai eich

sefydliad yn dibynnu ar y wybodaeth cyfeiriad hon, beth fyddai'n eich helpu i ymddiried mewn cyfeiriad ar yr ID digidol?

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

3.1.C3. Mae angen i fusnesau a sefydliadau sy'n derbyn yr ID digidol cenedlaethol ymddiried bod y wybodaeth arno yn gyfredol ac yn gywir. Rydym yn archwilio a ddylai fod gofyniad cyfreithiol ar bobl ag ID digidol i hysbysu'r llywodraeth o fewn amserlen briodol am newidiadau penodol (megis newid enw) neu wallau yn eu gwybodaeth bersonol fel y gellir diweddaru eu ID digidol.

I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â gofyniad cyfreithiol i hysbysu'r llywodraeth am newidiadau neu wallau o fewn amserlen briodol?

a. Cytuno'n gryf
b. Cytuno rhywfaint
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno rhywfaint
e. Anghytuno'n gryf
f. Ddim yn gwybod
    i. 3.1.C3.1. Esboniwch eich ateb

# Pennod 3.2: Trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 3.2: Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Defnyddir y system ID digidol genedlaethol i wella mynediad at wasanaethau cyhoeddus a'r profiad o ryngweithio â'r wladwriaeth.

Yn y tymor byr, rydym yn disgwyl iddo leihau ffynonellau ffrithiant wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, lleihau twyll yn seiliedig ar ddogfennau ffisegol, a rhoi mwy o reolaeth i bobl dros sut maen nhw'n rhannu eu gwybodaeth hunaniaeth. Er enghraifft, gallai'r ID digidol helpu pobl i brofi eu cymhwysedd yn hawdd (megis ar gyfer pleidleisio) neu wneud cais am gymorth gofal plant (megis Gofal Plant Di-dreth). Er na fydd rhaid gwneud cais am ID digidol, na'i ddefnyddio, i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, ymhen amser, rydym yn disgwyl y bydd yn lleihau dibyniaeth ar ddogfennau ffisegol wrth i bobl ddewis ei fabwysiadu.

Ymhen amser, bydd y system ID digidol hefyd yn anelu at roi ffordd i wasanaethau cyhoeddus gyfeirio'n gyson at unigolion ar draws gwasanaethau, a chaniatáu i wahanol

wasanaethau cyhoeddus baru a gwirio gwybodaeth am y bobl y maent yn eu gwasanaethu mewn ffyrdd cyfrifol, sy'n gwella preifatrwydd. Os dewisant optio i mewn, er enghraifft, gallai arbed pobl rhag treulio amser yn profi i sefydliadau pwy ydyn nhw neu fynd ar drywydd y gefnogaeth y mae ei hangen arnynt

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

3.2.C1: Gwyddom y gall pobl gael trafferth cael mynediad at neu hawlio'r gwasanaethau cyhoeddus y mae ganddynt hawl iddynt. Rydym am nodi'r prif broblemau yn y rhyngweithiadau hyn, fel y gallwn archwilio sut y gallai'r system ID digidol helpu i fynd i'r afael â'r rhain, gan wneud bywydau pobl yn haws. Pan fydd pobl yn rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus, efallai mai rhai problemau cyffredin a allai fod:

- **Cyfeirio** – efallai na fydd pobl yn gwybod pa wasanaethau cyhoeddus sydd ar gael iddynt
- **Pryderon preifatrwydd** – efallai y bydd pobl yn poeni â phwy y caiff gwybodaeth am eu sefyllfa ei rhannu
- **Amser ac ymdrech** – efallai na fydd pobl yn dod o hyd i'r amser i gwblhau'r prosesau sydd eu hangen i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus y mae ganddynt hawl iddynt
- **Profi eu hunaniaeth/cymhwysedd** – efallai na fydd gan bobl fynediad at y llythyron, dogfennau neu rifau cyfeirnod angenrheidiol y mae eu hangen i wirio eu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, neu i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus

A oes enghreifftiau o unrhyw rwystrau neu aneffeithlonrwydd sy'n eich atal chi (neu bobl rydych chi'n eu cefnogi) rhag rhyngweithio â gwasanaethau cyhoeddus, ydych chi'n meddwl y gallai'r system ID digidol helpu gyda nhw?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    i. Esboniwch eich ateb

3.2.C2: Ydych chi erioed wedi wynebu problemau gyda gwybod pa wasanaethau cyhoeddus sydd ar gael i chi yn seiliedig ar eich amgylchiadau neu, os ydych chi'n cefnogi pobl eraill, ydych chi wedi wynebu materion tebyg wrth eu cefnogi?

a. Ydw

b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. Os Ydw, esboniwch eich ateb

3.2.C3: Ydych chi erioed wedi methu neu wedi cael trafferth cael mynediad at wasanaeth cyhoeddus oherwydd nad oeddech chi'n gallu profi eich hunaniaeth neu, os ydych chi'n cefnogi pobl eraill, a ydych chi wedi wynebu problemau tebyg wrth eu cefnogi?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. Esboniwch eich ateb

3.2.C4. I'r rhai sy'n dewis ID digidol, byddai'r llywodraeth yn datblygu dull i adnabod a pharu pobl yn ddiogel ar draws gwahanol wasanaethau cyhoeddus i symleiddio rhyngweithiadau pob dydd rhwng unigolion a'r wladwriaeth.

Er enghraifft, gallai dull o'r fath helpu i sicrhau bod newidiadau yng ngwybodaeth unigolyn yn cael eu hadlewyrchu'n hawdd ac yn gyflym ar draws gwasanaethau, megis newid enw. Byddai hyn yn lleihau'r angen i bobl ddiweddaru eu gwybodaeth ar wahân ar gyfer pob gwasanaeth. Gallai hefyd adael i'r llywodraeth symud i ffwrdd o brosesau hen ffasiwn a biwrocrataidd, tuag at wasanaethau rhagweithiol, didrafferth, sydd ar gael pan fo angen.

I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â mabwysiadu ymagwedd o'r fath at drawsnewid y sector cyhoeddus?

a. Cytuno'n gryf
b. Cytuno rhywfaint
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno rhywfaint
e. Anghytuno'n gryf
f. Ddim yn gwybod
    i. Esboniwch eich ateb

3.2.C5. Pa broblemau moesegol, os o gwbl, allwch feddwl amdanynt wrth ddylunio ffordd o adnabod a pharu pobl ar draws gwasanaethau?

*Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer arbenigwyr sy'n siarad yn rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

3.2.C6. Pa broblemau technegol y mae angen i ni feddwl amdanynt wrth ddylunio ffordd o adnabod a pharu pobl yn gywir ar draws gwasanaethau cyhoeddus?

## Pennod 3.3: Defnyddioldeb yn yr economi ehangach

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 3.3: Defnyddioldeb yn yr Economi Ehangach.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Mae potensial i'r ID digidol cenedlaethol, fel prawf hunaniaeth cynhwysol, pwrpasol sy'n canolbwyntio ar breifatrwydd, chwyldroi sut mae pobl yn profi pethau amdanynt eu hunain yn eu bywydau pob dydd.

Mewn meysydd sydd heb ofynion rheoleiddio penodol, mae'n annhebygol y bydd rhwystrau hanfodol rhag defnyddio'r ID digidol cenedlaethol. Ar gyfer trafodion lle mae gofynion rheoleiddiol neu ofynion eraill yn golygu bod rhaid i unigolyn gyflwyno prawf adnabod neu gymhwysedd, mae'r llywodraeth yn gweithio i gael gwared ar unrhyw rwystrau rhag defnyddio'r ID digidol a chreu fframwaith o ddiogelwch a gofynion gweithredol.

Mae gwaith eisoes ar y gweill i gyflawni llawer o'r newidiadau angenrheidiol mewn sectorau a reoleiddir, fel y gellir defnyddio tystiolaeth ddigidol yn ddiogel, ochr yn ochr â dogfennau ffisegol. Rydym yn gofyn am farn pobl ar fanteision posib defnyddio'r ID digidol cenedlaethol yn yr economi ehangach, ac unrhyw ystyriaethau allweddol.

<u>Cwestiynau</u>

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

3.3.C1: Gellid defnyddio'r ID digidol cenedlaethol newydd ar draws y sectorau preifat a chyhoeddus, ochr yn ochr ag opsiynau eraill megis dogfennau ffisegol a manylion adnabod digidol priodol eraill, gan drydydd partïon?

I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai'r sector preifat a thrydydd partïon allu defnyddio'r ID digidol ochr yn ochr ag opsiynau eraill?

a. Cytuno'n gryf
b. Cytuno rhywfaint
c. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
d. Anghytuno rhywfaint
e. Anghytuno'n gryf
f. Ddim yn gwybod
    i. 3.3.C3.1. Esboniwch eich ateb

# Pennod 3.4: Mynd i'r afael â gweithio'n anghyfreithlon

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 3.4: Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Mae'r llywodraeth yn cynnig diwygiadau i wiriadau hawl i weithio yn rhan o'r system ID digidol genedlaethol. O dan y cynigion newydd, byddai angen i gyflogwyr sy'n cynnal gwiriad hawl i weithio cyn recriwtio gweithiwr wneud hynny'n ddigidol. Yr unig ffordd i wirio hawl person i weithio yn y DU cyn eu cyflogi fyddai drwy wiriad digidol cadarn yn erbyn eu ID digidol cenedlaethol, pasbort biometrig Prydeinig/Gwyddelig (neu gerdyn pasbort Gwyddelig) neu eVisa.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob busnes yn cael cymorth wrth symud i wiriadau digidol, ac yn gallu cydymffurfio â'r gwiriadau newydd Byddai cyfnod pontio, cymorth cyfathrebu a hyfforddiant yn helpu busnesau i addasu. Mae'r llywodraeth hefyd yn ystyried a ddylid creu gwasanaeth gwirio rhad ac am ddim neu gost isel a allai gael effaith yn y maes hwn, fel yr amlinellir ym Mhennod 2.2: Storio, rheoli a defnyddio'r ID digidol.

Rydym yn gofyn i sefydliadau asesu manteision ac effeithiau'r gwiriadau digidol hyn.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

3.4 C1 A oes unrhyw heriau ychwanegol nas cofnodwyd yn yr ymgynghoriad y byddai busnesau yn eu hwynebu wrth gynnal gwiriadau hawl i waith cwbl ddigidol ar gyfer pob gweithiwr newydd?

a. Oes
b. Nac oes
    i. 3.4.C1.1. Esboniwch eich ateb

3.4 C2 A fyddai angen unrhyw gymorth ychwanegol sydd heb ei gynnwys yn yr ymgynghoriad er mwyn i fusnesau gydymffurfio â gwiriadau hawl i weithio cwbl ddigidol?

a. Byddai
b. Na
    i. 3.4.C2.1. OS YDW, esboniwch eich ateb

*Mae'r cwestiwn hwn i sefydliadau:*

3.4 C3 Pa wybodaeth fyddai ei hangen ar eich sefydliad i fod yn hyderus bod gwiriad hawl i weithio digidol wedi'i gwblhau?

a. Dyddiad cwblhau
b. Hyd hawl i weithio
c. Amod gweithio
    i. 3.4.C5.1. Unrhyw wybodaeth arall nad yw wedi'i rhestru uchod

# Pennod 4.1: Cymhwysedd ar gyfer yr ID digidol

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen holl Bennod 4.1: Cynhwysedd ar gyfer yr ID Digidol.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Bydd pob dinesydd Prydeinig a Gwyddelig, a gwladolion tramor sydd â chaniatâd i fod yn y DU, ac sydd dros yr isafswm oedran y cytunwyd arno, yn gymwys ar gyfer yr ID digidol cenedlaethol. Y cynnig presennol yw mai 16 fyddai'r isafswm oedran, er ein bod yn ymgynghori ar leihau hyn i 13, neu sicrhau bod yr ID digidol ar gael o'u genedigaeth.

Byddai trefnu bod yr ID digidol ar gael o 13 oed yn golygu y gallai pobl ar ddechrau eu harddegau ei ddefnyddio yn ffordd o brofi eu hoedran wrth gael mynediad at y cyfryngau cymdeithasol. Pe bai ar gael o enedigaeth pobl, yn y dyfodol gallai hefyd helpu i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus gydol oes symlach. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod lleihau'r oedran isaf hefyd yn codi cwestiynau am breifatrwydd, diogelu a goruchwyliaeth rhieni.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

4.1.C1. Bydd pob dinesydd Prydeinig a Gwyddelig, a gwladolion tramor sydd â chaniatâd i fod yn y DU, ac sydd dros yr isafswm oedran y cytunwyd arno, yn gymwys ar gyfer yr ID digidol cenedlaethol. Oes unrhyw grwpiau eraill y dylid eu cynnwys?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    i. 4.1 C1.1 Rhestrwch pa grwpiau rydych chi'n credu y dylid eu cynnwys, a pham

4.1.C2. Pa un o'r oedrannau canlynol ydych chi'n meddwl sydd fwyaf addas i gael mynediad at y system ID digidol?

a. 16 oed
b. 13 oed
c. Genedigaeth
d. Arall
e. Ddim yn gwybod
    i. 4.1 C2.1. Esboniwch eich ateb

# Pennod 4.2 Datgloi mynediad ar draws cymdeithas

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen holl Bennod 4.2: Datgloi Mynediad Ar Draws Cymdeithas.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Bwriad y llywodraeth yw sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn gallu cael mynediad at yr ID digidol cenedlaethol. Rydym yn cydnabod y gallai rhwystrau ariannol, ymarferol ac eraill olygu y bydd rhai pobl yn cael trafferth cael mynediad at yr ID digidol, naill ai oherwydd eu bod yn cael trafferth cael tystiolaeth i gefnogi eu hunaniaeth gyfreithlon; neu efallai nad oes ganddynt y mynediad, y sgiliau, y cymorth na'r hyder sydd eu hangen i ddefnyddio gwasanaethau digidol.

Rydym yn chwilio am farn ar ba grwpiau y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt i gofrestru ar gyfer a defnyddio'r ID digidol, ac ar y ffyrdd mwyaf effeithiol o ymgysylltu a chefnogi'r rhai a allai fod yn wynebu risg o allgáu.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

Rydym yn ymrwymedig i raglen gynhwysiant i sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn y DU yn gallu cael mynediad at yr ID digidol.

4.2.C1. Efallai y bydd rhai pobl yn wynebu rhwystrau rhag creu neu ddefnyddio'r ID digidol cenedlaethol. Gall hyn fod oherwydd anhawster cyrchu prawf hunaniaeth traddodiadol (megis pasbort) neu oherwydd diffyg mynediad digidol, sgiliau neu hyder.

A ydych yn poeni am rwystrau nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    i. 4.2.C1.1 Pa rwystrau eraill ydych chi'n ymwybodol ohonynt a pham?

4.2.C2. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod y system ID digidol genedlaethol yn parhau'n driw i'r dull a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth ar lefel leol, cynyddu mynediad i'r rhyngrwyd a helpu pobl i ddatblygu sgiliau digidol.

Oes unrhyw gymorth penodol na chafodd ei nodi yn yr ymgynghoriad neu'r Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Digidol a fyddai'n eich helpu chi neu bobl eraill i ddefnyddio'r ID digidol cenedlaethol

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    i. 4.2.C2.1 Pa fathau eraill o gymorth fyddai'n ddefnyddiol a pham?

4.2.C3 Mae Pennod 4.2 yn cynnwys rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r bobl hynny a allai elwa fwyaf o fesurau cymorth ychwanegol i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at yr ID digidol cenedlaethol.

A oes unrhyw grwpiau sydd heb eu cynnwys yn y rhestr yr ydych yn credu y gallent fod mewn perygl o allgáu o'r ID neu ddigidol?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod

    i. 4.2 C3.1 Nodwch y grwpiau eraill a allai gael eu hallgáu, a disgrifiwch sut y gellid effeithio arnynt. Gwnewch hyn yn achos pob grŵp a nodwch.

# Pennod 4.3 Ymrwymiad i gefnogi cynhwysiant

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen holl Bennod 4.3: Ymrwymiad i Gefnogi Cynhwysiant.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Bydd angen cymorth penodol ar rai unigolion i greu a defnyddio'r ID digidol cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys pobl nad oes ganddynt ddogfennau adnabod traddodiadol, neu sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio gwasanaethau digidol neu gael mynediad atynt. Rydym yn ystyried ystod o gymorth pwrpasol i'r rhai sy'n cael trafferth cael mynediad at ddogfennau adnabod neu ymgysylltu'n ddigidol – wedi'i ddarparu'n lleol, wyneb yn wyneb, a chan sefydliadau dibynadwy. Rydym yn chwilio am farn pobl ar y ffordd orau o ddarparu'r cymorth hwn i'r rhai y mae ei angen arnynt.

<u>Cwestiynau</u>

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

4.3 C1.Pa fath o gymorth ddylai fod ar gael i bobl nad oes ganddynt ddyfais ddigidol (megis ffôn clyfar neu lechen) i'w galluogi i greu a chael mynediad at yr ID digidol?

a. Help pwrpasol a hygyrch yn lleol
b. Cymorth a hyfforddiant gan unigolion dibynadwy
c. Canllawiau a rhaglenni sydd wedi'u cynllunio i lywio a lledaenu sgiliau
d. Arall. Manylwch.

*Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer arbenigwyr sy'n ymateb yn rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

4.3 C2. Rydym yn ystyried cymorth hygyrch pwrpasol i'r rhai wedi'u heithrio'n ddigidol, wedi'i ddarparu'n lleol, wyneb yn wyneb gan sefydliadau dibynadwy. A oes unrhyw ffyrdd eraill rydych chi'n meddwl y dylai'r llywodraeth ystyried cefnogi'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    i. 4.3 C2.1 Esboniwch pa fesurau cefnogi y dylid eu hystyried

# Pennod 4.4 Hygyrchedd

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 4.4: Hygyrchedd.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Bydd yr ID digidol cenedlaethol yn bodloni safonau hygyrchedd, a bydd yn gydnaws ag offer megis darllenwyr sgrin, gorchmynion llais a rheolaethau bysellfwrdd. Bydd y gwasanaeth yn parhau i wella dros amser. Rydym yn chwilio am farn ar ba sefydliadau y dylem ymgysylltu â nhw i gefnogi dyluniad hygyrch yr ID digidol.

Cwestiwn

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

4.4.C1 Mae'r llywodraeth yn bwriadu ymgysylltu ag ystod o bobl a sefydliadau y tu allan i'r llywodraeth i helpu i sicrhau bod dyluniad a chyflwyno'r system ID digidol genedlaethol yn hygyrch. Allwch chi awgrymu unrhyw sefydliadau penodol neu fathau o sefydliadau y dylai'r llywodraeth ymgysylltu â hwy?

# Pennod 4.5: Llwybrau mynediad amgen

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 4.5: Llwybrau Mynediad Amgen.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gymwys yn gallu cael mynediad at yr ID digidol cenedlaethol, mae'r llywodraeth yn archwilio sut y gellid cael mynediad at yr ID digidol mewn modd amgen diogel, hygyrch, heb ddefnyddio dyfais. Rhaid bod modd gwirio unrhyw lwybr mynediad amgen yn ddigidol, rhaid iddo fodloni'r un safonau uchel o ddiogelwch ac amddiffyn yn gadarn rhag twyll. Mae gwledydd eraill sydd wedi sefydlu systemau ID yn darparu llwybrau mynediad amgen, megis cerdyn ffisegol gyda sglodyn clyfar darllenadwy gan beiriant sy'n cynnwys data ID y person. Byddwn yn ystyried ystod o ddulliau ac yn chwilio am safbwyntiau ar ba lwybrau amgen fyddai'n gweithio orau yng nghyd-destun y DU.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

4.5 C1 Rydym yn archwilio ffyrdd amgen o gael mynediad at yr ID digidol cenedlaethol i'r rhai nad ydynt yn gallu defnyddio dyfais. Beth ydych chi'n meddwl yw'r rhwystrau pwysicaf i'r llywodraeth fynd i'r afael â nhw wrth ddylunio llwybrau mynediad amgen ar gyfer yr ID digidol cenedlaethol?

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

4.5.C2. Os ydych chi'n rhywun nad yw'n defnyddio dyfais ddigidol, beth hoffech chi ei gael gan lwybr mynediad amgen?

## Pennod 5.1: Diogelu data a phreifatrwydd

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 5.1: Diogelu Data a Phreifatrwydd.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Bydd y system ID digidol genedlaethol yn ddarostyngedig i amgylchedd deddfwriaethol cryf y DU ar gyfer preifatrwydd a diogelu data. Bydd gofynion ac egwyddorion cyfreithiol cadarn ynghylch diogelu data a phreifatrwydd drwy ddylunio wedi eu hymgorffori drwy bob cam o ddatblygu a chyflwyno'r system newydd. Mae'r adran hon yn nodi prif

egwyddorion diogelu data a phreifatrwydd. Mae gwasanaethau dibynadwy'r llywodraeth ar hyn o bryd eisoes yn cadw at y rheolau preifatrwydd hyn, a bydd y system ID digidol yn dilyn yr un safonau uchel.

Yn ganolog i ddylunio a rhoi'r system ID digidol ar waith fydd lleihau data a grymuso defnyddwyr i gael rhagor o reolaeth dros faint o ddata maent yn ei rannu.

Rydym yn ceisio barn ar unrhyw fesurau ychwanegol y gallai'r llywodraeth eu cymryd i ddiogelu data yn y system ID ddigidol.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

5.1.C1. Oes unrhyw fesurau ychwanegol, y tu hwnt i'r egwyddorion a'r safonau a nodwyd yn yr ymgynghoriad, y dylem eu hystyried i ddiogelu data defnyddwyr ymhellach?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    i. 5.3 C1.1 Os Oes, esboniwch pa fesurau y dylem eu hystyried a pham

*Mae'r cwestiwn hwn ar gyfer arbenigwyr sy'n ymateb yn rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

5.1.C6 Bydd egwyddorion lleihau data a grymuso defnyddwyr i sicrhau bod ganddynt fwy o reolaeth dros faint o ddata maent yn ei rannu wrth ddefnyddio eu ID digidol cenedlaethol pan fyddant yn ei ddefnyddio yn ganolog i ddyluniad a rhoi'r system ID digidol ar waith. Sut dylai'r llywodraeth sicrhau tryloywder ynghylch sut y defnyddir data ID digidol cenedlaethol?

## Pennod 5.2: Diogelu'r system ID digidol genedlaethol

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 5.2: Diogelu'r System ID Digidol Genedlaethol.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Mae'r llywodraeth yn ystyried sut y gallwn ddiogelu'r system a diogelu defnyddwyr yr ID digidol rhag risgiau diogelwch, a sut y bydd y system yn cyd-fynd â systemau sefydledig sy'n llywodraethu mynediad cyfreithlon, diogelwch gwladol a phwerau'r heddlu. Bydd y system yn dysgu o systemau dibynadwy sefydledig ac yn adeiladu arnynt, yn cadw at egwyddorion seiberddiogelwch cryf, ac yn tynnu ar arbenigedd megis y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC).

Rydym yn ymrwymo i weithio gyda'r awdurdodau perthnasol ar gyfer seiberddiogelwch a diogelwch gwladol, ac arbenigwyr sector perthnasol eraill i brofi ac addasu ein dull gweithredu. Cynhelir y safonau uchaf a gwelliant parhaus i ddarparu diogelwch hirdymor y system ID digidol genedlaethol.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiwn hwn i bawb:*

5.2.C1. A oes unrhyw fesurau diogelwch ychwanegol at y rhai a enwir uchod y dylid eu hystyried mewn perthynas â'r system ID digidol genedlaethol?

a. Oes
b. Nac oes
c. Ddim yn gwybod
    a. Beth ydyn nhw a pham ydych chi'n eu hargymell?

# Pennod 5.3: Twyll yn her genedlaethol

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 5.3: Twyll yn Her Genedlaethol.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Mae twyll yn risg fawr i bobl a busnesau yn y DU. Mae dwyn hunaniaeth yn fector twyll sylweddol, ac mae troseddwyr yn debygol o dargedu'r ID digidol cenedlaethol. Mae'r dirwedd bygythiad twyll yn esblygu'n gyson drwy ddefnyddio technoleg megis deallusrwydd artiffisial. Bydd yn hanfodol i'r llywodraeth amddiffyn y system drwy ragweld a lliniaru'r risgiau a achosir gan sgamiau a chamwybodaeth. Rydym yn ceisio barn ar sut rydym yn diogelu rhag twyll i gefnogi defnyddwyr a busnesau orau, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio llwybrau mynediad amgen.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

Er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu cyrchu a defnyddio'r ID digidol cenedlaethol, bydd angen i'r broses ymgeisio gynnig llwybrau amgen a chymorth ychwanegol i'r rhai y mae eu hangen arnynt.

5.3.C1. Rydym am sicrhau bod y llwybrau mynediad amgen hyn yn ddiogel. Beth ydych chi'n meddwl yw'r ffactorau pwysicaf y mae angen i ni eu hystyried er mwyn cyflawni hyn?

5.3.C2. Beth ydych chi'n meddwl yw'r ffactorau pwysicaf i'w hystyried wrth sicrhau nad yw llwybrau mynediad amgen i'r ID digidol cenedlaethol yn cael eu camddefnyddio gan weithredwyr twyllodrus?

## Pennod 5.4 Sicrhau goruchwyliaeth a llywodraethu cryf

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Bennod 5.4: Sicrhau Goruchwyliaeth a Llywodraethu Cryf.

Rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Bennod hon isod, fodd bynnag.

Mae goruchwylio'r ar y system ID digidol genedlaethol yn debygol o gynnwys cyfuniad o brosesau mewnol ac allanol i sicrhau craffu annibynnol priodol ac i ddwyn y llywodraeth i gyfrif. O bwysigrwydd penodol yw sut y gall unigolion geisio datrysiad os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, ac er mwyn i'r broses hon fod yn gyflym, yn glir ac yn effeithiol. Bydd y Senedd yn chwarae rôl allweddol wrth graffu ar gynigion ar gyfer y system ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a gyflwynir oddi tani. Yn ogystal, bydd y system ID digidol yn ddarostyngedig i ofynion adrodd tebyg ynghylch ei pherfformiad ariannol a'i gweithgarwch i adrannau eraill y llywodraeth. Rydym yn ceisio barn pobl ynghylch a yw'r dulliau goruchwylio presennol yn ddigonol, neu a oes angen goruchwyliaeth ychwanegol, a pha fesurau cymorth ddylai fod ar waith i sicrhau y gellir datrys problemau unigolion yn gyflym ac yn effeithiol.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer arbenigwyr sy'n ymateb yn rhinwedd eu hunain ac ar gyfer sefydliadau:*

5.4.C1 Pa ddulliau goruchwylio ychwanegol, os o gwbl, y dylid eu sefydlu ar gyfer y system ID digidol genedlaethol?

5.4.C2 Pa fesurau allwch chi eu hawgrymu, os o gwbl, y gellid eu sefydlu i sicrhau bod pobl yn gallu datrys problemau gyda'u ID digidol cenedlaethol?

*Mae'r cwestiynau hyn ar gyfer aelodau'r cyhoedd:*

5.4.C3 Pa ddulliau goruchwylio ychwanegol, os o gwbl, fyddai'n eich helpu i gael ymddiriedaeth yn y system ID digidol genedlaethol?

5.4.C4 Pa fesurau ydych chi'n meddwl y dylid eu sefydlu i'ch helpu i deimlo'n hyderus wrth ddatrys unrhyw broblemau gyda'ch ID digidol cenedlaethol?

# Rhan 6: Crynodeb Ehangach o'r Effeithiau

Er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn fwyaf effeithiol, rydym yn eich cynghori'n gryf i ddarllen y cyfan o Ran 6: Crynodeb Ehangach o Effeithiau. Fodd bynnag, rydym wedi cynnwys crynodeb o'r Rhan hon isod.

Rydym wedi ystyried effaith y system ar fusnesau, y sector cyhoeddus, ac aelwydydd, yn ogystal ag ar y sector Gwasanaethau Gwirio Digidol (DVS). Yn fwy penodol, mae'r effeithiau yr ydym wedi'u hystyried yn cynnwys effeithlonrwydd i wiriadau hawl i weithio (amser a chost), gostyngiadau posib mewn twyll budd-daliadau, a chost y system. Er bod llawer o elfennau yn cael eu datblygu o hyd, ni ellir meintioli effeithiau llawn y system eto, felly nod yr ymgynghoriad yw casglu tystiolaeth ehangach i gefnogi asesiad effaith manylach yn y dyfodol.

Cwestiynau

I'ch atgoffa: peidiwch â chynnwys gwybodaeth a allai adnabod unigolyn penodol mewn unrhyw ymatebion testun rhydd.

*Mae'r cwestiynau hyn i bawb:*

6.1 C1. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fanteision eraill i fusnesau o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 6.1 C1.1 Os Ydw, beth ydych chi'n meddwl fyddai'r manteision hyn?

6.1 C2. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw gostau eraill i fusnesau o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 6.1 C2.1 Os Ydw, faint ydych chi'n meddwl fyddai'r costau hyn?

6.1 C3. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw fanteision eraill i aelwydydd o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 6.1 C3.1 Os Ydw, beth ydych chi'n meddwl fyddai'r manteision hyn?

6.1 C4. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw gostau eraill i aelwydydd o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod
    i. 6.1 C4.1 Os Ydw, faint ydych chi'n meddwl fyddai'r costau hyn?

6.1 C5. Ydych chi'n meddwl bod unrhyw effeithiau ehangach eraill o gyflwyno'r system ID digidol genedlaethol nad ydynt wedi'u hystyried yn yr ymgynghoriad hwn?

a. Ydw
b. Nac ydw
c. Ddim yn gwybod

i. 6.1 C5.1 Os Ydw, beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau ehangach hyn?

*Ar y platfform arolwg ar-lein, os nodwch fod gennych ddiddordeb ym mhob rhan o'r ymgynghoriad, gofynnir i chi hefyd:*

6.1 C6 A oes unrhyw beth arall nad yw wedi'i gynnwys yn y cwestiynau hyn yr hoffech ei rannu gyda ni yn yr ymgynghoriad hwn?

## [Tudalen wag – peidiwch â'i dileu]

[Tudalen wag – peidiwch â'i dileu]

[CLAWR CEFN]

E03528850

978-1-5286-6190-4